Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>15 MEHEFIN 2020<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>15 JUNE 2020<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | | **VIRTUAL MEETING** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2020.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 4 2019/20** (Tudalennau 19 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**6** **ALLDRO CYFALAF 2019/20** (Tudalennau 51 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB CRT - ALLDRO 2019/20** (Tudalennau 65 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**8** **CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2020-2050** (Tudalennau 73 - 118)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**9** **MIM - CYTUNDEB PARTNERIAETH STRATEGOL** (Tudalennau 119 - 134)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**10** **DIWEDDARIAD O YMATEB Y CYNGOR HYD YMA I'R ARGYFWNG COVID -19** (Tudalennau 135 - 156)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 157 - 158)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.

**12** **RHOI ESTYNIAD I GONTRACT CYFREDOL AM 12 MIS PELLACH** (Tudalennau 159 - 164)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 10)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Dros Dro)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Cynghorydd G. O.Jones (Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) (gwahoddwyd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol). |

---

Cyn dechrau busnes y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i holl staff y Cyngor am eu hymdrechion yn ystod wythnos heriol iawn o ganlyniad i'r sefyllfa oedd yn datblygu mewn perthynas â phandemig Covid-19 a mynegodd werthfawrogiad hefyd am y gefnogaeth a gynigir gan wirfoddolwyr. Ar ôl y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith, ac yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ynghylch lleihau cysylltiad cymdeithasol, eglurodd y byddai’r ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau yn newid, gydag awdurdod i wneud penderfyniadau’n cael ei ddirprwyo i'r Arweinydd; fodd bynnag, pwysleisiodd y bydd y penderfyniadau hynny’n canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng presennol ac ar sicrhau parhad busnes y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Gan fanteisio ar y cyfle hwn, anogodd bawb i wrando ar gyngor y Llywodraeth, i gadw'n ddiogel ac i ofalu am ein gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Nid oedd dim materion brys i adrodd arnynt.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Chwefror a 2 Mawrth, 2019 i'w cymeradwyo.

**Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –**

- **17 Chwefror, 2020**
- **2 Mawrth, 2020**

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd, 2020 i gael ei ystyried.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y canlynol yn eitemau newydd ar y Flaenraglen Waith yn unol â'r wybodaeth a gyhoeddwyd-

- Eitem 1 – Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 – Polisi (RIPA) (Penderfyniad Deilydd Portffolio Corfforaethol i'w gyhoeddi ym mis Ebrill, 2020)
- Eitem 3 – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (ar gyfer cyfarfod 27 Ebrill, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitem 11 – Cyflwyno taliadau Galw Gofal – Care Connect ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor (ar gyfer cyfarfod 15 Mehefin, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitem 18 – Adroddiad Cynnydd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer cyfarfod 28 Medi, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitem 20 – Cyllideb 2020/21: cwblhau cynigion y gyllideb ddrafft gychwynnol ar gyfer ymgynghori (ar gyfer cyfarfod 9 Tachwedd, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitemau 22-25 – Adroddiadau Monitro Perfformiad ac Ariannol (ar gyfer cyfarfod 30 Tachwedd, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitem 26 – Datganiad o Bolisi Trwyddedu (ar gyfer cyfarfod 30 Tachwedd, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ebrill i Dachwedd, 2020 fel y'i chyflwynwyd.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO CHWARTER 3 2019/20

Cafodd adroddiad Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2019/20 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Nododd y Cadeirydd fod Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3 yn rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad, gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn rhai Gwyrdd ac mai dim ond ychydig o feysydd y mae angen rhoi sylw iddynt ar ddiwedd y trydydd chwarter.

Cadarnhaodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod yr adroddiad ar y cyfan yn galonogol ond ei fod hefyd yn dangos yn glir y meysydd penodol hynny nad ydynt yn cyrraedd targedau a'r camau i'w cymryd i wella eu perfformiad yn Chwarter 4. Nodwyd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas â meysydd sy'n tanberfformio, a rhoddir sylw i hyn wrth symud ymlaen.

Adroddwyd yn ôl gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, am gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth lle cafodd Cerdyn Sgorio Corfforaethol

DRAFT

Chwarter 3 ei archwilio a'i drafod. Roedd y Pwyllgor wedi cydnabod y gwelliannau sy'n cael eu gwneud ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor, gan nodi hefyd fod agweddau ar berfformiad o fewn Gwasanaethau Tai, Cynllunio, Hamdden ac Oedolion yn methu'r targed. Roedd y Pwyllgor wedi nodi ymhellach y meysydd y mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol, ac roedd yn cefnogi'r mesurau lliniaru a gyflwynwyd i wella perfformiad yn y meysydd hynny yr oedd yn eu hargymell i'r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd y Cynghorydd  Aled Morris Jones ei fod yn cydnabod bod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol bellach wedi cael ei effeithio gan ddigwyddiadau ac y bydd camau i fynd i'r afael â sefyllfa Covid-19, ac ymateb iddi, yn cael blaenoriaeth o reidrwydd dros yr wythnosau nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr adborth a dywedodd fod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn dangos bod y Cyngor mewn sefyllfa gadarn o ran perfformiad y gwasanaeth, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer ymateb i'r sefyllfa anodd sydd ohoni.

**Penderfynwyd nodi'r meysydd mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru sy'n cael eu hamlinellu yn yr adrdoddiad.**

## 6. DATBLYGU DARPARIAETH HAMDDEN AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Cafodd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro, sy'n cynnwys Cynllun Drafft i Ddatblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cadeirydd yr ymgynghorwyd ynghylch y Cynllun ar sawl lefel, gan gynnwys Chwaraeon Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mewn sesiynau briffio Aelodau Etholedig. Mae'r Cynllun yn gadarnhaol yn ei agwedd ac mae'n ceisio cadw'r pedair canolfan hamdden bresennol gan ddarparu rhaglen dreigl o welliannau dros amser fel y gall y canolfannau ddiwallu anghenion poblogaeth yr Ynys yn y dyfodol o ran ffitrwydd, iechyd a lles. Cafodd fersiwn drafft y Cynllun ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth. Cefnogwyd y Cynllun, gan argymell bod y cynnwys yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith - yn arbennig y cynigion ar gyfer cynnal a chadw a gwella a amlinellir ynddo.

Dywedodd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro fod y Cynllun Hamdden newydd yn ateb fforddiadwy a realistig i gynnal y canolfannau presennol dros y tymor byr i ganolig hyd nes y bydd y sefyllfa ariannol bresennol yn gwella.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y Cynllun gan gydnabod ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i ddarparu'r ddarpariaeth hamdden yn y dyfodol a'i bod hefyd yn bwysig bod y cyhoedd yn gwybod mai strategaeth y Cyngor yw cadw bob un o'r pedair canolfan a buddsoddi yn y cyfleusterau hynny.

**Penderfynwyd mabwysiadu'n ffurfiol y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.**

## 7. PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS MEWN PWYLLGORAU SGRIWTINI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro sy'n cynnwys Protocol Siarad Cyhoeddus drafft i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Protocol yn cynnig ffordd deg a threfnus i aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini.

Dywedodd y Cyfreithiwr ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, er bod siarad cyhoeddus yn y Pwyllgorau Sgriwtini yn bosibl ar hyn o bryd, nad oes gweithdrefn bendant ar gyfer gwneud hynny; mae'r Protocol drafft yn rhoi cyfle i roi canllawiau clir a ffurfiol ar waith i roi gwybod i'r cyhoedd ac Aelodau Sgriwtini am y trefniadau ar gyfer siarad yn gyhoeddus yn y Pwyllgorau Sgriwtini ac i sicrhau felly bod disgwyliadau'r broses yn cael eu rheoli. Mae prif ddarpariaethau'r Protocol fel a ganlyn–

- Bydd Swyddogion yn ymgymryd â'r gwaith gweinyddol o dan y Protocol mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd Sgriwtini perthnasol.
- Gall aelodau'r cyhoedd wneud cais i siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini os ydynt wedi cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Swyddog Sgriwtini o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid gwneud y cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol o wefan y Cyngor a dylid eu hannog i anfon eu ceisiadau'n electronig. Dylai unrhyw ddeunydd ysgrifenedig ategol hefyd gael ei gyflwyno 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini.
- Caiff aelodau'r cyhoedd eu hannog i adolygu Blaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Sgriwtini i gael gwybodaeth am y materion sydd i'w hystyried.

Dywedodd y Swyddog mewn cywiriad i'r adborth gan y Pwyllgorau Sgriwtini yn Atodiad 2 yr adroddiad fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi argymell y dylid mabwysiadu'r Protocol ar yr amod bod disgwyliad yn y Protocol bod y Cadeiryddion Sgriwtini yn cael cyngor gan y Swyddog Sgriwtini a'r swyddog monitro cyn caniatáu ceisiadau hwyr. Dywedodd pe bai'r Protocol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, mai'r bwriad yw rhoi cyhoeddusrwydd iddo drwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol ac i'r Cadeiryddion Sgriwtini dynnu sylw at y Protocol gyda'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Hefyd, bydd Blaenraglen Waith pob Pwyllgor Sgriwtini, yn ogystal â'r holl ddogfennau ymgynghori cyhoeddus, yn cynnwys cyfeiriad at y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r ddarpariaeth siarad cyhoeddus. Bydd y Protocol yn cael ei adolygu ar ôl blwyddyn i asesu a yw ei ddefnydd wedi bod yn effeithiol.

Adroddwyd yn ôl gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, am gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2020, lle ystyriwyd y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini, gan ddweud ei fod bob amser wedi bod yn arfer ganddo ef, fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, i ganiatáu i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor heb osod cyfyngiadau amser ar siaradwyr cyhoeddus. Wrth gadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi pleidleisio gyda mwyafrif i dderbyn y Protocol, ac i'w argymell i'r Pwyllgor Gwaith, gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am drafodaeth fanwl ar y Protocol yn y Cyngor Llawn pan fyddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny a chyn iddo gael ei fabwysiadu.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y Protocol gan nodi ei fod yn cynnig canllawiau yr oedd mawr eu hangen ar siarad cyhoeddus mewn pwyllgorau sgriwtini, a thrwy hynny roi eglurder i aelodau'r cyhoedd ynghylch y trefniadau a'r disgwyliadau mewn perthynas â chyflwyno eu barn yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Sgriwtini. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn fwy na pharod i gefnogi'r Protocol fel y'i cyflwynwyd a chytunwyd y dylid cyflwyno a thrafod y gwelliant o ran ceisiadau hwyr a gynigiwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan y Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn bod y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu a'i fod yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n amlinellu'r cynnydd a wneir o ran y gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried.

Adroddodd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod pedair elfen i'r diweddariad fel a ganlyn–

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGC) - Adolygiad Perfformiad Awdurdodau Lleol – derbyniodd y Cyngor ei Lythyr Adolygiad Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol AGC ddiwedd mis Hydref, 2019; roedd y llythyr yn rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod lleol i weithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac roedd hefyd yn amlinellu blaenraglen waith yr Arolygiaeth. Mae'r adroddiad yn nodi'r negeseuon allweddol o'r llythyr adolygu ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant o dan bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 –Lles; Pobl - Lleisiau a Dewis; Atal, a Phartneriaethau ynghyd ag ymateb y Gwasanaeth i'r materion a godwyd.
- Adborth gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar 2 ddiwrnod o fonitro yn Llythyr Gwasanaethau Plant CSYM dyddiedig 25 Hydref, 2019 a oedd yn cynnwys gwerthuso ffeiliau achos a chyfweld Rheolwyr Timau Gweithredol a Swyddogion Adolygu Annibynnol - mae'r llythyr adborth yn nodi bod canfyddiadau AGC yn dangos bod gwasanaeth ar drywydd cadarnhaol o ran gwella gyda chefnogaeth arweinwyr a rheolwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb am ysgogi gwelliannau. Mae'r llythyr yn tynnu sylw ymhellach at ddarnau da o waith yn ogystal â meysydd sydd angen eu gwella ac fe'u nodir yn yr adroddiad.
- Cydweithio â Voices from Care Cymru (asiantaeth wirfoddol Cymru gyfan sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i hyrwyddo eu hawliau a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer) – mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gyda Voices from Care Cymru i sefydlu grŵp cyfranogiad misol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 14 a 22 oed sy'n derbyn gofal i gefnogi Ynys Môn i ddatblygu Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal.
- Sicrhau Ansawdd – mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yr Uned Diogelu a Gwella gan gynnwys gweithredu'r Fframwaith Gwella Ansawdd.

  Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor, wrth ystyried yr adroddiad cynnydd yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2020, wedi cadarnhau ei fod yn fodlon ar gyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i fod yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud.

  Wrth ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, nododd y Pwyllgor Gwaith ei fod yn cyfeirio at gryfhau'r Cylch Gwella a gofynnodd am eglurhad o'r modd y ceir tystiolaeth o hyn ac a yw'r Gwasanaeth yn fodlon ar y cynnydd a wneir yn hyn o beth. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y gwasanaeth wedi atgyfnerthu'r trefniadau sicrhau ansawdd anffurfiol a oedd ar waith dair blynedd yn ôl yn fframwaith ffurfiol sy'n nodi'r dull o wella ac yn rhoi tystiolaeth o hynny ar waith. Cryfhawyd y cylch gwella ymhellach trwy ddysgu oddi wrth gwynion, drwy gyfranogiad cynyddol gweithwyr gofal cymdeithasol yn ogystal â rheolwyr o ran sicrhau ansawdd gyda gweithgarwch sicrhau ansawdd e.e. archwiliadau a gynhelir "gyda" yn hytrach na "i" staff. Mae cynnwys partneriaid hefyd yn gwneud y broses sicrhau ansawdd yn un fwy cyfannol. Nid yw'r ddogfen Sicrhau Ansawdd yn sefydlog – mae'n newid wrth i'r gwasanaeth symud ymlaen ac mae'n cael ei haddasu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau. Caiff llawer o safonau ymarfer y Gwasanaethau eu hasesu yn erbyn y ddogfen Sicrhau Ansawdd.

Derbyniodd y Pwyllgor Gwaith eglurhad gan nodi ymhellach fod angen i'r gwersi a ddysgir o ganfyddiadau gwaith archwilio gael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu a'u hategu gan fesurau lliniaru priodol sydd wedyn yn dod yn rhan annatod o waith yn y dyfodol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor Gwaith yn cael ei ddiweddaru bob chwe mis neu bob blwyddyn i ddangos yr hyn a ddysgwyd a sut mae'r dysgu wedi'i wreiddio a'i amlygu mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd –**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd ."**

**10. GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ARFAETHEDIG CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL BIWMARES**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r bwriad i gyflwyno gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer hen Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Biwmares, Steeple Lane, Biwmares, i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cynghorwyd y Pwyllgor Gwaith mai diben y Cyngor wrth geisio caffael hen adeilad y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yw ail-ddatblygu'r safle i ddarparu tai fforddiadwy i ateb y galw sydd heb ei ddiwallu ym Miwmares. Mae'r adeilad wedi bod yn wag fel clwb cymdeithasol ers blynyddoedd ac mae mewn cyflwr gwael. Mae'r ailddatblygiad arfaethedig yn cynnig defnydd arall i'r safle. Bydd y defnydd hwnnw'n cael effaith gadarnhaol amlwg ar y safle a'r ardal, gan ddiogelu a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth a dilyn polisi lleol a chenedlaethol. Mae'r adroddiad yn manylu ar y materion i'w hystyried mewn perthynas â'r cam gweithredu arfaethedig ac yn nodi'r cyfiawnhad dros orchymyn prynu gorfodol.

**Penderfynwyd -**

- **Awdurdodi pryniant gorfodol yr hen Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol, Steeple Lane, Biwmares fel y nodir ef ar y cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad a hynny o dan Adran 17 o Ddeddf Tai 1985 (Caffael Tir i Ddibenion Tai) er mwyn darparu cynllun tai fforddiadwy.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai gymryd pob cam sy'n angenrheidiol i sicrhau gorchymyn prynu gorfodol a breinio teitl yn y Cyngor.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, i setlo'r holl iawndal sy'n daladwy o ganlyniad i'r gorchymyn.**
- **Awdurdodi datblygu tai fforddiadwy ar y safle ar ôl caffael y safle yn amodol ar sicrhau'r caniatad cynllunio priodol ac ar yr amod hefyd fod y prosiect yn hyfyw.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**



DRAFT

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
**Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021**

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Mehefin 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Mewn sefyllfa arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Gorffennaf 2020** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2020 | |
| 2 | **Covid-19 – Cynllun Adfer** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Prif Weithredwr | Dylan Williams<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Gorffennaf 2020 | |
| 3 | **Cynllun Bioamrywiaeth**<br><br>Cymeradwyo'r Cynllun, | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Gorffennaf 2020 | |
| 4 | **Unedau Ychwanegol ar safle Marquis, Rhosybol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Gorffennaf 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Trefniadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Cludiant Addysg** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Gorffennaf 2020 | |
| **Medi 2020** | | | | | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2020 | |
| 7 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarfwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | |
| 8 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | |

Tudalen 12

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | |
| 10 | **Datganiad Cyfrifon 2019/20** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | Cyngor Llawn |
| 11 | **Cynllun Ariannol y Tymor Canolig** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | |
| 12 | **Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | Cyngor Llawn |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cynllun Rheoli AHNE 2020-2025** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | Cyngor Llawn |
| 14 | **Cyflwyno cais llawn i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol i gael statws Cymuned Awyr Dywyll Ryngwladol i Ynys Môn** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2020 | |
| | | | | **Hydref 2020** | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2020 | |
| 16 | **Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Hydref 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2020** | | | | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2020 | |
| 18 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Tachwedd 2020 | |
| 19 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Tachwedd 2020 | |
| 20 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Tachwedd 2020 | |

Tudalen 15

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Datganiad Polisi Trwyddedu** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Tachwedd 2020 | Cyngor Llawn<br><br>8 Rhagfyr 2020 |
| 22 | **Cyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith / Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Tachwedd 2020 | |
| | **Rhagfyr 2020** | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Rhagfyr 2020 | |
| | **Ionawr 2021** | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Ionawr 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021

Diweddarwyd 5 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Chwefror 2021** | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Chwefror 2021 | |

Tudalen 17

*Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **15 MEHEFIN 2020** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 4, 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**01248 751865**<br>**CLAIREKLIMASZEWSKI@YNYSMON.GOV.UK** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau.**

**1.** Ym mis Chwefror 2019, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2019/20 gyda gwariant net y gwasanaethau, sef swm o £133.324m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Roedd y cyfanswm ar gyfer cronfeydd wrthgefn cyffredinol ac eraill £1.891m. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei chynyddu i £1.444m. O'r herwydd, roedd cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn £135.210m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2019/20 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.561m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni ei adlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso'r gyllideb, cafodd swm ychwanegol o £0.277m ei gynnwys yn y gyllideb a'i ddal yn ganolog. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cael ei ddyrannu i gwrdd â phwysau ychwanegol yn y maes Anabledd Dysgu. Yn ychwanegol at hyn, cafodd £479k o'r cyllid (50%) mewn perthynas â chostau ychwanegol pensiynau athrawon ei gadw'n ganolog, gan fod cost pensiynau athrawon wedi cael ei gyllido'n llawn yn flaenorol yn y gyllideb ddatganoledig ysgolion ond, ar gyfer 2019/20, caiff ei gyllido gan grant. Mae'r cyllid craidd hwn a ryddhawyd wedi cael ei roddi yng nghronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar alldro am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2019/20, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r Gronfa Dreth Gyngor, yw tanwariant o £0.308m. Mae hyn yn cyfateb i 0.20% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2019/20. Er gwaethaf y tanwariant, mae pwysau sylweddol yn parhau megis yn y Gwasanaethau Oedolion.

**5.** Argymhellir y dylid:-

- **(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol amodol yr Awdurdod ar alldro 2019/20;
- **(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir yn Atodiad C;
- **(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
- **(iv)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2019/20 yn Atodiad D;
- **(v)** Nodi monitro costau asiantaeth ac ymgynghoriaeth ar gyfer 2019/20 yn Atodiadau DD, E ac F;
- **(vi)** Rhyddhau £85k o'r balansau cyffredinol i sicrhau bod cyllid digonol ar gael i wneud y gwaith paentio ar Bier Biwmares.

| | | |
|---|---|---|
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | Amherthnasol | |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater hwn yn un sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydi | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydi | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | D/B – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Angylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Amodol 2019/20
- Atodiad B – Tabl o'r sefyllfa alldro Amodol ar gyfer 2019/20
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl 2019/20
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed ar gyfer 2019/20
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2019/20
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2019/20
- Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'r gwariant ar Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2019/20 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 18 Chwefror 2019 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 27 Chwefror 2019)

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - ALLDRO 2019/20

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth cefn clustnodedig gwerth £8.728m a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £0.631m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro terfynol, archwiliedig ar gyfer 2018/19 at falansau cyffredinol a oedd yn £5.912m ar gychwyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu cyllido o'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn 2019/20:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -5.912 | Y Gronfa wrth Gefn derfynol archwiliedig ar 31 Mawrth 2019. |
| Cyngor llawn 27 Chwefror 2019 | -0.479 | Bod cyllid (50%) mewn perthynas â chostau ychwanegol pensiynau athrawon yn cael ei ddychwelyd i'r gronfa wrth gefn Gyffredinol gan fod cost pensiynau athrawon wedi cael ei gyllido'n llawn yn y Gyllideb Ddatganoledig Ysgolion. Yn lle hynny, bydd costau y pensiynau athrawon hyn yn cael eu hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20. |
| Pwyllgor Gwaith 25 Tachwedd 2019 | 0.110 | Cyllid ar gyfer tâl gwyliau athrawon llanw o Ragfyr 2015 hyd heddiw. Gall hyn amrywio rhywfaint pan fydd yr argostau gwirioneddol yn hysbys. |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **-6.281** | **Gall hyn newid ar ôl gwneud addasiadau'n dilyn archwiliad.** |

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaed addasiadau pellach i'r gronfa wrth gefn gwerth cyfanswm o £0.472k, gan gynnwys lleihau'r ddarpariaeth yswiriant a lleihau'r gronfa wrth gefn ar gyfer tâl cyfartal. Cododd hyn y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol i £ 6.753m. Ar alldro mae tanwariant o £0.308k ar gyfer 2019/20 ar gyllidebau y gellir eu rheoli a chyllidebau na ellir eu rheoli, sydd wedi cynyddu Cronfa wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor i £7.061m. Nid yw'r ffigwr hwn wedi cael ei archwilio a gall newid yn sgil addasiadau ar ôl archwiliad. Gosodwyd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 ar £142.146m ac mae'r lefel hon o falansau cyffredinol yn cyfateb i 4.9% o gyllideb refeniw net 2020/21. Y ffigwr targed yw 5% (£7.1m) ac mae'r ffigwr hwn yn is na'r ffigwr targed.

Mae effaith Covid-19 ar gyllid y Cyngor yn ansicr ar hyn o bryd. Mae'r costau ychwanegol a geir yn 2020/21, wrth i'r Cyngor ddelio ag effaith y pandemig yn cael eu had-dalu trwy grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn colli tua £400k o incwm ac, er y gallai peth o'r golled hon gael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol o gwrdd â'r golled gyfan. Mae'r diffyg yn dibynnu i raddau helaeth ar pryd y bydd gwasanaethau'n ailagor ac yn dychwelyd i ryw lefel o normalrwydd a bydd hyn yn cael effaith ar falansau'r Cyngor. Yn ogystal, efallai y bydd y Cyngor yn wynebu costau ychwanegol er mwyn trawsnewid gwasanaethau i ddelio â materion fel ymbellhau cymdeithasol. Nid oes cyllideb i dalu'r costau hyn ac maent yn debygol o ddisgyn ar falansau cyffredinol y Cyngor.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion perfformiad ariannol fesul gwasanaeth yn Atodiad B. Er bod gorwariant o £1,138k gan y Gwasanaethau Oedolion ar y gyllideb y gellir ei rheoli ar ddiwedd y flwyddyn, ynghyd â gorwariant o £155k gan y Gwasanaethau Plant, mae tanwariannau nodedig hefyd, sef gan y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd £117k, Priffyrdd £181k, Addysg £257k, Rheoli Gwastraff £209k, Trawsnewid Corfforaethol £189k, Adnoddau £220k a Chorfforaethol a Democrataidd £104k. Mae Cyllid Corfforaethol yn tanwario ar eitemau y gellir eu rheoli - £426k (cronfeydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a cyllido Cyfalaf), sy'n golygu bod cyllidebau y gellir eu rheoli, gyda'i gilydd, yn dangos tanwariant o £594k. Mae cyllidebau na ellir eu rheoli wedi gorwario £286k (Dreth Gyngor a Cyllido Cyfalaf) gan ddod â'r tanwariant cyffredinol i £308k.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (tua £100k neu uwch). Sylwer os gwelwch yn dda fod y ffigyrau hyn yn ymwneud â'r sefyllfa mewn perthynas â'r cyllidebau y gellir eu rheoli ym mhob gwasanaeth.

| **Crynodeb o'r Amrywiadau Sylweddol ar 31 Mawrth 2020** | |
|---|---|
| | **(Tanwariant) / Gorwariant £000** |
| Oedolion | 1,138 |
| Plant | 155 |
| Addysg | (257) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (117) |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff | (347) |
| Trawsnewid | (309) |
| Adnoddau | (220) |
| Costau Democrataidd Corfforaethol | (104) |
| Cyllid Corfforaethol | (426) |
| Costau na ellir eu rheoli – dyledion drwg, yswiriannau a chostau cyfalaf pensiwn | 286 |
| Eraill (y mae eu gwerth unigol yn disgyn o dan £100k | (107) |
| **Cyfanswm yr amrywiad gor / tanwariant** | **(308)** |

## 3. Eglurhad ar yr Amrywidau sylweddol

### 3.1 Addysg Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gan y gwasanaeth hwn danwariant o £257k (4.40%) ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n welliant sylweddol ar y gorwariant o £2k a ragwelwyd ym Mis 11. Costau is na'r disgwyl ar brydau ysgol (£206k) ac ar leoliadau allsirol (£582k) (wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r Sir yn gynt na'r disgwyl) sydd wedi arwain at y newidiadau mwyaf sylweddol.

**3.1.1.2** Y gweithgareddau eraill i'w nodi o fewn y gyllideb yw:-

- Bu gorwariant o £345k ar y gwasanaeth Trafnidiaeth Ysgol ar alldro, sy'n debyg i'r gorwariant o £358k a ragwelwyd yn Chwarter 3. Gweithredwyd y System Drafnidiaeth 'One' yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol sydd wedi rhesymoli'r gwaith o gynllunio llwybrau'r teithiau. Mae hynny, ynghyd â'r ymarfer aildendro a gynhaliwyd, wedi golygu bod y gorwariant cyffredinol wedi gostwng oddeutu £230k o'i gymharu â'r swm y gellid bod wedi ei ddisgwyl pe na bai'r camau hynny wedi eu cymryd. Mae cyllideb ychwanegol o £250k wedi'i chymeradwyo yng nghyllideb 2020/21.

- Mae Cyd-Strategaeth AAA Ynys Môn a Gwynedd wedi gorwario £183k oherwydd y galw am wasanaethau anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae cyllidebau cyfun eithriadau Cynradd ac Uwchradd yn dangos gorwariant o £91k ar alldro o ganlyniad i gostau atgyweirio a chynnal a chadw ychwanegol; costau pensiwn hanesyddol ac incwm na lwyddwyd i'w gyflawni trwy werthu tocynnau bws.
- Mae incwm sydd heb ei gyflawni trwy glybiau gofal plant wedi creu gorwariant o £46k ar y gyllideb, sy'n welliant ar ffigwr 2018/19. Mae casglu incwm o glybiau gofal bore yn dal i fod yn broblem a bydd y Gwasanaeth yn parhau i geisio mynd i'r afael â hyn yn 2020/21.
- Mae Gwasanaethau Ieuenctid yn dangos tanwariant o £52k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cynhyrchwyd y swm hwn trwy grantiau ychwanegol.
- Mae cyllideb y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn dangos tanwariant o £110k. Yn hanesyddol, bu'r gyllideb hon yn tanwario o ganlyniad i daliadau is nag y cyllidebwyd i feithrinfeydd.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Mae'r gwasanaeth hwn wedi gorwario £29k (2.40%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bu gorwariant oherwydd gwaith adfer a wnaed i gaffi'r Oriel a gostyngodd incwm yn yr Oriel oherwydd llai o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod yr wythnosau diwethaf ym mis Mawrth (gorwariant o £75k gyda'i gilydd) pan gaewyd yr Oriel oherwydd yr argyfwng Coronafeirws. Yn ogystal, mae oedi wrth drosglwyddo Llys a Carchar Biwmares i'r Cyngor Tref wedi cynyddu costau oddeutu £13k.

**3.1.2.2** Bu tanwariant o £67k yn gwasanaeth Llyfrgelloedd oherwydd swyddi gwag.

## 3.2 Gofal Cymdeithsol i Oedolion

**3.2.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gorwario £1,138k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (4.5% o'r gyllideb). Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys y Grant Pwysau'r Gaeaf o £371k a byddai'r sefyllfa ariannol yn waeth o lawer hebddo. Roedd y pwysau mwyaf sylweddol yn y meysydd a ganlyn:-

- Ar ddiwedd y cyfnod, mae gorwariant o £1,110k ar Wasanaethau i'r Henoed oherwydd cynnydd yn y galw am leoliadau gofal preswyl a nyrsio ynghyd â chynnydd yn y galw am ofal cartref.
- Mae'r costau mewn perthynas ag Anableddau Corfforol £106k dros y gyllideb a'r prif feysydd pryder yma yw Cymorth Cartref a lleoliadau gofal preswyl cymhleth.
- Mae gorwariant o £663k ar Anableddau Dysgu, yn bennaf ar ofal preswyl, gofal dydd a gofal cartref. Mae'r costau hyn yn adlewyrchu amcanion y Gwasanaeth o alluogi cleientiaid Anabledd Dysgu i fyw â chymorth yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain a hyrwyddo dewis i gleientiaid trwy Daliadau Uniongyrchol yn hytrach na Gofal Cartref sydd wedi'i gomisiynu gan yr Awdurdod. Mae tanwariant o £143k dan y pennawd Llety â Chymorth a Llety Arall oherwydd bod y gwasnaeth wedi defnyddio cronfa wrth gefn ychwanegol.
- Mae Iechyd Meddwl wedi gorwario £261k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r gorwariant yn ganlyniad i nifer fach o becynnau gofal cymhleth a chynnydd mewn costau lleoli.
- Mae gan yr Uned Ddarparu danwariant o £874k oherwydd incwm uwch yn yr adain cartrefi preswyl a gofal cartref. Gwnaed cryn waith rhwng y Gwasanaeth a'r Gwasanaeth Cyllid yn ystod 2019/20 ar ragamcanion ariannol a chytunwyd y bydd cyllideb yr Uned Ddarparu a chyllidebau comisiynu yn cael eu hailalinio yn ystod 2020/21 i adlewyrchu'r rhagamcanion.

**3.2.3** Mae'r ffigyrau alldro'n parhau i ddangos pwysau galw sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio ar gael dealltwriaeth lawn o'r hyn sydd wedi achosi'r gorwariannau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar leoliadau nyrsio, lleoliadau preswyl a chostau gofal cartref yn y gwasanaethau pobl hŷn ac anabledd corfforol a hefyd edrych ar gostau byw â chymorth a chostau gofal cartref yn y maes anabledd dysgu**.** Ym mhob maes, mae'r canlynol yn cael eu gwerthuso:-

**1)** Dadansoddiad o'r galw misol a blynyddol;
**2)** Rhesymau y tu ôl i'r duedd;
**3)** Camau pellach y gellir eu cymryd i reoli'r galw.

Fel rhan o Gyllideb Refeniw 2020/21, dyrannwyd £980k ychwanegol i gyllideb y Gwasanaethau Oedolion i leihau'r pwysau cyffredinol ar y gyllideb hon.

**3.3 Gwasanaethau Plant**

**3.3.1** Mae'r Gwasanaeth wedi gorwario £155k (1.50%) ar alldro. Mae'r sefyllfa gyllidebol hon yn welliant sylweddol ar y gorwariant o £1.8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac i'w briodoli'n bennaf i gyllid ychwanegol o £1.4m a ddarparwyd yng nghyllideb 2019/20 a hefyd gyllid grant ychwanegol a throsglwyddo cyfrifoldeb am un plentyn (gyda chostau lleoli uchel) i'r Gwasanaethau Oedolion.

**3.3.2** Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod dan bwysau cyllidebol gyda gorwariant mewn 4 maes ar alldro, sef Plant ag Anableddau (gorwariant o £131k); Cymorth i Deuluoedd (gorwariant o £32k); Plant sy'n Derbyn Gofal (gorwariant o £283k) a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Eraill (gorwariant o £38k). Gostyngwyd effaith y gorwariannau hyn gan danwariant mewn meysydd fel Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol - £185k, Cymorth Integredig i Deuluoedd - £ 61k, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd - £55k a gwasanaethau Cymorth i Blant - £36k**.**

**3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**3.4.1** Mae gan y gwasanaeth hwn danwariant o £80k (6.60%) ar alldro. Mae costau digartrefedd (Gwely a Brecwast) yn parhau i roi pwysau ar y gyllideb gyda gorwariant o £61k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, bu tanwariant o £100k yn sgil swyddi gwag ac oedi wrth recriwtio, ond ni ddisgwylir i'r rhain barhau i mewn i 2020/21. Roedd y gyllideb Diwygio Lles hefyd wedi tanwario gan £50k**.**

**3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**3.5.1 Datblygu Economaidd a'r Gymuned (sy'n cynnwys Cyrchfannau a Hamdden)**

**3.5.1.1** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd tanwariant o £2k (0.10%) yn y gwasanaeth yn gyffredinol.

**3.5.1.2** Mae elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth wedi gorwario £8k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae yna ddiffyg yn erbyn targedau incwm a fyddai wedi cael eu cyflawni trwy Horizon a'r Grid Cenedlaethol (£63k) ond mae tanwariant ar gyllidebau staffio o £37k, gan gynnwys ar swydd y Cyfarwyddwr. Mae'r tâl a ailgodir am ddefnyddio cyfleusterau'r Ganolfan £12k yn uwch na'r targed, er gwaethaf cau'r adeilad o ganol mis Mawrth.

**3.5.1.3** Bu tanwariant o £54k yn yr adain Cyrchfan oherwydd gwell rheolaeth ar y gyllideb. Mae incwm o'r angorfeydd £13k yn uwch na'r gyllideb; mae tanwariant o £23k ar staffio yn yr adain Twristiaeth a thanwariant o £36k yn y maes Rheoli a Chefnogaeth. Mae gorwariant o £15k yn y maes Cefn Gwlad / AHNE gan fod incwm o'r rhenti a ffioedd maes parcio yn llai na'r disgwyl ac mae'r incwm o ffioedd lansio / BDP £11k yn is na'r targed.

**3.5.1.4** Roedd disgwyl i incwm a gwariant y Gwasanaeth Hamdden fod o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ond mae gorwariant o £44k ar alldro. Mae'r incwm o Ganolfannau Hamdden £122k yn uwch na'r gyllideb er gwaethaf cau'r Canolfannau ym mis Mawrth a cholled o £33k trwy Debyd Uniongyrchol. Mae'r incwm uwch wedi digwydd yn sgil newid yn y statws TAW. Mae pwysau'n parhau ar y gyllideb staffio (£101k dros y gyllideb) er gwaethaf yr ailstrwythuro. Mae pwysau hefyd yn parhau ar gyllidebau incwm o'r caffi ac incwm o'r peiriannau gwerthu.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd gan y gwasanaeth hwn danwariant o £119k (5.60%) ar alldro. Mae'r canlyniad hwn yn debyg i'r rhagolwg a ragwelwyd ym Mis 11.

**3.5.2.2** Roedd gan yr Adain Gwarchod y Cyhoedd danwariant o £53k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr incwm dan y pennawd rheoli cŵn a phlâu £16k yn brin o'r targed ac roedd incwm o Farchnadoedd a Ffeiriau £1k yn brin o’r targed. Fodd bynnag, bu swydd yn wag am ran o'r flwyddyn yn y tîm iechyd a diogelwch corfforaethol sydd wedi creu tanwariant o £27k. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Safonau Masnach, yr oedd disgwyl iddo gyflawni cyllideb gytbwys, wedi tanwario £36k. Mae hyn oherwydd swyddi gwag ac incwm allanol uwch.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £66k (7.90%) yn yr Adain Gynllunio ar alldro. Mae hyn yn debyg i'r swm a ragwelwyd ym Mis 11. Mae tanwariant yn y meysydd Gweinyddiaeth Gynllunio, Rheoli Adeiladu a Gweithredu a Chadwraeth yn sgil swyddi gwag staff a chynhyrchu mwy o incwm**.**

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gan y gwasanaeth hwn danwariant o £181k (3.00%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r gwahaniaethau amlycaf ar **:-**

- Cefnogaeth Adrannol (£73k) - sydd wedi cynyddu yn sgil swyddi gwag yn ystod y flwyddyn;
- Mae incwm Gwaith Stryd £60k yn uwch na'i darged;
- Mae incwm grant ychwanegol ar gyfer Trafnidiaeth Gyhoeddus wedi creu tanwariant o £78k;
- Mae Dylunio Gwaith Cynnal a Chadw wedi cynhyrchu incwm ychwanegol o £33k;
- Mae Rheoli Datblygu wedi lleihau costau ac wedi cynyddu incwm i greu tanwariant o £35k;
- Fodd bynnag, mae'r gyllideb gwaith wedi gorwario £152k erbyn diwedd y flwyddyn wrth i’r Gwasanaeth ymateb i argyfyngau.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd gan y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff danwariant o £209k (2.70%) ar alldro, sydd £124k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ym Mis 11.

**3.6.2.2** Yr amrywiadau mwyaf nodedig yw: **-**

- Staffio’r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff (£67k) oherwydd grantiau unwaith ac am byth;
- Tanwariant o £100k ar Orsaf Drosglwyddo Penhesgyn oherwydd cynhyrchu incwm uwchlaw'r targedau a llai o gostau staffio oherwydd grantiau unwaith ac am byth ychwanegol;

- Mae'r adain ailgylchu wedi tanwario £83k ar ddiwedd y flwyddyn gan fod yr incwm a gynhyrchwyd yn uwch na'r targedau.

**3.6.3 Eiddo**

**3.6.3.1** Mae'r Gwasanaethau Eiddo wedi gorwario £42k (5.60%) ar alldro, sy'n welliant ar y gorwariant o £96k a ragwelwyd ym Mis 11

**3.6.3.2** Y prif reswm am y gorwario yn y Gwasanaeth Eiddo yw £150k yn llai o incwm na'r disgwyl o ffioedd proffesiynol, a hynny oherwydd oedi ym mhrosiectau cyfalaf y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd wedi lleihau'r potensial i ennill ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gyllideb ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hefyd wedi gweld gorwariant o £49k gan fod £104k wedi'i drosglwyddo i gyllido gwariant Cyfalaf ac roedd angen gwneud gwaith trwsio brys ar fân-ddaliadau. Mae tanwariant ar lanhau, cyfleustodau ac incwm rhent ychwanegol wedi lleihau effaith y gorwariant.

**3.7 Trawsnewid**

**3.7.1** Bu tanwariant o £309k yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ei chyfanrwydd (6.80%) am y flwyddyn trwy ymdrech fwriadol gan yr Adain TGCh i leihau gwariant am y misoedd a oedd yn weddill yn 2019/20, fel y manylir isod**.**

**3.7.1.1** Mae gan yr Adran TGCh danwariant o £85k (3.50%) ar alldro. Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi'u canoli ac yn cael eu rheoli o fewn y Gwasanaeth TGCh. Mae'r cyllidebau wedi bod yn annigonol yn hanesyddol ac mae hyn wedi arwain at orwariant o £213k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi rheoli ei wariant ar Galedwedd (£88k), meddalwedd (£35k), ymgynghoriaeth (£54k), contract ffôn (£42k) ac Archebion Mewnol (£143k) i gynhyrchu tanwariannau. Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer meddalwedd yn 2020/21 i leihau'r pwysau cyllidebol hanesyddol hyn.

**3.7.1.2** Mae'r swyddogaeth AD wedi tanwario £35k (2.70%) am y flwyddyn gan fod gwariant ar Hyfforddiant ac Iechyd Galwedigaethol yn is na'r gyllideb.

**3.7.1.3** Mae Trawsnewid Corfforaethol wedi tanwario £189k (2.20%) am y flwyddyn, yn bennaf oherwydd tanwariant ar gyllidebau staffio o fewn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Cyswllt Môn. Mae Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd yn dangos tanwariant o £101k.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £220k yn y gyllideb ar gyfer y swyddogaeth Adnoddau (7.2%) ar alldro, sy'n debyg i'r hyn a ddisgwylwyd.

**3.8.2** Mae Refeniw a Budd-daliadau £32k o dan y gyllideb am y flwyddyn oherwydd grantiau ychwanegol a gostyngiad yn y gwariant ar Gyflenwadau a Gwasanaethau. Mae Taliadau Banc £42k ac Ymgynghoriaeth £37k yn uwch na'r cyllidebau ar eu cyfer yn yr adain Gyfrifeg ar ddiwedd y flwyddyn ond mae tanwariant ar gyflogau yn golygu bod y swyddogaeth wedi tanwario £8k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol danwariant bach o £11k, ond mae gan yr adain Gaffael danwariant o £159k oherwydd mentrau prynu. h.y. cyllidebau prynu, canolog ac ad-daliadau cardiau caffael.

### 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd gan y swyddogaeth danwariant o £4k (0.20%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n debyg i'r tanwariant a ragwelwyd ym Mis 11. Mae gwariant y Gwasanaethau Cyfreithiol £50k dros y gyllideb, yn bennaf oherwydd cost asiantaeth gyfreithiol yn sgil swyddi gwag / absenoldebau staff ond mae'r gorwariant hwn yn cael ei wrthbwyso gan danwariant yn y mwyafrif o'r swyddogaethau o fewn y Gwasanaethau Democrataidd.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Ar ddiwedd Mis 11, rhagwelwyd y byddai'r Gwasanaethau Corfforaethol a Democrataidd wedi gorwario £123k, ond mae gwrthdroi addasiad ôl- archwiliad a wnaed yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag incwm ychwanegol, wedi golygu bod y swyddogaeth wedi tanwario £104k (3.10%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae costau pensiwn hanesyddol yn parhau i ostwng, ac wedi cyfrannu at y tanwariant**.**

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd gan y swyddogaeth danwariant o £70k (11.10%), yn bennaf oherwydd staffio yn sgil ailstrwythuro’r Uwch Dîm Rheoli. Mae incwm annisgwyl hefyd wedi cyfrannu at y tanwariant.

## 4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau) a dalwyd

**4.1** Mae Cyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a dalwyd wedi tanwario £426k (2.50%) erbyn diwedd y flwyddyn. Gostyngwyd y gyllideb hon yn 2019/20 i adlewyrchu tueddiadau blynyddoedd blaenorol (gan gynnwys 2018/19) ac oherwydd y rhagwelwyd y byddai’r llwyth achosion o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau i ostwng ond nid yw’r llwyth achosion wedi gostwng fel y disgwyl.

**4.2** Fodd bynnag, mae tanwariant o £446k ar Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill. Rhagwelir hefyd y bydd tanwariant o £239k yn y maes cyllido Cyfalaf (cyllidebau y gellir eu rheoli).

**4.3** Roedd y gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn a oedd yn werth cyfanswm o £1,891k. Yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd £202k o gyllid ychwanegol ar gyfer ffioedd Addysg Allsirol; clustnodwyd £417k ar gyfer Gwasanaethau Plant; £225k ar gyfer costau eraill a glustnodwyd ac a gymeradwywyd; £111k fel arian wrth gefn cyffredinol i gwrdd â phwysau cyllidebol a £490k i dalu costau diswyddo a chostau terfynu. Mae £1,445k o gyllidebau wrth gefn wedi'u trosglwyddo i wasanaethau i'r dibenion y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn gadael balans o £446k.

## 5. Casglu’r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r amcangyfrif o ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a osodwyd ym mis Tachwedd 2018. Nid yw'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol; addasiadau i rwymedigaethau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati); newidiadau i sylfaen y dreth y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y balans terfynol yn y Gronfa Casglu’r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Roedd disgwyl diffyg o £149k o ran casglu'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 ond y diffyg yn y pen draw oedd £207k.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2019/20

**6.1** Tynnwyd arbedion o £2.561m o gyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2019/20. Cyflawnwyd £2.205m o'r arbedion hyn ond ni chyflawnwyd £356k. Roedd y diffyg mwyaf sylweddol yn y Gwasanaethau Oedolion lle na lwyddwyd i gyflawni arbedion gwerth £276k, a hynny oherwydd pwysau yn sgil galw cynyddol. Gellir gweld dadansoddiad manwl llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, gwariwyd £678k o'r cyllid hyd at a chan gynnwys 2019/20. Mae rhai o'r prosiectau yn agosach at gael eu cwblhau nag eraill a gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Os nad yw'r prosiectau wedi'u cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i mewn i 2020/21 a bydd y cyllid yn dal i fod ar gael yn y gronfa buddsoddi-i-arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghoriaeth

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £797k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, cafodd y costau hyn eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio gan eu bod yn ymwneud â swyddi gwag. Roedd £372k yn gysylltiedig â chostau o fewn y Gwasanaethau Plant er mwyn talu am staff dros dro, a £176k yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Oedolion am yr un rheswm. Gwariodd y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff £224k ar asiantau safle yn y canolfannau ailgylchu. Gellir gweld y manylion llawn yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd cyfanswm o £1.068k ar Ymgynghoriaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, gyda £344k wedi'i gyllido trwy grant neu ffynonellau allanol. Gellir gweld crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth a manylion ychwanegol y gwariant yn Atodiad E.

## 9. Rhyddhau Balansau Cyffredinol

**9.1** Mae Pier Biwmares yn ased cymdeithasol, economaidd a diwylliannol pwysig, a chyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol. Mae'r paent ar y rheiliau ac ar strwythur y Pier wedi dirywio ers iddo gael ei adnewyddu yn 2012. Oherwydd ei gyflwr presennol, mae rhannau helaeth o'r gwaith metel sylfaenol bellach yn agored i'r amgylchedd dŵr halen, sydd wedi arwain at rydu sylweddol.

**9.2** Mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi bod yn bwriadu trefnu ailbaentio Pier Biwmares ers 2 flynedd. Byddai prosiect ailbaentio'n costio oddeutu £185k i gyd. Roedd y Gwasanaeth yn bwriadu cyllido'r gwaith o'i gyllidebau cynnal a chadw refeniw blynyddol a'i gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi (£100k). Fodd bynnag, er mwyn ymgymryd â'r gwaith yn ddiogel ac i sicrhau na fydd yr amgylchedd morol o'i amgylch yn cael ei lygru, rhaid gorchuddio a selio'r Pier er mwyn tynnu'r hen baent oddi arno gyntaf. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y costau o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol.

**9.3** Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn y trwyddedau a'r caniatadau angenrheidiol i gyflawni'r gwaith, a phenodwyd contractor. O ystyried y cyfnod cyfyngiadau cyfredol, mae'n amser da nawr i wneud y gwaith heb amharu ar y busnesau sy'n defnyddio'r Pier a bwriedir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau o fewn 4 mis. Bydd peidio â gwneud y gwaith rwan yn arwain at ddirywiad yn y strwythur a gallai arwain at gostau uwch yn y dyfodol. Felly, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ryddhau swm o £85k o'r balansau cyffredinol (i ychwanegu at gronfa wrth gefn y Gwasanaeth) fel y gall y gwaith gychwyn cyn gynted ag y bo modd.

## 10. Casgliad

**10.1** Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn sylweddol well na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol ac, yn gyffredinol, mae hyn o ganlyniad i wasanaethau yn lleihau gwariant yn ystod y chwarter olaf ac yn sgil derbyn cyllid grant ychwanegol mewn rhai meysydd. Mae'r sefyllfa wedi gwella hefyd oherwydd gwariant cyfalaf is na'r disgwyl, a arweiniodd at fenthyca is a dim galwadau sylweddol ar gyllidebau wrth gefn yn ystod y chwarter olaf. Mae hwn yn hwb i'w groesawu i gyllid y Cyngor ac mae'n cryfhau'r sefyllfa ariannol wrth symud ymlaen.

Mae cyllideb 2020/21 wedi cynyddu'r cyllidebau yn y meysydd lle roedd pwysau yn 2019/20, yn fwyaf arbennig Gwasanaethau Oedolion a'r gyllideb ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a rhagwelwyd y byddai hyn yn arwain at gryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor ymhellach erbyn diwedd 2020/21. Fodd bynnag, mae'r pandemig Covid-19 wedi achosi cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch cyllid y Cyngor unwaith eto ac nid yw'n eglur ar hyn o bryd beth fydd yr effaith ond rhagwelir colli incwm sylweddol ac y bydd costau ychwanegol yn sgil gwasanaethau'r Cyngor yn dychwelyd i sefyllfa fwy arferol. Bydd cost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynyddu wrth i nifer yr hawlwyr gynyddu ac fe allai'r arian a dderbynnir trwy'r Dreth Gyngor ostwng efallai. Mae hefyd yn aneglur beth fydd yr effaith ar gyllid Llywodraeth Cymru a phu'n a fyddai hynny'n arwain at ostyngiadau sylweddol yn y Grant Cymorth Refeniw i'r Cyngor yn 2021/22.

Mae angen gwaith pellach i fodelu'r effaith a chyflwynir Cynllun Ariannol Tymor Canol diwygiedig i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2020, cyn dechrau proses gyllidebol 2021/22.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagdybedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020 – Alldro

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Alldro Amodol | Cyfanswm Alldro Amodol - Amrywiad | Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) | Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (dim eithriadau) | Gwahaniaeth i Fis 11 – elfennau yr oedd modd eu rheoli |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | | | |
| **Addysg gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllidebau datganoledig i ysgolion | 43,880 | 43,880 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 5,791 | 5,519 | -272 | -15 | -257 | -259 |
| Diwylliant | 1,245 | 1,275 | 29 | 1 | 29 | 17 |
| | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 25,205 | 26,290 | 1,085 | -53 | 1,138 | 79 |
| | | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 10,274 | 10,430 | 156 | 1 | 155 | 69 |
| | | | | | | |
| Tai | 1,221 | 1,143 | -77 | 2 | -80 | -40 |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,079 | 5,887 | -192 | -12 | -181 | -138 |
| Eiddo | 859 | 903 | 44 | 2 | 42 | -54 |
| Gwastraff | 7,724 | 7,516 | -208 | 1 | -209 | -124 |
| | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| Econonomaidd | 1,849 | 1,848 | -0 | 2 | -2 | 18 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,078 | 1,960 | -117 | -0 | -117 | -14 |
| | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,262 | 1,227 | -35 | 0 | -35 | -19 |
| TGCh | 2,396 | 2,311 | -85 | 0 | -85 | -61 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 859 | 668 | -191 | -2 | -189 | 2 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Alldro Amodol | Cyfanswm Alldro Amodol - Amrywiad | Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) | Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (eithriadau) | Gwahaniaeth i Fis 11 – elfennau yr oedd modd eu rheoli |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | | | |
| Adnoddau | 3,050 | 2,880 | -170 | 50 | -220 | -7 |
| Busnes y Cyngor | 1,567 | 1,565 | -2 | 2 | -4 | 14 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 3,352 | 3,253 | -99 | 6 | -104 | -227 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 629 | 559 | -70 | -0 | -70 | -5 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **119,320** | **119,114** | **-205** | **-15** | **-190** | **-750** |
| | | | | | | |
| Ardollau | 3,528 | 3,528 | -0 | 0 | -0 | -0 |
| Cyllid Cyfalaf | 7,129 | 6,852 | -277 | -38 | -239 | -161 |
| Addasiad oherwydd dadgydnabod | 0 | 241 | 241 | 241 | 0 | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 60 | 71 | 11 | 0 | 11 | -4 |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 446 | 0 | -446 | 0 | -446 | -111 |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cymorth Canolog CRT | -773 | -860 | -86 | -86 | 0 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,501 | 5,749 | 248 | 0 | 248 | -184 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **15,891** | **15,580** | **-310** | **116** | **-426** | **-460** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswn Cyllideb 2019/20** | **135,210** | **134,695** | **-516** | **101** | **-617** | **-1,211** |
| | | | | | | |
| Cyllido: | | | | | | |
| Trethi Annomestig | -22,754 | -22,754 | -0 | 0 | -0 | -0 |
| Dreth Gyngor | -39,419 | -39,212 | 207 | 185 | 23 | 58 |
| Grant Cymorth Refefeniw | -73,037 | -73,037 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid 2019/20** | **-135,210** | **-135,003** | **207** | **185** | **23** | **58** |
| | | | | | | |
| **Net** | **0** | **-308** | **-308** | **286** | **-594** | **-1,152** |

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro y Cyllidebau wrth Gefn 2019/20**

| | Y Gyllideb Wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygiedig hyd yma<br>£ | Wedi ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwumo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagdybiedig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 399,350 | -111,150 | 288,200 | - | 288,200 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 400,000 | - 489,730 | - 89,730 | - | - 89,730 | - |
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | 1,091,710 | - 844,180 | 247,530 | - | 247,530 | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,891,060.00 | -1,445,060.00 | 446,000.00 | 0.00 | 446,000.00 | 0.00 |

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2019/20

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Swm a Glust-nodwyd (cyfan-swm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 169,945 | 0 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Perthnasau gyda'r Cwsmer (CRM) | Prynu a Gweithredu System CRM | 255,000 | 255,000 | 102,712 | 152,288 | 152,288 | 52,156 | 100,132 | Mae'r CRM bellach wedi'i hen sefydlu gyda dros 14,600 o gwsmeriaid cofrestredig ers mis Ionawr 2016 ac mae bellach yn gweithredu fel Busnes fel Arfer. Mae TG yn gweithio gyda gwasanaethau o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes i sicrhau bod mwy o ffurflenni talu ar-lein ar gael trwy'r CRM er mwyn gwella ôl-brosesau, sicrhau arbedion a gwella'r profiad i'r cwsmer. Mae'r system wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod argyfwng presennol Covid19 ac fe'i defnyddiwyd i weinyddu'r gwaith o gasglu gwybodaeth ar gyfer grantiau cymorth Busnes a phrydau ysgol am ddim i enwi ond ychydig o'r ffurflenni sydd wedi'u hadeiladu. |

Tudalen 33

Tudalen 34

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Swm a Glust-nodwyd (cyfan-swm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG / Adnoddau | Porth Talu | Prynu a Gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap | 27,000 | 27,000 | 13,417 | 13,583 | 13,583 | 0 | 13,583 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella Gwydnwch Systemau Cynllunio | Systemau Cynllunio newydd wedi'u hawtomeiddio | 118,000 | 118,000 | 79,548 | 57,122 | 57,122 | 41,748 | 15,374 | Er bod angen sganio a digideiddio cryn dipyn o ffeiliau ceisiadau cynllunio hanesyddol o hyd, mae elfen refeniw'r prosiect bellach wedi cau gyda'r gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn 2018/19. Cyllidwyd y gorwariant trwy'r gyllideb Gynllunio. Aeth yr uwchraddiad i'r system swyddfa gefn newydd Cynllunio yn fyw ar 12 Tachwedd 2018. Nid oedd ceisiadau a dogfennau cysylltiedig ar gael i'r cyhoedd oherwydd diffyg cydymffurfio â rhai o ofynion Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys ers hynny ac mae disgwyl i geisiadau fod ar gael i'r cyhoedd yn electronig yn ystod yr wythnosau nesaf. Aeth y gwaith ar elfen Rheoli Adeiladu'r Prosiect yn fyw ar 29 Gorffennaf 2019. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn datrys camgymeriadau a phroblemau sydd wedi |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br>£ | Swm a Glust-nodwyd (cyfan-swm – nid Bl 1 yn unig)<br>£ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019<br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br>£ | Dyraniad ar gyfer 2019/20<br>£ | Gwariant hyd yma 2019/20<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2019/20<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | digwydd yn ystod y trawsnewid. Mae angen uwchraddiad pellach i'r fersiwn ddiweddaraf ar gyfer yr ERDMS er mwyn symleiddio'r broses ar gyfer golygu a chyhoeddi dogfennau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth GDPR newydd. Mae gwaith i roi prawf ar dechnoleg symudol addas ar gyfer ymweliadau safle yn parhau a bydd angen caffael y dechnoleg honno ar gyfer yr holl staff perthnasol unwaith y cadarnhawyd ei bod yn addas. Cynhaliwyd cyfarfodydd lefel uchel mewn perthynas ag uwchraddio ERDMS ac mae archeb ar fin cael ei wneud ar gyfer y gwaith hwn, gyda'r gwariant arfaethedig hyd at oddeutu £5k. Mae archebion prynu wedi'u gwneud ar gyfer gliniaduron addas newydd fel y gall y Tîm Systemau gynnal profion ar yr uchod yn ogystal â pharhau i gefnogi holl Systemau Busnes y Swyddogaeth Gynllunio. Disgwylir manylion costau hefyd gan TGCh o ran gosod pwyntiau rhwydwaith addas yn y Swyddfeydd Cynllunio, a fydd yn galluogi staff o'r Gwasanaeth Polisi ar y Cyd i fewngofnodi i rwydwaith |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br>£ | Swm a Glust-nodwyd (cyfan-swm – nid Bl 1 yn unig)<br>£ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019<br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br>£ | Dyraniad ar gyfer 2019/20<br>£ | Gwariant hyd yma 2019/20<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2019/20<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | Gwynedd wrth weithio o bell o Langefni. Cafwyd trafodaethau mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i swyddogaethau cyfredol Salesforce. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r broses lle mae ceisiadau'n cael eu dychwelyd i ymgeiswyr, copïo ceisiadau i greu sgrinio dyblyg neu gais adeilad rhestredig, newidiadau i'r swyddogaeth gyhoeddusrwydd gyfredol a'r gallu i glonio amodau a pholisïau safonol o un cais i'r llall.Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda er gwaethaf blaenoriaethau eraill sy'n deillio o'r pandemig Covid-19. Mae'r gwaith o lanhau manylion cyswllt (tua 100k o gofnodion) o fewn Salesforce wedi cychwyn, bydd hyn yn arwain at enwau a chyfeiriadau cywir heb unrhyw ddyblygu. Oherwydd nifer fawr y cofnodion a'r dyblygiadau, cytunwyd i gyflawni'r gwaith hwn mewn dau gam. Oherwydd y pandemig Covid19 cyfredol a'r ffaith mai dim ond un person sy'n gallu cyrchu'r data ers cychwyn gweithio gartref, mae hyn ar stop ar hyn o bryd. Disgwylir i'r |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br><br>£ | Swm a Glust-nodwyd (cyfan-swm – nid Bl 1 yn unig)<br>£ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019<br><br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br><br>£ | Dyraniad ar gyfer 2019/20<br><br>£ | Gwariant hyd yma 2019/20<br><br>£ | Cyllideb Weddilliol 2019/20<br><br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | uwchraddiad ERDMS arfaethedig ddigwydd, ond mae'r dyddiad cwblhau a'r amserlenni bellach yn dibynnu ar gerrig milltir a chyfyngiadau Covid 19. |
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac sy'n caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (ApMon ac ati) i gysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 150,000 | 90,481 | 59,519 | 59,519 | 16,720 | 42,799 | Mae ymrwymiadau llawn bellach wedi'u gwneud ac o fewn y cyllidebau ar gyfer y bid. Fodd bynnag, bydd y gwaith gweithredu yn parhau i'r y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bod Covid19 wedi gohirio pethau gan fod cymaint o staff prosiect Capita, sef ein cwmni Meddalwedd Rheoli Incwm wedi cael eu rhoi ar y cynllun cadw swyddi oherwydd y cyfyngiadau. Defnyddir y balans sy'n weddill ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl sy'n weddill. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu'r modiwlau hynny o system Rheoli Gwybodaeth ONE nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd | 67,000 | 67,000 | 75,526 | 0 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Busnes | Gwefan i'r Oriel | 20,000 | 20,000 | 0 | 11,474 | 11,474 | 0 | 11,474 | Gohiriwyd y prosiect nes bod systemau eraill y mae mwy o frys amdanynt o fewn y prosiectau buddsoddi i arbed wedi eu cwblhau. |

Tudalen 37

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Swm a Glust-nodwyd (cyfan-swm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 120,000 | 0 | 120,000 | 70,000 | 20,870 | 49,130 | Mae dau o bobl wedi eu recriwtio i'r swyddi Technegydd Digidol Dros Dro ar Raddfa 5 ac maent yn eu swyddi ar hyn o bryd. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 cyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 mlynedd | 45,000 | 0 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Gwaith cydweithredol yn parhau gyda'r Tîm CRM Corfforaethol. Yn nodi ffrydiau gwaith Gwerth / Nifer Uchel i alluogi 'newid sianel' a gwella perfformiad a'r profiad i'r cwsmer. Cyflymder y gwaith yn cael ei benderfynu gan y Bwrdd Trawsnewid sy'n cymeradwyo a blaenoriaethu ffrydiau gwaith ar gyfer eu sgopio a'u gweithredu. Ar ôl cwblhau'r prosiect hwn, y ffocws a'r nod fydd profi'r farchnad ar gyfer system feddalwedd a manyleb defnyddiwr diwygiedig sy'n integreiddio gyda'r system CRM. Mae ffrydiau gwaith penodol wedi mynd yn fyw ym mis Tachwedd a mis Ionawr. Ni fydd unrhyw waith i brofi'r farchnad ar gyfer system feddalwedd newydd yn cychwyn nes bydd yr holl waith CRM wedi'i gwblhau, felly, gofynnir i gael cario 4£5k drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **546,889** | **458,986** | **373,986** | **131,474** | **242,492** | |

**Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2019/20**

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2019/20<br><br>£'000 | Gellir eu cyflawni yn 2019/20<br><br>£'000 | Posibilrwydd na ellir eu cyflawni yn 2019/20<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 967 | 900 | 67 | Cynigiwyd £50k fel arbedion effeithlonrwydd trwy adolygu'r modd y darperir gwasanaethau integreiddio ar gyfer defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Nid oes modd cyflawni £37k o'r arbedion.. Cytunwyd ar gynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.<br><br>Gwnaed cynnig am arbedion o £15k trwy ostwng grantiau i'r celfyddydau. Mae'r arbediad hwn £10k yn brin o gael ei gyflawni'n llawn yn 2019/20. Gellir sicrhau £5k arall yn 2020/21. Mae angen ymgynghori pellach i gyflawni'r £5k olaf.<br><br>Gwnaed cynnig i godi'r targed incwm yn yr Oriel £20k. Ni chyflawnwyd yr arbedion hyn yn ystod 2019/20. Fodd bynnag, bydd gwerthiannau ar-lein yn helpu i gyflawni'r targed incwm uwch yn 2020/21.<br><br>Mae'r holl gynigion arbedion eraill, sy'n dod i gyfanswm o £900k wedi'u cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 171 | 171 | 0 | Cyflawnwyd yr arbedion effeithlonrwydd yn llawn. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 600 | 587 | 67 | Disgwyliwyd arbediad o £10k ar Gyfleusterau Cyhoeddus ond nis cyflawnwyd. Mae'r targed arbedion yn dal i fod mewn perygl o beidio cael ei gyflawni yn ystod 2020/21. Bydd tanwariant mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth yn cyllido’r diffyg.<br><br>Cynigiwyd arbedion o £58k trwy roi’r gorau i'r gwasanaeth patrolio croesfannau ysgolion. Mae'r holl batrolau croesi bellach wedi dod i ben, ond talwyd cost unwaith ac am byth o £3k i gadw nifer gyfyngedig o batrolau tan fis Gorffennaf 2019. Disgwylir i'r arbedion gael eu cyflawni'n llawn yn 2020/21.<br><br>Cyflawnwyd yr holl gynigion arbed eraill gwerth cyfanswm o £587k yn llawn. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2019/20<br>£'000 | Gellir eu cyflawni yn 2019/20<br>£'000 | Posibilrwydd na ellir eu cyflawni yn 2019/20<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 586 | 310 | 276 | Cynigiwyd Arbedion Effeithlonrwydd gwerth cyfanswm o £195k trwy ostwng y galw am leoliadau preswyl a nyrsio, trwy ddefnyddio Hafan Cefni, lleihau'r galw am wasanaethau gofal cartref, a thrwy reoli'r galw am fyw â chymorth. Ni chyflawnwyd yr arbedion hyn gan fod y galw am y gwasanaeth wedi cynyddu ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gwneir gwaith pellach ar bob llinell benodol yr effeithir arni i ymchwilio i resymau dros y twf cyfredol yn y galw, gyda'r bwriad o leihau'r galw yn y dyfodol.<br><br>Yn dilyn cau Plas Penlan, cynigiwyd arbed £70k fel arbedion blwyddyn lawn. Ni chyflawnwyd hyn, wrth i'r galw gynyddu am ddarpariaeth amgen e.e. Gofal Cartref.<br><br>Cynigiwyd £11k o arbedion effeithlonrwydd trwy allanoli mwy o becynnau gofal cartref i'r darparwyr preifat ond ni chyflawnwyd hynny. Yn gweithio ar sut i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth heb leihau nifer y staff. Ystyrir a ellir cynhyrchu arbedion mewn meysydd eraill ai peidio.<br><br>Cyflawnwyd yr holl gynigion arbedion eraill, gwerth cyfanswm o £310k. |
| Tai | 54 | 54 | 0 | Cyflawnwyd yr arbedion effeitlonrwydd yn llawn. |
| Trawsnewid | 43 | 43 | 0 | Cyflawnwyd yr arbedion effeitlonrwydd yn llawn. |
| Corfforaethlol | 110 | 110 | 0 | Cyflawnwyd yr arbedion effeitlonrwydd yn llawn. |
| Adnoddau | 30 | 30 | 0 | Cyflawnwyd yr arbedion effeitlonrwydd yn llawn. |
| **Cyfanswm** | **2,561** | **2,205** | **356** | |

## Costau Asiantaeth Ebrill 2019 – 31 |Mawrth 2020

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio na ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniadau Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Rheswm dros y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 6,479 | Craidd | Dros Dro | Cyflawni gofynion arolygiadau hylendid bwyd |
| | **6,479** | | | |
| Ysgolion | 14,394 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol |
| | **14,394** | | | |
| Gwastraff | 542 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Staff tymor byr |
| | 78,130 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Angen tasgau ychwanegol yn y tymor byr |
| | 98,582 | Cyllideb Graidd Benodol/Grant/Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Angen tasgau ychwanegol yn y tymor byr |
| | 47,128 | Cyllideb Graidd Benodol/Grant/Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Angen tasgau ychwanegol yn y tymor byr |
| | **224,382** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 1,079 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | Cadeirio ac Adolygu cynadleddau diogelu plant |
| | 146,522 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | Oherwydd swyddi gwag |
| | 224,155 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | Oherwydd swyddi gwag |
| | 921 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | Oherwydd swyddi gwag |
| | **372,678** | | | |

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio na ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniadau Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Rheswm dros y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 17,895 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Oherwydd Swydd Wag |
| | 116,674 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Prosiect DOLS |
| | 41,374 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Oherwydd Swydd Wag |
| | **175,944** | | | |
| Tranwsnewid | 3,459 | Cyllideb staffio na defnyddiwyd | Dros Dro | Oherwydd swydd wag – bellach wedi ei llenwi |
| | **3,459** | | | |
| **Cyfanswm** | **797,335** | | | |

**ATODIAD E**

## Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr hyd at 31 Mawrth 2020

| Crynodeb o'r Gwariant ar Ymgynghorwyr Ch1-4 yn ôl Adran | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **Ch1** **£** | **Ch2** **£** | **Ch3** **£** | **Chr 4** **£** | **Cyfanswm 2019/20** **£** |
| Addysg Ganolog | 8,950 | 31,375 | 23,699 | 31,584 | **95,608** |
| Diwylliant | 690 | 0 | 497 | 2,302 | **3,489** |
| Economaidd ac Adfywio | 58,760 | 67,764 | 74,646 | 166,279 | **367,449** |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 423 | 18,054 | 31,556 | 54,706 | **104,739** |
| Ysgolion | 0 | 2,836 | 0 | 0 | **2,836** |
| Gwastraff | 54,582 | 53,516 | 36,410 | 47,026 | **191,534** |
| Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| CRT | 8,500 | 13,877 | 4,700 | 74,600 | **101,677** |
| Cofforaethol a Democrataidd | 3,275 | 0 | 0 | 0 | **3,275** |
| Gwasanaethau Oedolion | 850 | 1,600 | 0 | 1,571 | **4,021** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 6,984 | 696 | 8,855 | **16,534** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 3,807 | **3,807** |
| Trawsnewid | 2,452 | 3,824 | 8,275 | 19,124 | **33,675** |
| Busnes y Cyngor | 3,996 | 27,619 | 37,477 | 37,638 | **106,729** |
| Adnoddau | 16,424 | 6,300 | 9,176 | 1,675 | **33,574** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **158,901** | **233,749** | **227,131** | **449,166** | **1,068,948** |
| Cyllidwyd gan: | | | | | |
| Cyllideb Graidd | 55,252 | 104,235 | 134,952 | 256,960 | **551,399** |
| Grant | 7,523 | 11,150 | 8,376 | 83,823 | **110,871** |
| Cyfraniad Allanol | 45,790 | 59,819 | 52,320 | 75,236 | **233,164** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 50,337 | 58,546 | 31,485 | 33,147 | **173,514** |
| **Cyfanswm** | **158,901** | **233,749** | **227,131** | **449,166** | **1,068,948** |

**ATODIAD F**

## Dansoddiad o Gostau Ymgynghorwyr Chwarter 4 2019/20

| | | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swm £ | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| **Cyfanswm Ch1 Ebrill - Mehefin** | **158,901** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 – Gorffennaf – Medi** | **233,749** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch3 Hydref – Rhagfyr** | **227,131** | | | | | |
| Addysg Ganolog | 394 | | | ✓ | GCR | Cytundeb Partneriaeth Safle Ysgol Pencarnisiog |
| | 3,000 | | | ✓ | Grant | Comisiwn ar gyfer dau glwb Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol |
| | 4,900 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Gwesteio, cynnal a chefnogaeth flynyddol i'r Gwasanaeth Ieuenctid Holistix 2020/21 |
| | 302 | | | ✓ | Grant | Llety gwesty ar gyfer Cyflwyniadau 17 a 18 Chwefror 2020 |
| | 3,000 | | | ✓ | Grant | Cyfraniad at Fan Cell a Chyflwyniadau gan Siaradwr Ysgogiadol 17 a 18 Chwefror 2020 |
| | 761 | | | ✓ | Grant | Diwygio llyfrau gwaith / portffolios a hyfforddiant staff |
| | 9,119 | ✓ | | | Craidd | Ffioedd Proffesiynol - gwasanaeth fel Uwch Swyddog Adran Addysg |
| | 9,607 | ✓ | | | Craidd | Ffioedd Proffesiynol - Adran Addysg Ionawr 2020 |
| | 500 | | | ✓ | Grant | Cyflwyniadau i Gynhadledd Gwarchodwyr Plant ac i Gynhadledd Gofod Chwarae Cymunedol |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **31,584** | | | | | |

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| Diwylliant | 250 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Rhedeg Gweithdy Print Torri Leino yn OYM |
| | 1760 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith cadwraeth ar baentiad olew |
| | 115 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith dylunio - William Roos |
| | 177 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Modelu bywyd |
| **Cyfanswm Diwylliant** | **2,302** | | | | | |
| Adfywio ac Economaidd | 150 | | | ✓ | Cyllid Allanol | Cyfarfod 02/12/19 i drafod cyfarfodydd Llongau Mordeithio yn yr UDA gyda'r ymgynghorwyr MHPA Criterion Quay Development |
| | 38 | | | ✓ | Cyllid Allanol | Hawlio costau taith o Abertawe i Gaerdydd ac yn ôl |
| | 638 | | | ✓ | Cyllid Allanol | Hedfan i fynychu Cynhadledd Masnach Mordeithio yn Miami Ebrill 2020 |
| | 340 | | | ✓ | Cyllid Allanol | Cyfarfod Ritz Carlton Yacht Cruises, Crystal Cruise Line Miami, Stena Line HH |
| | 4,451 | ✓ | | | Cyllid Allanol | Cymorth Ceisiadau - Adolygu'r ddogfen cyn ymgeisio – Prosiect Morlais |
| | 1,704 | ✓ | | | Cyllid Allanol | Prosiect Morlais - cyngor cynllunio |
| | 41,711 | ✓ | | | Cyllid Allanol | Cyngor ôl-ymchwiliad Wylfa |
| | 256 | ✓ | | | Cyllid Allanol | Cais TWAO - rhoi cyngor i'r Cyngor |
| | 34,969 | | | ✓ | Grant | Gwasanaeth ymgynghori - datblygu cynllun adfywio ar gyfer Porth Amlwch |
| | 5,000 | | | ✓ | Cyllid Allanol | Adroddiad ac arolwg o adeiladau yn Ardaloedd Cadwraeth Porthladd Amlwch ac Amlwch Ganolog |
| | 20,449 | | | ✓ | Cyllid Allanol | Gwaith trefnu a chefnogi prosesau grantiau Arfor Ionawr a Chwefror 2020 |

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| | 3,001 | | | ✓ | Grant | 50% o astudiaeth Estyn Parth Menter Amlwch |
| | 200 | | | ✓ | Incwm Ffioedd Cynllunio | Cais am gyfluniad cynllun |
| | 15,000 | ✓ | | | Incwm Ffioedd Cynllunio | Ffi flynyddol - gwasanaeth cynllunio mwynau a gwastraff |
| | 5,000 | ✓ | | | Incwm Ffioedd Cynllunio | Gwybodaeth a chyngor curadurol |
| | 8,950 | | | ✓ | Incwm Ffioedd Cynllunio | Glanhau cysylltiadau yn Salesforce |
| | 8,075 | | | ✓ | Incwm Ffioedd Cynllunio | Achosion - ceisiadau / cyhoeddusrwydd / copi o bolisïau |
| | 420 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaethau gwirio strwythurol |
| | 50 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaethau peirianneg |
| | 1,915 | | ✓ | | Craidd | Taliadau yn ymwneud â Gwirio Cynlluniau |
| | 140 | ✓ | | | Craidd | Archwiliad Trydanol Atgyweiriad 1af |
| | 30 | ✓ | | | Craidd | Tâl isafswm asiantaeth credyd |
| | 1,268 | ✓ | | | Craidd | Dadansoddiad Samplu Bwyd |
| | 28 | ✓ | | | Craidd | Tâl NAFN Gorffennaf - Medi 2019 |
| | 9,958 | ✓ | | | Craidd | Archwiliadau Tai Operation Pinewood 2019/20 |
| | 70 | ✓ | | | Craidd | Buchol 13-23 mis |
| | 1,484 | ✓ | | | Craidd | Ffioedd Worldpay |
| | 485 | | | ✓ | Craidd | Chwaraeon yr Urdd |
| | 500 | | | ✓ | Cyllid Allanol (LIC) | Sesiynau Jiwdo yn YDH |
| **Cyfanswm Adfywio ac Economaidd** | **166,279** | | | | | |

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Untro** | | |
| Priffyrdd | 2,540 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cymorth Ad-Hoc |
| | 397 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cyhoeddi Rhybudd Dirwy |
| | 2,422 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cyfraniadau Ardollau Rhybuddion Dirwy WPPP 2019/20 |
| | 7,500 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cyfraniadau CSSW Hamp |
| | 14,232 | | ✓ | | Grant | Gwasanaethau proffesiynol YGC CPF 6759 |
| | 4,000 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Arolwg Traffig - Benllech, Ynys Môn |
| | 4,500 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Modelu Traffig – Ffordd Porthdafarch Caergybi |
| | 13,212 | | | ✓ | Grant | Gwasanaethau Proffesiynol ygc |
| | 4,228 | ✓ | | | Grant | Dyletswyddau SAB |
| | 1,675 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Archwiliad tanddwr yn Cob Fali |
| **Total Highways** | **54,706** | | | | | |
| Waste | 2,080 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cynnal ymchwiliad disgyblu |
| | 32,597 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cronfeydd Wrth Gefn a glustnodwyd | Darparu Cymorth Technegol allanol mewn cysylltiad â Chaffael contract newydd |
| | 825 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | DUoS |
| | 1,957 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith chwarterol Monitro Nwy ar Safle Tirlenwi, Cymorth Technegol |
| | 150 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Samplau Ychwanegol Gorsaf Drosglwyddo |
| | 5,458 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith Adfer Sêl Safle Tirlenwi |
| | 1,856 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Monitro Bioaerosol ac asesiad risg galwedigaethol ym Mhenhesgyn |

| | | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm £** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Untro** | | |
| | 600 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith ymgynghori - PAS 100 wedi'i wneud ym Mhenhesgyn |
| | 1,503 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Prawf Compost Llawn |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **47,026** | | | | | |
| CRT | 49,150 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Symud data i serfiwr 2008 i 2016 - Gwasanaethau Technegol |
| | 5,700 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Gwasanaethau recriwtio |
| | 12,250 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Prosiect Gweithio Symudol |
| | 7,500 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Orchard Intelligent Forms Solutions. |
| **Cyfanswm CRT** | **74,600** | | | | | |
| Gwas. Oedolion | 496 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol |
| | 1,075 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Cyflwynwyd gwaith i ymchwilio i gwyn |
| **Cyfanswm Gwas. Oedolion** | **1,571** | | | | | |
| Gwas. Plant | 3,883 | | | Untro | Cyllideb Graidd | Asesiad Ffurflen F |
| | 2,112 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Asesiad Maethu |
| | 1,000 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cwblhau a chyflwyno Asesiad Ffurflen F |
| | 860 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Gwaith yn ymchwilio i gwynion |
| | 1,000 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Gwybodaeth Ymateb HCPC |
| **Cyfanswm Gwas. Plant** | **8,855** | | | | | |
| Corfforaethol | 2,819 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Asesiad ar gyfer swydd Prif Weithredwr |
| | 988 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Asesiad ar gyfer swydd Prif Weithredwr |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | **3,807** | | | | | |

| | | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swm £ | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| Trawsnewid | 12,900 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Diogelwch Seiber - Costau Seiber y mae modd eu hadennill |
| | 2,500 | | | ✓ | Grant | Casglu a Choladu Data Gwaelodlin ar Asedau Cyfrifiadurol CSYM |
| | 3,724 | ✓ | | | Grant | Asesydd - Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **19,124** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 30,725 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Llenwi swyddi am gyfnod dros dro |
| | 6,913 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Adolygu Cynllun Oddi ar y Safle Magnox Wylfa ac ymarfer L2 yn ystod 2019 |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **37,638** | | | | | |
| Adnoddau | 1,125 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Ymgynghorydd CIVICA |
| | 550 | | | ✓ | Cronfeydd Wrth Gefn | Treuliau Prosiect Safonol |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **1,675** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch4 Ionawr – Mawrth** | **449,166** | | | | | |
| **Cyfanswm cronnus - Ebrill i Ragfyr** | **1,068,947** | | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **15 MEHEFIN 2020** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

- Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2019/20 sy'n destun Archwiliad; a
- Cymeradwyo cario £12.109m drosodd i 2020/21 ar gyfer tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cario drosodd i 2020/21 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2020/21 yw £41.368m.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, sy'n destun Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | Mae sylwadau'r UDA wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad terfynol |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro yn ffurfio rhan o sylwadau'r UDA |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | |
| **2** | **A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2019/20
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriad i 2020/21

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2019/20, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor Sir ar 27 Chwefror 2019;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 ar gyfer chwarter cyntaf 2019/20, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 16 Medi 2019;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 ar gyfer ail chwarter 2019/20, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 25 Tachwedd 2019;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 ar gyfer trydydd chwarter 2019/20, a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 02 Mawrth 2020.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma’r adroddiad ar yr Alldro Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, sy’n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae’r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn amodol ar Archwiliad.

Ym mis Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £17.282m ar gyfer 2019/20 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a rhaglen gyfalaf o £13.110m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2019, caniataodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad o £3.065m gael ei ddwyn ymlaen o 2018/19. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau ac yn werth £10.450m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 i £43.907m.

## 2. GWARIANT CYFALAF 2019/20

**2.1** Tabl Crynodeb o’r gwariant hyd at 31 Mawrth 2020:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gorwariant £'000 | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,116 | 1,252 | (863) | 59 |
| CRT Tai | 14,117 | 11,812 | (2,305) | 84 |
| Dysgu Gydol Oes | 8,102 | 2,982 | (5,120) | 37 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,039 | 2,993 | (3,046) | 50 |
| Priffyrdd | 8,611 | 7,176 | (1,434) | 83 |
| Rheoli Gwastraff | 180 | 180 | 0 | 100 |
| Eiddo | 1,233 | 990 | (243) | 80 |
| Trawsnewid | 1,717 | 1,297 | (420) | 76 |
| Cynllunio | 875 | 755 | (120) | 86 |
| Gwasanaethau Oedolion | 917 | 577 | (340) | 63 |
| **Cyfanswm** | **43,907** | **30,015** | **(13,892)** | **68** |
| **Cyllidwyd gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 25,880 | 19,419 | (6,461) | 75 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 964 | 1,050 | 86 | 109 |
| Bethyca â Chefnogaeth | 5,973 | 817 | (5,156) | 14 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 544 | 300 | (243) | 55 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,095 | 7,609 | (2,486) | 75 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 186 | - | (186) | - |
| Benthyciad | 240 | 596 | 356 | 249 |
| Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf | 25 | 224 | 199 | 895 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **43,907** | **30,015** | **(13,892)** | **68** |

**2.2** Roedd y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £29.790m a chafwyd £18.203m o wariant erbyn 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn cyfateb i 61% o'r gyllideb. Mae rhesymau am y tanwariant yn cynnwys:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Safle Preswyl Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr | 0.524 | Ni cwblhawyd trefniadau tendr yn 2019/20 ond disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn Ch 1 2020/21. |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 0.491 | Mae'r gwariant yn ddibynnol ar y galw ac mae'n rhaid bodloni meini prawf penodol, yn arbennig mae prawf adnoddau yn berthnasol i bob darpar gleient a gall hynny gael effaith negyddol ar nifer yr achosion sy'n gymwys i dderbyn y grant. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 4.547 | Mae'r gofyn i ail-ymgynghori wedi arwain at ohirio'r cynlluniau dewisol. Rhagwelir rhagor o lithriad yn 2020/21. |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1.554 | Roedd rhaid ail-dendro'r prosiect a ni cychwynnodd y gwaith tan Hydref 2019. Roedd rhaid atal y gwaith ym mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19. |
| Porth Twristiaeth | 1.076 | Disgwyl caniatâd i ddechrau'r prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri sy'n darparu cyllid cyfatebol ar gyfer dau brosiect. |
| Amddiffynfeydd Llifogydd Traeth Coch | 0.638 | Ni cwblhawyd y gwaith dylunio prosiect. |
| Caledwedd TG | 0.420 | Roedd yr angen am offer newydd yn llai na'r disgwyl. |

Mae rhestr lawn o wariant y cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb i'w weld yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 84% o'i gyllideb gyfan. Amcangyfrifwyd y byddai'r gyllideb gyfan wedi cael ei hymrwymo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, oherwydd amseru trefniadau tendr a dyfarnu contractau, nid oedd y gwir wariant yn cyd-fynd â'r disgwyliadau gwreiddiol. Yn gyffredinol, roedd gwerth y contractau a ddyfarnwyd yn ymrwymo'r gyllideb yn llawn ac mae ymrwymiad sylweddol yn cael ei gario drosodd ar waith cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol a fydd yn sail i gynnal cydymffurfiaeth â SATC yn 2020/21.

**2.4** Fel y gwelir o Dabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Digefnogaeth a Chyfraniadau Refeniw. Sonnir am y prif reswm dros y tanwariant mewn grantiau ym mharagraff 2.2, lle mae prosiectau Grantiau Cyfalaf mawr megis Isadeiledd Strategol Caergybi, Ysgol Newydd Llangefni a'r Porth Ymwelwyr wedi tanwario'n sylweddol. Bydd Isadeiledd Strategol Caergybi, Ysgol Newydd Llangefni a'r Porth Ymwelwyr i gyd yn llithro i 2020/21 ynghyd â'r Cyllid Grant. Y prif reswm am y gwahaniaeth yn y Benthyca Digefnogaeth yw'r tanwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a hefyd gohirio'r gwaith ar ystafell ffitrwydd Plas Arthur ddiwedd mis Mawrth 2020, a arweiniodd at oedi o ran ei gwblhau. Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn reswm hefyd am y gwahaniaeth mewn Benthyca â Chefnogaeth, ynghyd â'r tanwariant ar y Safleoedd Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn cael eu cyllido'n rhannol o leiaf trwy Fenthyca â Chefnogaeth. Yn ogystal, roedd gwaith Ail-wynebu Priffyrdd yn cael ei gyllido'n gyfan gwbl gan grant, yn hytrach na grant a benthyca â chefnogaeth fel y nodwyd yn y gyllideb, a gyfranwyd at yr amrywiaeth. Fel y sonnir ym mharagraff 3.1.20, derbyniodd yr Awdurdod gyllid grant ychwanegol yn lle cyllid lleol yn 2019/20. Gellir priodoli'r gwahaniaeth mewn Cyfraniad Refeniw i'r tanwariant yn y CRT, a gyllidir yn bennaf trwy gyfraniadau refeniw. Y rheswm am y gorwariant yn y gronfa gyfalaf yw bod rhai cynlluniau'n derbyn cyllid cyfatebol neu'n cael eu cyllido'n rhannol gan ein gwasanaethau refeniw sy'n cael eu trosglwyddo i'r gronfa gyfalaf a'u cyllido o'r fan honno, felly, nid yw'n orwariant gwirioneddol. Mae gorwariant ar y benthyciad oherwydd y prosiect REFIT. Mae hyn oherwydd y derbyniwyd benthyciad ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar ôl gosod y gyllideb, felly, nid yw'n orwariant gwirioneddol.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20. Mae yna rai cynlluniau blynyddol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis y Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd a'r Grant Galluogi. Cwblhawyd rhai cynlluniau yn ystod y flwyddyn hefyd a oedd wedi derbyn cyllid grant yn y blynyddoedd cynt, megis Neuadd y Farchnad. Mae rhai cynlluniau dal yn mynd rhagddynt a byddant yn parhau yn 2020/21, megis Ysgolion yr 21ain Ganrif, Porth Ymwelwyr, Cynlluniau Lliniaru Llifogydd ym Miwmares a Phentraeth ac Isadeiledd Strategol Llangefni a Chaergybi. Dyfarnwyd cynlluniau Grantiau Cyfalaf newydd hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y Cynllun Cyfalaf Ysgogiad Economaidd, grant Maes Awyr Môn a grant Cyfalaf Gofal Plant.

**3.1.2** **Neuadd y Farchnad, Caergybi** - Yn ystod Chwarter 4 canolbwyntiwyd ar drefnu agoriad / lansiad swyddogol Neuadd y Farchnad ym mis Ebrill, gan gynnwys elfennau cyntaf y gwaith dehongli treftadaeth ym mis Ebrill. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr agoriad ffurfiol yn cael ei ohirio oherwydd y materion a esblygodd yn ddiweddar. Daw'r cyfnod cywiro diffygion i ben ar 18 Gorffennaf 2020 (Ch2 2020/21), pan fydd y taliad cadw terfynol ar gyfer Rhan II yn ddyledus, gan gynnwys mân waith adfer y tu ôl i adeilad y pafiliwn Stryd Stanley ac i ddarparu raciau beiciau a storfa finiau ac mae'r gwaith hwnnw o fewn y cyfrif terfynol y cytunwyd arno.

**3.1.3** **Isadeiledd Strategol Llangefni** - Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu pump o unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w gosod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd nawr wedi'u cwblhau, ac mae pob un o'r pump wedi eu gosod. Mae gwaith adeiladu yn y Ganolfan Fusnes wedi'i gwblhau ac mae swyddfeydd yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd. Ail-broffilwyd y cynllun a'i gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chaniatawyd estyniad o 6 mis i'r prosiect hyd ddiwedd mis Medi. Mae'r gwariant sy'n weddill wedi cael ei ddyrannu i uwchraddio'r cladin a mân waith arall ar y ganolfan fusnes bresennol. Bydd oedi yn y dyddiad cwblhau gwreiddiol oherwydd i'r gwaith gael ei atal dros dro ddiwedd mis Mawrth 2020 oherwydd Covid 19. Hysbyswyd WEFO am y sefyllfa.

**3.1.4** **Ysgolion yr 21ain Ganrif** – O'r Prosiectau ym Mand A, cwblhawyd ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen, ynghyd ag adeiladu estyniad i Ysgol Parc y Bont ac adnewyddu Ysgol Brynsiencyn. Cynhaliwyd ymgynghoriad dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod Chwarter 4 ar y cynllun olaf ym Mand A, sydd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni. Ar ôl i hyn gael ei gwblhau, petail ysgol newydd yw'r opsiwn dewisol, bydd angen diweddaru costau'r cynllun a ddewisir i'w cynnwys yn yr Achos Busnes Terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

**3.1.5** **Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd** - Bydd y cynllun hwn yn golygu gwneud gwaith cyfalaf ar ffordd y A4080 o Lanfairpwll i Aberffraw. Mae'r gwaith wedi dechrau ac roedd gwariant ar gyfer y flwyddyn yn £0.228m yn erbyn cyllideb o £0.231m.

**3.1.6** **Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** - Daeth gwaith i ben ar y safle tua diwedd Chwarter 4 wedi i staff gael eu rhoi ar y cynllun seibiant swyddi oherwydd Covid. Bydd costau ychwanegol, ond credwn fod digon o gyllid yn y gronfa i dalu am hyn o'r dyraniad presennol gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod. Mae disgwyl i'r prif waith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2020 ond ni fydd tua £0.100m yn cael ei wario tan fis Medi - Rhagfyr 2020. Bydd gwaith ar y safle'n ailddechrau yn ystod Chwarter 1 2020/21.

**3.1.7 Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth –** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd yn Nant y Felin, Pentraeth o fewn eu rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd gwaith wedi cychwyn ar y safle ond yn anffodus daethpwyd ar draws amodau daear annisgwyl. Cafodd gwaith ar y safle ei atal tua diwedd Chwarter 4 oherwydd i staff cael eu rhoi ar y cynllun seibiant swyddi o ganlyniad i Covid. Sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer yr amodau daear anodd ac oblygiadau Covid. Bydd gwaith yn ailddechrau ar y safle yn ystod Chwarter 1 2020/21. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ddiwedd Awst 2020.

**3.1.8 Isadeiledd Strategol Caergybi** - Mae'r cynllun hwn ar gyfer adeiladu deg o unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r contractwr a benodwyd yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod haf 2020. Cafwyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (WEFO) a sefydlwyd Menter ar y Cyd â Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun. Bydd oedi yn y dyddiad cwblhau gwreiddiol gan i'r gwaith gael ei atal dros dro ddiwedd mis Mawrth 2020 oherwydd Covid19. Hysbyswyd WEFO o'r sefyllfa.

**3.1.9 Porth Ymwelwyr** - Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaeth) Porth Ymwelwyr Caergybi yn becyn o brosiectau sy'n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu cyllido'n bennaf trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae Rhan 1 gwaith gosod arwyddion yn y porthladd wedi'i gwblhau. Mae cynlluniau ar gyfer Rhan 2 yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Cafodd yr adeilad oedd wedi mynd â'i ben iddo yn y porthladd ei ddymchwel ym mis Chwefror 2020 ac mae'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gael caniatâd ar gyfer y prosiect gerllaw Eglwys Sant Cybi a maes parcio Sgwâr Swift.

**3.1.10** Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer **Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu (TRIP)**. Pwrpas y cyllid yw dod â 108 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Tai Gwag, Ymyrraeth Uniongyrchol Tai Gwag a Byw mewn Canol Trefi. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Gwynedd, fel ei bartner cyflawni ar y cyd. Bydd cyfanswm y cyllid yn £3.250m, gydag Ynys Môn yn cyfrannu £1.8m dros dair blynedd. Yn 2019/20, mae cyllideb Ynys Môn yn £0.751m. Ar ddiwedd Chwarter 4, roedd cyfanswm o £1.518m wedi ei dynnu i lawr gan LlC i gyflawni cynlluniau eiddo. Roedd hyn £0.403m yn uwch na'r gyllideb wreiddiol, ond roedd LlC yn awyddus i ddod â gwariant ymlaen o'r flwyddyn ganlynol.

**3.1.11 Maes Awyr Môn** - sicrhawyd £0.360m o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf ar Faes Awyr Môn, sydd yn cynnwys addasiadau i'r derfynfa bresennol. Cwblhawyd y gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol.

**3.1.12 Grant Cyfalaf Gofal Plant –** sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd i alluogi'r Cyngor i gynnig digon o lefydd gofal plant i gwrdd â'r galw a gynhyrchwyd gan y cynnig gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu creu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Llandegfan £0.370m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol Henblas £0.370m, Ysgol y Tywyn £0.216m a £0.165m ar gyfer cyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Morswyn ac Ysgol Pencarnisiog. Mae gwaith wedi cychwyn yn Ysgol Tywyn ac Ysgol Esceifiog. Mae disgwyl cadarnhad o'r dyddiad ar gyfer darparu'r unedau dosbarth newydd, wedi i'r ffatri gau dros dro oherwydd Covid19.

**3.1.13 Teithio Llesol –** dan y cynllun Teithio Llesol mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i wneud mân welliannau i isadeiledd, gan gynnwys gosod arwyddion, cyfleusterau parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau. Pwrpas y grant yw cynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i fannau cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ystod Chwarter 3, sicrhawyd £320,500 ychwanegol gan ddod â chyfanswm y grant i £478,500. Defnyddir y cyllid ychwanegol i osod Croesfan Pelican yn Ysgol Kingsland yng Nghaergybi, uwchraddio'r llwybr troed sy'n cysylltu â Stryd Fawr Benllech, uwchraddio'r llwybr troed a'r llwybr beicio ar y ffordd ym Mhorthaethwy, prynu tir ar gyfer llwybr troed a llwybr beicio ar wahân ar Ffordd Gyswllt Llangefni a dylunio ac adeiladu llwybr amlddefnydd ym Maes Awyr Môn a Llu Awyr Brenhinol y Fali. Gwnaed gwaith yn Chwarter 4, gan wario cyfanswm o £0.351m.

**3.1.14 Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o £1.146m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Roedd disgwyl cael caniatâd i gychwyn gwaith ar y prosiectau yn Chwarter 3, ond bu peth oedi yn dilyn cais am estyniad 6 mis i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. Ni dderbyniwyd 'caniatâd i ddechrau' eto a gohiriwyd recriwtio staff oherwydd y pandemig Covid19.

**3.1.15 Trawsnewid Treflun Caergybi** – Cafwyd 'caniatâd i ddechrau' gan y Loteri Treftadaeth ym mis Rhagfyr 2019, a oedd yn golygu y gallai'r prosiect gychwyn yn ffurfiol. Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar hyrwyddo'r cynigion gwella a nodwyd ar gyfer safle Sant Cybi a'r maes parcio cyfagos. Bydd yr elfennau cynnar yn adeiladu ar waith clirio llystyfiant a wnaed yn Chwarter 4 (2018/19) a dylai ddechrau cyflawni yn Chwarter 4 (2020/21), gan ganolbwyntio ar fynedfa fwaog Ffordd Victoria. Bydd trafodaethau gyda phrosiectau grant 3ydd parti yn cychwyn unwaith y bydd swydd Swyddog Prosiect yn cael ei hysbysebu yn Chwarter 4. Yn ystod chwarter cyntaf y prosiect canolbwyntiwyd ar gysylltu â pherchnogion eiddo cymwys a oedd eisoes wedi dangos diddordeb mewn cyflwyno ceisiadau grant. Bu'r trafodaethau cychwynnol yn gadarnhaol ond gallai'r argyfwng iechyd cyhoeddus diweddar gael effaith ar hyder i fuddsoddi yn y dyfodol. Yn ffodus, mae rhestr o brosiectau blaenoriaeth a phrosiectau wrth gefn eraill y gallwn eu datblygu fel prosiectau amgen. Yn ychwanegol, mae gwaith i ddatblygu'r cynigion i wella Mynwentydd Sant Cybi a'r maes parcio gerllaw yn symud ymlaen yn gyflym. Mae gwaith archeolegol wedi amlygu'r posibilrwydd o gloddio twll prawf, fydd yn cael ei ddatblygu yn awr ac mae gwaith wedi dechrau ar fynedfa Ffordd Victoria. Roedd gwariant yn uwch na'r targed ond o fewn amlen gyffredinol y prosiect.

**3.1.16 Grant Ysgogiad Economaidd -** dyfarnwyd £0.491m o gyllid grant i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf i yrru newidiadau pwysig sydd o fudd economaidd i gymunedau a chynlluniau sy'n cael effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ffordd a chynnal arolygon archeolegol ar Safle Porth Bryn Cefni yn Llangefni. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu saith plot datblygu ar wahân a fydd yn cael eu gwerthu i'r sector preifat. Gwneir cais am gyllid pellach o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i ddatblygu pum uned fusnes ar Blot 1 y safle hwn. I wneud y gwaith angenrheidiol ar y safle, comisiynwyd Griffiths Civil Engineering (GCE) a Scottish Power (SP). Roedd GCE yn gyfrifol am yr holl waith adeiladu rhagbaratoaol ac isadeiledd, gan gynnwys archeoleg, gwasanaethau, draenio ac adeiladu'r ffordd. Penodwyd SP i arallgyfeirio ceblau foltedd uchel sy'n croesi'r safle. Roedd gwaith archeoleg yn datblygu'n dda ar y safle, ac roedd tua 75% o'r gwaith wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig Covid19, bu'n rhaid atal yr holl waith ar y safle ar 24 Mawrth 2020.

**3.1.17 Grant Hwb ar gyfer Isadeiledd mewn Ysgolion** - Neilltuwyd £1.303m i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod rhwydweithiau TGCh ysgolion yn ddigonol i gefnogi dysgu digidol. Roedd rhaid gwario a hawlio'r grant hwn cyn diwedd mis Mawrth 2020 a dechreuodd y gwaith yn ystod Chwarter 4. Rhennir y grant yn ddwy elfen - cyfran ar gyfer costau lleol i drefnu'r prosiect, a'r gweddill yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru i'w wario fel credyd yn erbyn catalog cenedlaethol. Y rhaniad gwreiddiol oedd 85% catalog a 15% costau. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gofyn i newid hynny i 78.5% catalog a 21.5% costau, yn sgil nodi bod angen gwneud gwaith gosod ceblau yn yr ysgolion. Cyflwynwyd archeb catalog o £900k am offer rhwydwaith a diwifr yn Chwarter 4 a chyflwynwyd archeb o £120k yn dilyn hynny am gyfrifiaduron blaen dosbarth, gan gwblhau gwariant arian blwyddyn 1 y prosiect. Derbyniwyd ebost gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod swm o £631,240.92 ar gael fel cyllid prosiect blwyddyn 2, gellir defnyddio hyd at 10% o'r cyllid hwn i gyllido costau darparu drwy gyflwyno cais.

**3.1.18 Grant Ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion** – Ar ddiwedd 2019/20, derbyniodd yr Awdurdod £1.034m o gyllid grant ychwanegol ar gyfer gwaith Cyfalaf cynnal a chadw ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2019/20, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid y mae'r Awdurdod wedi'i arbed trwy'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i gyllido gwaith Cyfalaf cynnal a chadw ysgolion yn 2020/21.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019/20 fel a ganlyn:-

| | Cyllideb 2019/20 £'000 | Derbyniwyd hyd 31-Mawrth-2020 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 699 | 924 | 224 |
| Diwydiannol | 0 | 100 | 100 |
| Ysgolion | 873 | 171 | (702) |
| **Cyfanswm** | **1,572** | **1,195** | **(377)** |

**3.2.2** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy ar gyfer 2019/20 yn £1.195m, yn erbyn cyllideb o £1.572m, sy'n 76% o'r gyllideb. Y prif reswm am yr amrywiad yw na werthwyd tri ased a oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, swm o £615k. Ni fydd ymdrechion yn cael eu gwneud yn awr i werthu un o'r asedau hyn yn 2020/21, a rhagwelir y bydd y ddau arall yn cael eu gwerthu yn 2020/21. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan dderbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb (£211k) a hefyd o ganlyniad i dderbyn mwy am asedau a werthwyd nag a ragwelwyd yn y gyllideb (£27k).

Fel y gellir gweld yn Atodiad B, bydd rhai o'r cynlluniau Cyfalaf yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2020/21. Bydd y llithriad yn y derbyniadau Cyfalaf hyn yn rhannol cyllido'r llithriad yn y rhaglen gyfalaf. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd dros ben, ar ôl cyllido unrhyw orwariant a'r gwaith pellach, yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol.

## 4. Y BLYNYDDOEDD I DDOD

**4.1** Cafodd yr Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2020/21 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020. Mae'r rhaglen gyfalaf gyfan ar gyfer 2020/21 (yn cynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yn dod i gyfanswm o £37.305m. Gellir torri hyn i lawr i:-

- **Cronfa Gyffredinol**
  - Cynlluniau 2019/20 a ddygwyd ymlaen - £5.829m
  - Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol - £6.192m
  - Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21 - £2.274m
  - Ysgolion yr 21ain Ganrif - £2.755m
- **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**
  - Cynlluniau 2019/20 a ddygwyd ymlaen - £3.117m
  - Dyraniad 2020/21 ar gyfer cynlluniau - £17.138m

Y cyllid arfaethedig fydd £7.948m (21%) o ffynonellau cyllid allanol, megis Grantiau Cyfalaf, a £29.357m (79%) o ffynonellau mewnol. Dylid nodi bod swm o £0.825m wedi'i gynnwys yng nghynlluniau 2019/20 a ddygwyd ymlaen mewn camgymeriad ac y dylid bod wedi'i gynnwys dan grant cyfalaf. Felly, mae hyn yn golygu cyllid arfaethedig o £8.773m (24%) o ffynonellau cyllid allanol, megis Grantiau Cyfalaf, a £28.532m (76%) o ffynonellau mewnol.

Mae hyn yn cynnwys £3.085m o fenthyca â chefnogaeth, £1.394m o fenthyca digefnogaeth, £9.080m o gyllid a ddygwyd ymlaen, £0.245m o dderbyniadau cyfalaf, £0.500m o'r gronfa gyfalaf wrth gefn, gyda'r £14.228m yn weddill yn cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Roedd cyllideb 2020/21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym Mawrth 2020, yn cynnwys amcangyfrif o'r llithriad i'w gardio drosodd o 2019/20. Mae'r adroddiad alldro wedi caniatáu'r llithriad ar gynlluniau i gael eu diweddaru i roi cyllideb cyfalaf diwygiedig ar gyfer 2020/21 sydd fel y ganlyn:-

| | **Gronfa Gyffredinol £'m** | **CRT £'m** | **Cyfanswm £'m** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb cymeradwywyd gan y Cyngor 10 Mawrth 2020 | 17.050 | 20.255 | 37.305 |
| Llai Llithriad wedi ei gynnwys yn y Gyllideb | (4.929) | (3.117) | (8.046) |
| Llithriad Diwygiedig ar Alldro | 10.215 | 1.894 | 12.109 |
| **Cyllideb Cyfalaf Diwygiedig 2020/21** | **22.336** | **19.032** | **41.368** |

**4.3** Fel y gellir gweld yn Atodiad B, bwriedir y bydd £12.109m yn cael ei gario drosodd i 2020/21 fel llithriad ar gyfer cynlluniau cyfalaf na chawsant eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Gyda'i gilydd, mae cynlluniau yn y Gronfa Gyffredinol sy'n werth cyfanswm o £10.215m a chynlluniau CRT gwerth £1.894m. Bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn llithro i 2020/21 ac, ar gyfer y Gronfa Gyffredinol, mae hyn yn cynnwys £0.169m o Dderbyniadau Cyfalaf, £6.152m o Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth gwerth £3.461m, £0.402m o fenthyca digefnogaeth, cyfraniad refeniw gwerth £0.016m a £0.015m o'r Cronfeydd Wrth Gefn, gyda'r elfen CRT yn dod o'r Cyfraniad Refeniw o'r CRT. Fel y gwelir yn Nhabl 2.1 a pharagraff 2.4 yr adroddiad hwn, mae digon o danwariant yn erbyn y ffrydiau cyllido hyn y gellir ei gario drosodd i 2020/21.

**4.4** Os bydd y llithriad yn Atodiad B yr adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, bydd cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yn £41.368m, lle bydd £22.336m o hwnnw yn dod o'r Gronfa Gyffredinol a £19.032m o'r CRT. Gellir ychwanegu cynlluniau eraill i'r Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2020/21 os daw cyllid grant ychwanegol ar gael.

**4.5** Yn sicr, cafodd yr achos Covid 19 effaith ar ddiwedd Chwarter 4 lle y daeth gwaith ar nifer o safleoedd i ben, yn unol â chyfyngiadau a chanllawiau'r Llywodraeth. Felly, ni chwblhawyd rhai cynlluniau yn ystod y flwyddyn oherwydd hyn a byddant yn parhau yn 2020/21. Yn 2020/21 hefyd gwelir effaith barhaus Covid 19 a'r ansicrwydd a ddaw yn ei sgil, yn arbennig yn Chwarter 1 2020/21. Ni ddisgwylir y bydd rhai cynlluniau cyfalaf yn ailgychwyn tan ddiwedd Chwarter 1 2020/21.

## 5. YR EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

**5.1** Roedd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2020 yn £136.904m, a dyma pan mae'n rhaid i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol ar hyn o bryd yn £139.232m.

Mae'r Awdurdod o fewn y lefelau benthyca awdurdodedig, yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 (Atodiad 11 y datganiad hwnnw). Cyflwynir adolygiad llawn o Reoli Trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Er fod lefel y tanwariant yn sylweddol (32% o'r cyllid sydd ar gael), nid yw'n annisgwyliedig pan yn delio â nifer o brosiecta mawr, cymhleth, sydd angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyllido arall, ac maent yn agored i broblemau annisgwyl unwaith mae'r gwaith yn cychwyn ar y safle. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â phrosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a fwriadwyd (Ysgolion yr 21ain Ganrif, safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, prosiectau isadeiledd a Phrynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd ar gyfer y CRT) neu oherwydd bod gwaith wedi cael ei atal ar safleoedd gan olygu nad oedd modd cwblhau cynlluniau ar amser. Yn achos prosiectau cyfalaf mawr, mae'n arferol i gael oedi annisgwyl ac nid yw'n anarferol gweld gwariant ar brosiectau o'r fath yn llithro. Ym mhob achos, llwyddwyd i sicrhau'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn a bydd yn cael ei gario drosodd i 2020/21, sy'n golygu na fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a llithriad i 2020/21

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2020/21 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,000 | 409,088 | (490,912) | 45 | 55 | - | Ystyrir fod cyllideb graidd 2020/21 yn ddigonol i gwrdd â'r anghenion |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 779,000 | 255,494 | (523,506) | 33 | 67 | 523,506 | Trefniadau tendr i'w cwblhau yn ystod Q1 2020/21 - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 22,740 | 222,757 | 200,017 | 980 | (880) | | |
| Grant Galluogi | 93,200 | 94,249 | 1,049 | 101 | (1) | | |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 200,000 | 213,075 | 13,075 | 107 | (7) | | |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 90,000 | 57,499 | (32,502) | 64 | 36 | 32,502 | Cyllidir gan **grant** |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | - | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Cyllidir gan **derbyniadau cyfalaf** |
| **Cyfanswm** | **2,115,590** | **1,252,161** | **(863,430)** | **59** | **41** | **586,658** | |
| | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 353,698 | (46,302) | 88 | 12 | 46,302 | Tanwariant oherwydd problemau mynediad i wneud y gwaith |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,850,000 | 3,879,991 | (970,009) | 80 | 20 | 970,009 | Ddaru'r gontract â ddyfarnwyd yn ystod Ch3 ymrwymo'r gyllideb yn llawn ar gyfer 2019/20 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 9,433 | (390,567) | 2 | 98 | 390,567 | Mae cychwyn y gwaith PV Solar yn ddibynnol ar sicrhau cymerawyaeth DNO |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 140,386 | (309,614) | 31 | 69 | 309,614 | Angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer y rhaglen dymchwel garejys |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 6,371,000 | 5,598,765 | (772,235) | 88 | 12 | - | Ystyrir fod cyllideb graidd 2020/21 yn ddigonol i gyflawni'r allbynnau disgwyliedig |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 16,000 | 65,047 | 49,047 | 407 | (307) | - | |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 421,145 | 71,145 | 120 | (20) | - | Arweinir gan y galw, felly'n anodd darogan o flaen llaw |
| Risg Tân | 200,000 | 22,399 | (177,601) | 11 | 89 | 177,601 | Ddaru'r contract a ddyfarnwyd yn ystod Ch4 ymrwymo'r gyllideb yn llawn ar gyfer 2019/20 |
| Tir Halogedig | 330,000 | 346,658 | 16,658 | 105 | (5) | - | |
| SATC | 750,000 | 974,504 | 224,504 | 130 | (30) | - | Arweinir gan y galw, felly'n anodd darogan o flaen llaw |
| **Cyfanswm** | **14,117,000** | **11,812,025** | **(2,304,975)** | **84** | **16** | **1,894,094** | Angen llithro'r tanwariant, cyllidir gan **gyfraniadau refeniw** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2020/21 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 300,000 | 20,920 | (279,080) | 7 | 93 | 200,000 | Cynllunnir dau brosiect mawr ar gyfer 2020/21 - Lifft Ysgol Llanfawr a Lifft Ysgol Gyfun Llangefni. Amcangyfrif cyfredol am y gwaith yw £400k. Mae cyllideb 2020/21 yn £300k, felly, awgrymu £200k o 2019/20 i gwrdd â chostau'r ddau brosiect yma ac ychydig o brosiectau llai, yn ogystal â chwblhau'r gwaith lifft yn Ysgol David Hughes - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 1,470,000 | 1,485,935 | 15,935 | 101 | (1) | - | |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | - | (200,000) | 0 | 100 | 200,000 | Cronfa i ymgymryd ag adolygiad o asesiadau risg safle ysgolion - rhagwelir bydd yn symud ymlaen yn 2020/21 - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol y Graig | 666,000 | - | (666,000) | 0 | 100 | 666,000 | Oherwydd gorfod ail-wneud yr ymgynghoriad cyhoeddus ac oherwydd Covid, bu oedi gyda'r prosiect a ni ddisgwylir unrhyw gynnydd flwyddyn yma. Gall fod rhywfaint o Ffioedd Dylunio i'w hawlio yn Ch4. Cyllidir gan gyfuniad o **grant cyfalaf, benthyca â chefnogaeth a benthyca di-gefnogaeth** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Rhyd Y Llan | 37,000 | 5,139 | (31,861) | 14 | 86 | 31,861 | Angen cyllideb i gyllido gwaith archeolegol - cyllidir gan **fenthyca di-gefnogaeth** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ardal Seiriol | 400,000 | - | (400,000) | 0 | 100 | 400,000 | Oherwydd gorfod ail-wneud yr ymgynghoriad cyhoeddus ac oherwydd Covid, bu oedi gyda'r prosiect a ni ddisgwylir unrhyw gynnydd flwyddyn yma. Gall fod rhywfaint o Ffioedd Dylunio i'w hawlio yn Ch4. Cyllidir gan gyfuniad o **grant cyfalaf, benthyca â chefnogaeth a benthyca di-gefnogaeth** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Santes Dwynwen | 85,000 | 243,156 | 158,156 | 286 | (186) | - | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ardal Amlwch | 100,000 | - | (100,000) | 0 | 100 | 100,000 | Oherwydd gorfod ail-wneud yr ymgynghoriad cyhoeddus ac oherwydd Covid, bu oedi gyda'r prosiect a ni ddisgwylir unrhyw gynnydd flwyddyn yma. Gall fod rhywfaint o Ffioedd Dylunio i'w hawlio yn Ch4. Cyllidir gan **fenthyca di-gefnogaeth** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Newydd Llangefni | 3,521,000 | 14,000 | (3,507,000) | 0 | 100 | 3,507,000 | Oherwydd gorfod ail-wneud yr ymgynghoriad cyhoeddus ac oherwydd Covid, bu oedi gyda'r prosiect a ni ddisgwylir unrhyw gynnydd flwyddyn yma. Ar y gorau, efallai gellir cychwyn ar y safle yn Ch4. Bydd rhaid diweddaru costau'r prosiect ar gyfer Cyflwyniad FBC i LlC, sy'n debygol o arwain at gynnydd yn y costau a'r gyllideb. Cyllidir gan gyfuniad o **grant cyfalaf a benthyca â chefnogaeth** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 46,000 | 46,368 | 368 | 101 | (1) | - | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Parc y Bont | 5,500 | 5,533 | 33 | 101 | (1) | - | |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 14,500 | 10,224 | (4,276) | 71 | 29 | 4,276 | |
| Cynyddu'r capasiti ar gyfer grant cyfalaf gofal plant | 1,255,985 | 1,149,358 | (106,627) | 92 | 8 | 106,627 | Cyllidir gan **grant cyfalaf** |
| Dymchwel ysgolion / llyfrgelloedd | 1,480 | 1,480 | 0 | 100 | 0 | - | |
| **Cyfanswm** | **8,102,465** | **2,982,111** | **(5,120,354)** | **37** | **63** | **5,215,765** | |
| | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Gwaith a'r gyfer Ystaffell Ffitrwydd Plas Arthur | 130,000 | 27,136 | (102,864) | 21 | 79 | 102,864 | |
| Cae Chwarae 3G 7 pob ochr David Hughes | 80,000 | 76,188 | (3,812) | 95 | 5 | - | |
| Offer Pêl-fasged - Caergybi | 15,757 | 15,757 | (0) | 100 | 0 | - | |
| Porth Twristiaeth | 1,280,000 | 203,767 | (1,076,233) | 16 | 84 | 1,076,233 | Cynllun yn parhau - cyllidir gan **grant a benthyca â chefnogaeth** |
| Parc Morglwadd | - | 2,914 | 2,914 | 0 | 100 | - | |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 3,499,000 | 1,945,236 | (1,553,764) | 56 | 44 | 1,553,764 | Cynllun yn parhau - cyllidir gan **grant a benthyca â chefnogaeth** |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 306,000 | 74,640 | (231,360) | 24 | 76 | 231,360 | Cynllun yn parhau - cyllidir gan **grant a benthyca â chefnogaeth** |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 57,000 | 41,748 | (15,252) | 73 | 27 | 15,252 | Llithriad llawn i'w gyllido gan **gronfeydd wrth gefn** |
| Datblygu Economiadd - I Geisio Cyllid Cyfatebol | 85,000 | 20,850 | (64,150) | 25 | 75 | 64,150 | |
| Stimwlws Cyfalaf Economaidd | 526,330 | 531,662 | 5,332 | 101 | (1) | - | |
| Datblygu Safle Ysgol TRIP | 60,000 | 52,778 | (7,222) | 88 | 12 | 7,222 | |
| **Cyfanswm** | **6,039,087** | **2,992,676** | **(3,046,411)** | **50** | **50** | **3,050,845** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2020/21 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 30,000 | - | (30,000) | 0 | 100 | 30,000 | Gwnaed archebion prynu yn 2019/20 am £14,906 ac £15,400.50. Archebion wedi eu rholio drosodd i 2020/21 - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Cerbydau | 216,960 | 103,593 | (113,367) | 48 | 52 | 113,367 | Eisoes wedi ymrwymo gwariant o £105k - cyllidir gan **dderbyniadau cyfalaf** |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,961,180 | 1,848,184 | (112,996) | 94 | 6 | 112,996 | 6 darn o waith wedi eu cynllunio i gymryd lle yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 2,310,000 | 2,346,177 | 36,177 | 102 | (2) | 63,000 | Cyllideb cyfatebol nas defnyddiwyd i'w gario drosodd - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 403,082 | 403,082 | (0) | 100 | 0 | - | |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 180,000 | 145,078 | (34,922) | 81 | 19 | 34,922 | I'w gyllido gan grant 85% a chyllid cyfatebol nas defnyddiwyd o gyfraniad refeniw 15% |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 150,000 | 77,020 | (72,980) | 51 | 49 | 72,980 | I'w gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth -** gwariant ymrwymiedig o £40,873 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Gwaith Draenio | 200,000 | 206,383 | 6,383 | 103 | (3) | - | |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | 166,000 | 39,665 | (126,335) | 24 | 76 | 84,368 | Cynllun yn ymwneud â Chaergybi ac Amlwch - cyfanswm y cynnig o £109,510, felly, angen llithro £69,845 mewn perthynas â'r cynllun yma, i'w gyllido gan grant o 85% (£59,367) a benthyca â chefnogaeth o 15% (£10,477) estyniad amser wedi ei gymeradwyo hyd at 2020/21. Mae hyn hefyd yn gadael cyllid cyfatebol nas defnyddiwyd yn benthyca â chefnogaeth o £14,523 (cymeradwywyd yn 2019/20) a gofynnir i'w gario drosodd i'w ddefnyddio yn erbyn cynlluniau 2020/21 newydd gan LlC |
| Amddiffyn rhag Llifogydd Traeth Coch | 638,000 | - | (638,000) | 0 | 100 | - | |
| Lôn Gyswllt Llangefni | 97,000 | 102,786 | 5,786 | 106 | (6) | - | |
| Teithio Llesol | 478,500 | 350,598 | (127,902) | 73 | 27 | - | Telerau'r grant i'w ddefnyddio erbyn 31 Mawrth 2020 |
| A545 Biwmares | 68,800 | 44,073 | (24,727) | 64 | 36 | 24,727 | Rhagor o waith i'w wneud yn ôl yr angen - cyllidir gan **dderbyniadau cyfalaf** |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 231,000 | 228,155 | (2,845) | 99 | 1 | - | Wedi hawlio'r gwariant - tanwariant ddim i'w gario drosodd |
| Parcio a theithio yng Ngaerwen | 600,000 | 600,966 | 966 | 100 | (0) | - | |
| Maes Awyr Môn | 360,000 | 311,752 | (48,248) | 87 | 13 | - | Cynllun wedi gorffan yn y flwyddyn |
| Hyb Porth Caergybi | 306,000 | 166,557 | (139,443) | 54 | 46 | 139,443 | Wedi cytuno gellid gwario hyd at Mehefin 2020 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 4,000 | - 1,638 | (5,638) | -41 | 141 | - | |
| Beicio Llangefni | 160,000 | 151,756 | (8,244) | 95 | 5 | - | Telerau'r grant i'w ddefnyddio erbyn 31 Mawrth 2020 |
| Grant TAIS Oriel Dingle | - | 1,966 | 1,966 | 0 | 100 | - | |
| Cronfa Cludiant Lleol - Mannau Gollwng Ysgol | 50,000 | 50,000 | 0 | 100 | 0 | - | |
| **Cyfanswm** | **8,610,522** | **7,176,155** | **(1,434,367)** | **83** | **17** | **675,802** | |
| | | | | | | | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Prynu Rhaw Lwytho Newydd | 180,000 | 180,250 | 250 | 100 | (0) | - | |
| **Cyfanswm** | **180,000** | **180,250** | **250** | **100** | **(0)** | **-** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2020/21 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Glanllyn, Llanedwen | 21,000 | 13,200 | (7,800) | 63 | 37 | - | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 572,540 | 253,767 | (318,773) | 44 | 56 | 318,773 | Mae'r gyllideb wedi ei ymrwymo i gyllido boeleri yng Nghanolfan Hamdden Amlwch, wedi ei ddal yn ôl ar hyn o bryd oherwydd Covid - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 510,000 | 595,771 | 85,771 | 117 | (17) | - | |
| Neuadd y Sir | 25,000 | 26,284 | 1,284 | 105 | (5) | - | |
| Cromlech Farm | 91,000 | 87,828 | (3,172) | 97 | 3 | 3,172 | |
| Cae Warren | 13,494 | 13,494 | 0 | 100 | 0 | - | |
| **Cyfanswm** | 1,233,034 | 990,344 | **(242,690)** | **80** | **20** | **321,945** | |
| | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 171,000 | 16,933 | (154,067) | 10 | 90 | 154,067 | Tanwariant yn 2019/20 oherwydd meolaeth dros dro - cynllun bellwch wedi ei lunio sydd wedi ei addasu oherwydd Covid, felly, disgwylir gwariant 2020/21 o fwy na'r gyllideb graidd flynyddol. Cyllidir gan **grant** |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 150,202 | 29,202 | 124 | (24) | - | Archebwyd gormod ar ddiwedd 2019/20 er mwyn creu stoc oherwydd problemau printer gliniaduron |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | - | (20,000) | 0 | 100 | - | Ddim ei angen yn 2020/21 |
| TGCh - Trwyddedu MS | 127,000 | - | (127,000) | 0 | 100 | - | Ddim ei angen yn 2020/22 |
| TGCh - Cysylltu Môn i drosglwyddo PSBA | 60,000 | 36,972 | (23,028) | 62 | 38 | - | Dylai'r gyllideb flynyddol fod yn ddigonnol ar gyfer cynlluniau 2020/21 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 25,000 | 5,036 | (19,964) | 20 | 80 | 19,964 | Mae angen mwy o waith, o ystyried yr angen am belau cymdeithasol - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,000 | - | (105,000) | 0 | 100 | - | |
| Hwb TGCh Isadeiledd | 102,000 | 101,883 | (117) | 100 | 0 | - | |
| Offer Technegol Addysg - TGCh | 985,854 | 985,854 | 0 | 100 | 0 | - | |
| **Cyfanswm** | **1,716,854** | **1,296,881** | **(419,973)** | **76** | **24** | **174,030** | |
| | | | | | | | |
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 825,000 | 689,456 | (135,544) | 84 | 16 | 135,544 | |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | - | 10,000 | 10,000 | 0 | 100 | - | |
| Trawsnewid Treflun Caergybi | 50,000 | 55,481 | 5,481 | 111 | (11) | - | |
| **Cyfanswm** | **875,000** | **754,936** | **(120,064)** | **86** | **14** | **135,544** | |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| ICF | 773,770 | 488,116 | (285,654) | 63 | 37 | - | |
| Hyb cymunedol Bryn Hwfa | 23,500 | 10,345 | (13,155) | 44 | 56 | 13,155 | Cyllidir gan **grant** |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 85,000 | 47,022 | (37,978) | 55 | 45 | 37,978 | **Prosiect wedi ei ddal yn ôl yn dilyn Covid 19** |
| Adnewyddu Plas Mona | 35,000 | 31,629 | (3,371) | 90 | 10 | 3,371 | Prosiect wedi ei ddal yn ôl yn dilyn Covid 19 - cyllidir gan **fenthyca â chefnogaeth** |
| **Cyfanswm** | **917,270** | **577,112** | **(340,158)** | **63** | **37** | **54,504** | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **43,906,822** | **30,014,651** | **- 13,892,171** | **68** | **32** | **12,109,186** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **15 MEHEFIN 2020** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB CRT – ALLDRO 2019/20** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **AMHERTHNASOL** |

## A - Argymhellion a Rhesymau

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r isod:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol 2019/20.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2019, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20 a oedd yn dangos gwarged a gynlluniwyd o £7.8m.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 oedd £14.1m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2018/19.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn arwain at ddiffyg cyllidebol o £2.1m, sef diffyg a gynlluiwyd ac a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi ei glustnodi i'w defnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian yn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth, 2020.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2019/20 yn dangos tanwariant o £1k. Mae'r alldro o ran incwm yn £246k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol ac mae'r gwariant £263k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant Cyfalaf £2,305k yn is na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad B .

**(iii)** Mae'r diffyg (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £2,316k yn llai na'r gyllideb (gan gynhyrchu gwarged o £209k).

## 5. Incwm

**(i)** Roedd yr incwm ar ddiwedd y flwyddyn £264k yn well na'r gyllideb fel y nodir isod.

**(ii)** Yr alldro ar gyfer incwm rhent oedd £18,026k, sef £56k yn uwch na'r gyllideb. Yn anffodus, roedd y rhagolwg ar ddiwedd Ch3 yn anghywir, gan na chyfrifwyd yn gywir am yr wythnos am ddim yn y flwyddyn 53 wythnos hon. Er bod eiddo newydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl yn dod i mewn, mae'r gostyngiad yn nifer yr eiddo gwag a'r polisi o ailosod eiddo sydd wedi dod yn wag ar y rhent targed wedi gwneud iawn am hyn.

**(iii)** Roedd incwm o daliadau gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, £82k yn uwch na'r gyllideb o'i gymharu â'r rhagolwg o £75k ar ddiwedd Ch3.

**(iv)** Roedd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn £118k, sef £156k yn well na'r gyllideb. Gosodwyd y gyllideb ar y sail y byddai mwy o bobl wedi trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol nag sydd wedi digwydd ac, er bod y ddyled wedi cynyddu, nid yw cynddrwg â'r hyn a ragwelwyd pan luniwyd y gyllideb. Digwyddodd y cyfyngiadau symud yn sgil Covid 19 yn rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol i gael unrhyw effaith sylweddol.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £406k yn uwch na'r gyllideb. O'r cyfanswm hwn, roedd tua £269k yn ymwneud â gwariant ar brosiectau mawr nad oedd yn gymwys i gael ei gyfalafu - £71k ar gyfer offer i staff yr Uned Cynnal a Chadw Tai, £81k ar gyfer ymgynghoriaeth TGCh yn ymwneud â'r prosiect gweithio symudol a £117k yn ymwneud ag eitemau fel profion Tystysgrifau Perfformiad Ynni a chael gwared ar asbestos, sef gwariant na ellir ei gyfalafu. O'r gweddill, y prif amrywiadau oedd biliau cyfleustodau a gafwyd (£47k) yn sgil oedi cyn comisiynu eiddo newydd, a hynny oherwydd bod y CRT yn gyfrifol am dalu biliau o'r fath nes bod y tai'n cael eu gosod, ynghyd â £24k am gostau postio a £28k am waith ychwanegol gan y tîm Cyfranogiad Tenantiaid.

## 7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**(i)** Bu tanwariant o £17k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai, o'i gymharu â'r rhagolwg ar ddiwedd Ch3 o £40k, sy'n adlewyrchu'r galw am y gwasanaeth. Dyma flwyddyn lawn gyntaf allanoli gwasanaeth storfa'r Uned Cynnal a Chadw Tai ac roedd disgwyl arbedion. Fe gafodd yr arbedion hynny eu cynnwys yn y gyllideb ac, felly, mae'r tanwariant yn ychwanegol at hynny.

**(ii)** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r Uned Cynnal a Chadw Tai £9k yn uwch na'r gyllideb.

**(iii)** Roedd gorwariant o £83k ar gostau Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall o'i gymharu â'r gyllideb, oherwydd y gwaith ychwanegol a wnaed mewn perthynas â diogelwch tân, systemau mynediad ac ar waith trin carthffosiaeth. Roedd yr alldro ychydig yn uwch na'r gorwariant o £50k a ragwelwyd ar ddiwedd Ch3.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn.

**(ii)** Tanwariant o £220k yw'r alldro. Roedd taliadau cyfalaf, sy'n cynnwys llog sy'n daladwy ar fenthyciadau, £384k yn is na'r gyllideb. Roedd y tâl a ailgodwyd gan y Gwasanaethau Tai £2k yn is na'r gyllideb. Roedd y tâl a ailgodwyd a godwyd gan y Gwasanaethau Canolog £166k yn uwch na'r gyllideb, yn deillio o adolygiad o gostau adeiladau'r Cyngor a ailgodwyd yn ôl i'r CRT. Mae pob tâl a ailgodir ar y CRT yn cael ei adolygu'n flynyddol.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2019, yn werth cyfanswm o £14,017k a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (£2,660k), grantiau cyfalaf eraill (£1,532k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£9,825k). Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2018/19. Gwnaed mân newid i'r gyllideb, sef cynnydd o £100k yng nghost gwaith adfer, fydd yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT. Mae'r alldro o £11,812k yn £2,305k yn is na'r gyllideb, o'i gymharu â'r ffigwr o £3,117k yn is na'r gyllideb a ragwelwyd ar ddiwedd Ch3.

**(ii)** Y newid sylweddol o'r chwarter diwethaf yw bod y prosiectau ar gyfer datblygu tai Cyngor newydd wedi symud ymlaen yn well na'r disgwyl, gan arwain at wariant £772k yn is na'r gyllideb yn hytrach na'r diffyg a ragwelwyd o £1,871k. Yn ôl y disgwyl, roedd y contractau cynnal a chadw, a osodwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, £1,600k yn is na'r gyllideb ar gyfer eleni, gyda'r gwaith wedi'i ohirio i 2020/21. Roedd gorwariant ar y gwaith dan raglen SATC oherwydd gwneud gwaith a ohiriwyd gynt ar gais y tenantiaid. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn gyffredinol wrth i eiddo ddod yn wag ac, felly, mae'n anodd ei ragweld.

**(iii)** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod y swm a gyllidir o'r cyfrif refeniw y CRT yn lleihau yn yr un modd. Yna, mae'r balans ar gael i gyllido'r prosiectau sydd wedi'u gohirio i'r flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,387k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £2,107k o'r balans hwn. Fodd bynnag, yr alldro yw gwarged o £210k, gan adael balans terfynol o £8,597k yn y CRT. Mae'r balans hwn wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio i gyllido gwariant CRT yn y dyfodol yn unig.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>**(mandadol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>**(mandadol)** | Ymgynghorir â’r swyddog fel rhan o’r UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Ch3.
Atodiad B - gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Ch3.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb CRT 2019/20 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym Mawrth 2019).
- Cynllun Busnes 30 Blynedd y CRT – 2019-49 (fel y cymeradwywyd gan y pwyllgor hwn ym Mawrth 2019).

**ATODIAD A**

## ALLDRO Y CYFRIF REFENIW TAI AM 2019/20

| | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Alldro | Amrywiad | Alldro a ragwelwyd yn Ch3 | Newid o ragolwg Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | | |
| **CYLLIDEB REFENIW** | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Anheddau | (17,970,000) | (18,025,653) | (55,653) | (17,749,000) | (276,653) |
| Garejis | (219,000) | (219,052) | (52) | (219,000) | (52) |
| Taliadau Gwasanaeth | (133,000) | (214,731) | (81,731) | (208,000) | (6,731) |
| Arall | (221,000) | (191,815) | 29,185 | (221,000) | 29,185 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 274,000 | 118,346 | (155,654) | 274,000 | (155,654) |
| **CYFANSWM INCWM** | **(18,269,000)** | **(18,532,905)** | **(263,905)** | **(18,123,000)** | **(409,905)** |
| **Gwariant heblaw ar waith trwsio a chynnal a chadw** | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 117,930 | 145,529 | 27,599 | 132,930 | 12,599 |
| Gweinyddu Rhenti | 381,940 | 413,048 | 31,108 | 381,940 | 31,108 |
| Rheoli Stadau | 229,890 | 208,716 | (21,174) | 229,890 | (21,174) |
| Gwariant Refeniw Arall | 693,090 | 1,061,353 | 368,263 | 743,090 | 318,263 |
| **CYFANSWM** | **1,422,850** | **1,828,646** | **405,796** | **1,487,850** | **340,796** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai | 3,252,750 | 3,236,025 | (16,725) | 3,212,750 | 23,275 |
| Staff Cynnal Adeiladau (dim UCCT) | 834,220 | 843,568 | 9,348 | 834,220 | 9,348 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 461,110 | 544,917 | 83,807 | 511,110 | 33,807 |
| **CYFANSWM** | **4,548,080** | **4,624,510** | **76,430** | **4,558,080** | **66,430** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,015,080 | 2,631,318 | (383,762) | 3,015,080 | (383,762) |
| Ailgodi tâl o’r Gwasanaethau Tai | 771,630 | 769,535 | (2,095) | 771,630 | (2,095) |
| Ailgodi tâl o’r Gwasanaethau Canolog | 693,360 | 859,567 | 166,207 | 693,360 | 166,207 |
| **CYFANSWM** | **4,480,070** | **4,260,420** | **(219,650)** | **4,480,070** | **(219,650)** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,451,000** | **10,713,576** | **262,576** | **10,526,000** | **187,576** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(7,818,000)** | **(7,819,329)** | **(1,329)** | **(7,597,000)** | **(222,329)** |
| | | | | | |

| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant 2019/20 | 14,117,000 | 11,812,025 | (2,304,975) | 11,000,000 | 812,025 |
| | | | | | |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | (2,660,000) | (2,660,000) | 0 | (2,660,000) | 0 |
| **Grantiau eraill** | (1,532,000) | (1,542,564) | (10,564) | (1,532,000) | (10,564) |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **9,925,000** | **7,609,461** | **(2,315,539)** | **6,808,000** | **801,461** |
| | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **2,107,000** | **(209,868)** | **(2,316,868)** | **(789,000)** | **579,132** |
| | | | | | |
| **Balans agoriadol y CRT** | (8,387,000) | (8,387,000) | | (8,387,000) | 0 |
| | | | | | |
| **(Cynnydd / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 2,107,000 | (209,868) | (2,316,868) | (789,000) | 579,132 |
| | | | | | |
| **Balans cau'r CRT** | **(6,280,000)** | **(8,596,868)** | **(2,316,868)** | **(9,176,000)** | **579,132** |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol<br><br>(£) | Alldro<br><br>(£) | Amrywiad<br><br>(£) | Alldro a ragwelwyd yn Ch3<br>(£) | Newid o ragolwg Ch3<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 353,698 | (46,302) | 400,000 | (46,302) |
| Contractau Gwaith Cynnal a Chadw Cynllunedig | 4,850,000 | 3,879,990 | (970,010) | 3,250,000 | 629,990 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 9,433 | (390,567) | 150,000 | (140,567) |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 140,386 | (309,614) | 250,000 | (109,614) |
| Caffael Eiddo Cyfredol / Datblygu Eiddo Newydd | 6,371,000 | 5,598,765 | (772,235) | 4,500,000 | 1,098,765 |
| Ailfodelu Stoc Gyfredol | 16,000 | 65,047 | 49,047 | 70,000 | (4,953) |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 421,145 | 71,145 | 350,000 | 71,145 |
| Risg Tân | 200,000 | 22,399 | (177,601) | 200,000 | (177,601) |
| Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) | 750,000 | 974,504 | 224,504 | 1,200,000 | (225,496) |
| Gwaith Adfer | 330,000 | 346,658 | 16,658 | 330,000 | 16,658 |
| Offer i staff yr Uned Cynnal a Chadw Tai | 0 | 0 | 0 | 100,000 | (100,000) |
| Modiwl Gweithio Symudol | 0 | 0 | 0 | 200,000 | (200,000) |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **14,117,000** | **11,812,025** | **(2,304,975)** | **11,000,000** | **812,025** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Mehefin 2020** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2020-2050** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael**<br>**01248 752289** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

Yn unol a'r gofyn sydd arnom gan Lywodraeth Cymru mae angen i gyflwyno Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) iddynt erbyn y 31 o Fawrth er mwyn diogelu ein lwfans atgyweirio sylweddol o £2.665m y flwyddyn.

Anfonwyd y Cynllun Busnes iddynt erbyn y dyddiad gan ddatgan ei fod yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Byddwn felly yn argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Cynllun Busnes 2020-2050 ar gyfer y CRT, ac yn arbennig cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2020-2021 fel y nodir wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru;

**A2.** Y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2020-2021 fel y nodir yn y Gyllideb Cyfalaf.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae'r Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn wedi cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid. Cynllun Busnes yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn nodi:-

sut bydd y Cyngor yn dod â'r cyfan o'i stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru – mae rhai eiddo'n parhau i gael eu categoreiddio fel 'methiannau derbyniol';
- y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal safonau SATC a rhagori arnynt a
- y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynyddu'r stoc tai Cyngor.

**1.2** Mae'r Cyngor, drwy'r CRT, yn berchen ar, ac yn rheoli 3,857 o eiddo ac ychydig dros 700 o garejys, ar hyd a lled yr Ynys. Dros gyfnod y Cynllun Busnes hwn fe fyddwn yn gweld y nifer stoc yn cynyddu i dros 5000 o unedau.

**1.3** Mae'r Cynllun Busnes CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu yn bennaf at y themâu sy'n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi.

**1.4** Fel rhan o'r Cytundeb Gwirfoddol a lofnododd Awdurdodau Lleol gyda Llywodraeth Cymru, trafodwyd a chytunwyd ar hyblygrwydd i fenthyca sydd yn caniatáu ar gyfer adeiladu tai Cyngor o'r newydd a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru.

**1.5** Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi'n benodol ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r stoc dai Cyngor. Mae hyn yn golygu na chaiff y Cyngor roi cymhorthdal i dai Cyngor o'r gronfa gyffredinol.

## 2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

2.1 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â SATC ers 2012, yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon ar y pryd.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

· Mewn cyflwr da.
· Yn ddiogel.
· Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
· Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
· Wedi eu rheoli'n dda.
· Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
· Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

## 3.0 Rhaglen Gyfalaf 2020-2021

3.1 Mae Rhaglen Gyfalaf o £10.84m wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Busnes, mae hyn yn cynnwys £9.8m ar gyfer gwaith mewnol / allanol, gwaith risg tân, asbestos, addasiadau i'r anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â SATC yn llawn drwy dargedu methiannau derbyniol, gwaith amgylcheddol ac ati.

3.2 Mae darpariaeth o £4.7m wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

3.3 Yn ogystal mae £9.6m yng nghyllideb 2020-2021 ar gyfer rhaglen ddatblygu tai cyngor newydd

ac i brynu cyn tai cyngor ar yr Ynys. Mae’r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd 45 o unedau’n cael eu datblygu yn 2020-2021 a trwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes.

**4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau**

4.1 Rhaid cefnogi’r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT gyda model ariannol 30 blynedd ac Ymhelaethir ar y model ym mhennod 7 o’r Cynllun Busnes.

Cyflwynir dadansoddiad sensitifrwydd gyda’r Cynllun Busnes ac mae’n dangos pa mor gadarn yw’r cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau a pharamedrau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn darogan pa adnoddau fydd ar gael a pha adnoddau sydd ei angen i barhau i gwrdd â SATC ac i adeiladau tai cyngor newydd, gan anelu at roi sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd tymor hir y Cyfrif Refeniw Tai.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Polisi Rhent Tai Cymdeithasol yn Ebrill 2015 ar gyfer awdurdodau lleol a bydd yn weithredol am gyfnod o 5 mlynedd. Mae’r polisi’n anelu at sicrhau cydgyfeiriant rhent rhwng y Cyngor a Chymdeithasau Tai dros gyfnod o amser. Rhagdybir y byddwn fel Cyngor yn cyrraedd lefelau rhent cydgyfeiriant gyda’r Cymdeithasau Tai erbyn 2022-2023.

4.2 Mae incwm rhenti a’r polisi ar gyfer gosod rhenti lleol yn ffactor sylweddol o ran hyfywedd y Cynllun Busnes yn y dyfodol. Mae polisi rhent tai cymdeithasol Cymru wedi ei ddatganoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynyddu’n flynyddol yn seiliedig ar CPI cyhoeddwyd ar gyfer Medi pob blwyddyn ynghyd a 1% a hyd at £2 yr wythnos tuag at gyrraedd cydgyfeiriant rhent.

4.3 Risg i hyfywedd y Cynllun Busnes yw ymestyn Credyd Cynhwysol sydd wedi bod yn weithredol yn Ynys Môn ers mis Rhagfyr 2018. Yn y Cynllun Busnes, nodir y camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd gyda sefydliadau partner i gefnogi Tenantiaid er mwyn lliniaru’r effaith o ran yr incwm a gasglir.

4.4 Rhoddwyd prawf ar gadernid y cynllun busnes i roi ystyriaeth y risgiau yn unigol a gyda’i gilydd a bod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw dros y cyfnod o 30 blynedd.

4.5 Yn dilyn ymadael o’r system CRT, mae’r Cyngor bellach yn cadw’r holl incwm a gaiff o renti yn y CRT ac yn ei ddefnyddio i gwrdd â gwariant, dyledion gwasanaeth ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau a thai ychwanegol.

4.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion am y cynnydd lefelau rhent am 2020-2021, a osodwyd ar y mynegai prisiau defnyddwyr o 1.7% fel oedd y gwerth ym mis Medi a 1% ychwanegol. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnydd rhent ar gyfer 2020/21 yn ystod ei gyfarfod ar 17 Chwefror. Mae’r cynnydd hwn wedi’I gynnwys gyda’r incwm rhent a gyllidebwyd a rei

| |
|---|
| gyfer ar gyfer 2020-21. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| D/B |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| YDI |

| **DD – Who did you consult?** | | **What did they say?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo gan yr UDA. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r Swyddog Adran 151 wedi ei fodlonni bod y rhagdybiaethau yn y cynllun busnes yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda chanllawiau LlC a bod y cynllun busnes yn hyfyw ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol gyfredol sy'n wynebu'r CRT. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Mae’r holl aelwydydd sy’n byw mewn Tai Cyngor yn cael budd o SATC, y rhaglen gyfalaf a chymorth i baratoi ar gyfer newidiadau diwygio lles. |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Drafft Cynllun Busnes CRT 2020 -2050 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Adroddiad ar yr Arolwg o Gyflwr y Stoc, 2017 |



# CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI

2020 - 2050

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | Cynnwys | Rhif Tud |
|---|---|---|
| 1. | **Cyflwyniad** | **4** |
| | **Gweledigaeth y Gwasanaeth** | **5** |
| | **Amcanion Strategol** | **5** |
| | **Amcanion y Cynllun Busnes** | **6** |
| | **Anghenion Tai** | **6** |
| 2. | **Ein Tenantiaid** | **7** |
| | **Stoc a Phroffil ein Tenantiaid** | **7** |
| | **Canlyniad Arolwg STAR 2019** | **9** |
| | **Tai Môn** | **9** |
| | **Cyfranogiad Tenantiaid** | **10** |
| 3. | **Ein Gwasanaethau** | **13** |
| | **Gwybodaeth a Chyngor Lles** | **13** |
| | **Effeithlonrwydd Ynni and Thlodi Tanwydd** | **14** |
| | **Taclo Tlodi** | **15** |
| | **Tîm Rheolaeth Tai** | **16** |
| | **Cofrestr Tai** | **18** |
| | **Gwneud y defnydd gorau o'n stoc** | **18** |
| 4. | **Ein Cartrefi** | **19** |
| | **Buddsoddi yn ein stoc bresennol** | **19** |
| | **Gwaith Cyfalaf a Gynlluniwyd** | **20** |
| | **Buddion Cymunedol** | **24** |
| | **Datgarboneiddio** | **24** |
| | **Cydymffurfio â SATC a buddsoddi yn ein stoc** | **25** |
| | **Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf** | **26** |
| | **Gwaith Amgylcheddol** | **29** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Gwasanaeth Uned Cynnal a Chadw** | **29** |
| | **Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor** | **30** |
| | **Datblygiadau Cymdeithasau Tai** | **33** |
| **5.** | **Ein Staff** | **34** |
| | **Prentisiaeth** | **34** |
| | **Denu Talent** | **34** |
| | **Gwobrau Staff** | **35** |
| | **Yr Iaith Gymraeg** | **38** |
| **6.** | **Cynllun Cyllido'r CRT** | **39** |
| | **Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol** | **39** |
| | **Cyllideb Cyfalaf a Refeniw** | **40** |
| **7.** | **Dangosyddion Perfformiad** | **42** |

## 1. Cyflwyniad

Nod y Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, a elwir yn CRT drwy'r ddogfen hon, yw cynllunio ymlaen i sicrhau bod yna gynllun ariannol ymarferol ar gyfer ein stoc tai Cyngor.

Mae'r CRT yn ariannu'r holl waith y mae'r Cyngor yn ei wneud fel landlord y stoc dai. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, gwaith cyfalaf a gwelliannau amgylcheddol, uchafu incwm rhent, rheoli stadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sicrhau bod tenantiaid yn cael cymaint o gyfleoedd â phosib i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau, ynghyd ag ychwanegu at ein stoc dai er mwyn cyfrannu tuag at gwrdd â'r angen am dai cymdeithasol ar yr Ynys.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i

- gynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) a mynd i'r afael â 'methiannau derbyniol',
- mynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella perfformiad a chanlyniadau, gan sicrhau gwelliannau pellach yn y gwasanaeth ar gyfer ein tenantiaid,
- darparu gwasanaethau ar gyfer ein tenantiaid sy'n cynnig gwerth am arian, a hynny mewn cyfnod o ostyngiadau cynyddol mewn gwariant cyhoeddus,
- cynyddu atebolrwydd trwy ymgysylltu mwy gyda staff, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid allweddol,
- sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer lliniaru yn erbyn effaith posib Diwygio Lles ar ein cymunedau, gan roi adnoddau iddynt allu helpu eu hunain yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth a
- cyflawni ein rhaglen ddatblygu ar gyfer adeiladu tai Cyngor newydd

Trwy ddarllen y Cynllun cewch sicrwydd bod y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

### 1.2 Gweledigaeth y Gwasanaeth

Ein Gweledigaeth yw:

***Cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy***

ac mae'n seiliedig ar ein gwerthoedd fel gwasanaeth sy'n rhan annatod o'n gwaith ac sy'n gyrru'r ddarpariaeth gwasanaeth, fel ein bod yn:

- ♣ canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn atebol
- ♣ cynnig gwerth am arian
- ♣ ymrwymo i weithio mewn partneriaeth
- ♣ arloesol yn ein dull o weithio

**Ein Blaenoriaethau fydd:**

- Adfywio stadau;
- Adeiladu o'r newydd, gan gynyddu'r ddarpariaeth a'r mathau o ddeiliadaeth o dai fforddiadwy;
- Llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Mynd i'r afael â'r rhaglen effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd.

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i'n cyllidwyr, tenantiaid ac Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y cynllun hwn ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. E-bost Tai@ynysmon.gov.uk

### 1.3 Amcanion strategol

Mae tai yn chware rôl bwysig iawn yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at nifer o'r amcanion.

- Wrth adeiladu tai newydd a gwella ein stoc bresennol byddwn yn creu effaith yn lleol a chynnig buddion cymunedol.

- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan er mwyn gwella gwasanaethau a rhoi sgiliau a hyder i bobl allu cymryd rhan yn eu cymunedau drwy sefydlu grwpiau cyfranogiad tenantiaid.

### Y Cyd-destun Strategol a'r Cysylltiad â Chynlluniau eraill

Mae datblygu ein gwasanaethau fel landlord, ynghyd â chynyddu ein stoc tai yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol i'r Cyngor, a gellir gweld hynny yn nodweddion y dogfennau strategol allweddol.

Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, gellir gweld tystiolaeth o hyn yn Strategaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli Asedau, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, a Chynlluniau Gwasanaethau unigol.

### Cysylltiadau â Strategaeth Dai Lleol

Mae'r Strategaeth hon yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer pob math o ddeiliadaethau tai ar yr ynys i gwrdd ag anghenion tai a nodwyd ac i sicrhau safonau tai uchel ar gyfer pob dinesydd. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn un ffordd bwysig o gyflawni'r amcanion cyffredinol hyn a bydd cysylltiadau agos rhwng y ddwy ddogfen.

## 1.4 Amcanion y Cynllun Busnes

Fel landlord, rydym yn dymuno i'n tenantiaid fyw mewn llety o ansawdd dda, sy'n fforddiadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sydd mewn cymunedau diogel a chynaliadwy.

Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'n nod o ostwng tlodi ac anghydraddoldeb yn ein cymunedau. Mae gan Wasanaethau Tai hefyd ran bwysig i'w chwarae mewn perthynas â'r economi; mae codi tai newydd a thrwsio'r stoc gyfredol yn creu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Mae'n her barhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a hynny mewn ffordd sy'n costio llai ond sy'n parhau i gwrdd â disgwyliadau o ran perfformiad ac yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol cynyddol.

Effaith bosib ar refeniw'r Cynllun Busnes yw Diwygiad Rhent gan Lywodraeth Cymru a'r cyfnod trosiannol i gyflwyno lefelau targed rhent.

### Rhenti a dyledion

Ar hyn o bryd mae bron bob cartref yn is na'r lefel targed rhent. Ar gyfer 2020-21 bydd rhenti yn cael eu gosod ar y Mynegai Pris Defnyddiwr ar 30 Medi, 2019, sef 1.7% gan ychwanegu 1%.  Mae lefel rhenti yn sylweddol is na'r lefel targed rhent ac felly bydd cynnydd o hyd at £2 yr wythnos. Bydd y Polisi hwn yn sicrhau incwm rhent blynyddol o tua £18.6 miliwn.

Mae effaith cyflwyno Diwygio Lles eto i'w weld yn llawn ar yr Ynys wrth i'r newidiadau gymryd lle. Ar hyn o bryd mae lefel ein dyledion wedi cynyddu a bydd darpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn cynyddu i £279k (1.5%).

## 1.5 Angen am dai

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am yr anghenion tai yn ei ardal. Diweddarwyd Asesiad 2013 yn 2015 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016.  Mae diweddariad 2015 yn nodi bod angen 398 o anheddau fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn ar Ynys Môn am y 5 mlynedd nesaf (gan gynnwys tai cymdeithasol a thai canolraddol megis rhanberchnogaeth a llety rhent canolraddol).

## 2. Ein Tenantiaid


### 2.1 Ein stoc a phroffil ein tenantiaid

| **Proffil Ein Stoc Tai** | **Nifer Eiddo** |
|---|---|
| Adeiladau traddodiadol cyn 1945 | 319 |
| Adeiladau traddodiadol 1945 - 1964 | 1220 |
| Adeiladau traddodiadol ar ôl 1965 | 1327 |
| Holl Adeiladau system (heb eu hadeiladu mewn dull traddodiadol) | 176 |
| Tai newydd neu eiddo a brynwyd ers Ebrill 2015 | 57 |
| *Cyfanswm Tai a Byngalos* | 3099 |
| Fflatiau uchder isel cyn 1945 (1-2 lawr) | 15 |
| Fflatiau uchder isel ar ôl 1945 a phob fflat uchder canolig | 624 |
| Fflatiau uchel (6+ llawr) | 91 |
| Tai newydd neu eiddo a brynwyd ers Ebrill 2015 | 28 |
| *Cyfanswm Fflatiau a Fflatiau Deulawr* | 758 |
| ***Cyfanswm Tai a Fflatiau*** | 3857 |

Cafodd 40% o'n stoc ei adeiladu rhwng 1945 -1964.


| Math o eiddo | Nifer eiddo | % o'r Stoc |
|---|---|---|
| Tai | 2045 | 53% |
| Byngalos | 712 | 18% |
| Fflatiau | 610 | 16% |
| Llety Gwarchod | 490 | 13% |
| **Cyfanswm** | **3857** | **100%** |

## Proffil ein tenantiaid



### 2.2 Canlyniadau Arolwg STAR

Yn ystod 2019 cynhaliwyd Arolwg STAR a derbyniwyd 19.6% o ymatebion.




### 2.3 Tai Môn

Yn ystod y 12 mis diwethaf, buom yn datblygu ein Porth Tenantiaid digidol newydd, ac rydym yn bwriadu ei lansio ym mis Gorffennaf 2020, yn dilyn cyfnod o brofi'r system gyda thenantiaid.

Bydd modd i denantiaid wneud y canlynol drwy'r porth hunanwasanaeth:

- Diagnosio a rhoi gwybod am waith atgyweirio
- Gwneud cais am ein Gwasanaeth Tasgmon
- Rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â'r gymdogaeth
- Gwirio balans rhent
- Gwneud taliad rhent ar-lein
- Gweld ac argraffu datganiad rhent
- Diweddaru gwybodaeth bersonol
- Anfon a derbyn negeseuon

Ein nod yw y bydd 70% o'n tenantiaid yn rhyngweithio ac yn rheoli eu tenantiaeth drwy eu porth digidol o fewn dwy flynedd iddo gael ei lansio.

## 2.4 Cyfranogiad Tenantiaid

Rydym yn annog cymaint o ymwneud â phosib â thenantiaid ac mae gennym ddau swyddog cyfranogiad tenantiaid a drefnodd y canlynol:

### Monitro ein gwasanaethau

- Cyfarfodydd tenantiaid cyson (Grŵp Monitro, Fforwm Atgyweirio, Grŵp Cyhoeddiadau, Grŵp Digidol, Panel Amgylcheddol)
- Sefydlwyd grwpiau 'Llais y Tenant' mewn cymunedau i ni dderbyn adborth gan gwsmeriaid.
- Cwblhawyd yr Arolwg STAR ac roedd yn dangos cynnydd cyffredinol yn lefel boddhad tenantiaid.
- Llwyddwyd i recriwtio 7 o denantiaid newydd i gyfranogi a chymryd rhan mewn cyfarfodydd / gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. Rydym wedi cynnal mwy o ymweliadau safle hefyd yn hytrach na chyfarfodydd yn y swyddfa gan fod hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i denantiaid o'r pwnc dan sylw.

### Darparu Gwybodaeth

- Rydym yn dosbarthu Cylchlythyron Tenantiaid ddwywaith y flwyddyn (Haf a Gaeaf) sy'n llawn gwybodaeth bwysig a thudalennau hwyliog. Rydym yn cyhoeddi'r cylchlythyr ochr yn ochr â'r Grŵp Cyhoeddiadau y mae 8 o denantiaid yn aelodau ohono.
- Rydym wedi creu ein logo 'Cymeradwywyd gan Denantiaid' ein hunain i'w roi ar bob dogfen sy'n cael ei chreu a'i hadolygu gan y Grŵp Cyhoeddiadau.
- Bu cynnydd yn lefel presenoldeb Tenantiaid Tai Gwarchod sy'n mynychu'r Fforwm Tai Gwarchod ddwywaith y flwyddyn. Yn y fforwm hwn mae'r gwasanaeth Tai yn cael cyfle i ymgysylltu gyda'n tenantiaid a rhannu gwybodaeth berthnasol a phwysig â nhw.
- Mae Cynhwysiant Digidol yn holl bwysig yn yr oes hon felly rydym wedi trefnu sesiynau 'Paned, Cacen a Thechnoleg' yn ein cymunedau i wella sgiliau digidol ein tenantiaid. Mae hyn wedi gwella cyfathrebu yn arbennig ar gyfer tenantiaid sy'n byw ar stadau gwledig. Mae'n paratoi ein tenantiaid hefyd ar gyfer gweithredu'r Porth Tenantiaid digidol.
- Prif ffrydio Cyfranogiad Tenantiaid yn fewnol bob chwarter gyda bwletin staff. Mae hyn yn addysgu aelodau eraill y gwasanaeth tai ynghylch sut y gall Cyfranogiad Tenantiaid helpu a chefnogi cymunedau yn y gobaith y byddant yn eu cyfeirio atom ac y bydd y tenantiaid yn gallu cysylltu â ni yn uniongyrchol.

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid am unrhyw ddeddfwriaeth a pholisïau newydd gan y llywodraeth. Megis: Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Cludiant Cymru (pàs bws), Deddf Tai Cymru (2016), Polisi Gosod.

### Gwella ein Cynlluniau Gwarchod Cymunedol

- Mae ein lolfeydd cymunedol yn cael eu trawsnewid yn hybiau cymunedol (2 ar hyn o bryd).
- Newidiwyd y gronfa wella Amgylcheddol a Chymunedol i ganiatáu defnyddio arian grant i wella tu mewn y lolfeydd cymunedol. Mae hyn wedi annog mwy o bobl yn y gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac wedi gwella iechyd a lles.
- Mae gwaith partneriaeth amlasiantaethol wedi gwella wrth i ni gael cyfleusterau mwy addas i'w defnyddio yn ein hasedau ein hunain gyda chysylltiad wi-fi. Ers i ni weithio'n agosach ag asiantaethau eraill rydym wedi sefydlu'r grwpiau canlynol: Grwpiau Mam a'i Phlentyn, Grwpiau Ymwelwyr Iechyd, Mens Sheds, Hybiau Dementia, Sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar, Gwasanaethau Allgymorth Budd-daliadau, Grwpiau Ieuenctid, Grwpiau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

### Codi ymwybyddiaeth o'n Gwasanaethau

- Rydym yn awr yn gweithio gyda darpar denantiaid posib drwy ymweld ag ysgolion lleol gyda'n Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau eu hunain a beth yw'r effeithiau. Cynhaliwyd sesiynau ariannol gyda'r Tîm Rhent hefyd, gan gynnwys: sut i gyllidebu, costau byw a blaenoriaethu biliau.
- Diwrnodau Glanhau Cymunedol - Cafodd 70 o sgipiau eu llenwi ar 6 o stadau mawr yn ystod 2019. Roedd tenantiaid sy'n cyfranogi yn mynychu'r digwyddiadau hyn hefyd. Mae'r digwyddiadau hyn yn brysurach bob blwyddyn.
- Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol am waith newydd a dogfennau gwybodaeth newydd gan wneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn berthnasol, yn gyfredol ac yn gywir.

## Gwobrau TPAS, 2019

Roedden yn falch o ennill y categori Cyfranogiad mewn Tai â Chymorth yng Ngwobrau Cyfranogiad 2019. Roedd hyn yn cydnabod y gwaith a wnaed gyda'r bobl ifanc a fu'n ddigartref.

Nod y grŵp oedd gwella gwasanaethau digartrefedd o fewn y Cyngor drwy wrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cael cysylltiad â'r gwasanaeth ac wedi profi'r 'da a'r drwg'. Drwy wneud newidiadau i'r gwasanaeth a chreu dogfennau gwybodaeth newydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddigidol rydym yn gobeithio y bydd hyn yn targedu mwy o'r genhedlaeth iau sydd angen cefnogaeth.

Mae llun o'r grŵp i'w weld isod.



## 3. Ein Gwasanaethau

### 3.1 Tîm Hawliau Lles a Thîm Cynhwysiant Ariannol

Mae’r Tîm Hawliau Lles yn darparu gwasanaeth Cynghori am ddim, cyfrinachol a chynhwysfawr ynghylch Hawliau Lles i holl drigolion Ynys Môn. Mae’r Tîm yn rhan annatod o’r Adrannau Tai ac wedi’i leoli yng Nghaergybi (ardal sydd ag un o’r stoc tai mwyaf) yng Nghanolfan J.E. O’Toole, ond mae’n cynnig gwasanaeth ledled yr Ynys drwy gyfrwng clinigau wythnosol a gynhelir mewn nifer o leoliadau ar draws yr Ynys. Mae’r Ganolfan yn adnabyddus fel lleoliad ar gyfer gwasanaethau allgymorth nifer o asiantaethau allanol eraill.




### Y cymorth a roddwyd i’r cyhoedd

- Cwblhau gwiriad llawn o fudd-daliadau i benderfynu ar yr hawl i dderbyn yr holl fudd-daliadau gwladol, credydau treth, hawlio gostyngiadau a grantiau a rhoi cymorth llawn i hawlio.
- Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth di-waith gyda phrosesau dychwelyd i weithio drwy ddarparu cyfrifiadau ‘gwell eu byd’ a chynghori ynghylch pa fudd-daliadau y gallant eu hawlio pan fyddant yn gweithio a sut i reoli’r newidiadau er mwyn osgoi derbyn taliadau budd-dal rhy uchel/isel.
- Gwasanaeth ymweld â’r cartref ar gyfer pobl oedrannus, sâl neu anabl a phreswylwyr bregus nad ydynt yn gallu teithio i’r swyddfa neu adael eu cartrefi.
- Gwasanaeth cynrychioli llawn mewn Tribiwnlys Apêl. Bydd ymgynghorwyr yn herio dyfarniadau budd-dal a phenderfyniadau anghywir drwy gyflwyno ceisiadau i’r Adran Waith a Phensiynau am Ailystyriaeth Orfodol (cam cyntaf y

broses Apêl), a byddant hefyd yn gweithredu fel Cynrychiolwyr a enwir, paratoi achosion a darparu sylwadau ysgrifenedig drwy fynd i'r llys gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer Gwrandawiadau Apêl.

### 3.2 Effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd

Wardeiniaid Ynni
Energy Wardens

### Gwasanaeth Wardeiniaid Ynni

Mae'r Gwasanaethau Tai yn comisiynu Grŵp Cynefin i ddarparu gwasanaeth Cyngor Ynni "Warden Ynni" am ddim i denantiaid y Cyngor.

**Bydd y wardeiniaid yn gallu:**

- Gwneud ceisiadau "Gostyngiad Cartrefi Cynnes"(GCC) a "Chynllun Cymorth" Dŵr Cymru
- Cefnogi tenantiaid i newid eu darparwr ynni
- Rhoi cyngor ar sut i ddefnyddio eu system ynni yn y ffordd fwyaf effeithlon, a sut i arbed ynni yn y cartref.

Rhwng Hydref 1af 2019 a Rhagfyr 31ain 2019 maent wedi cyflawni'r canlynol:

Ymgysylltu â thenantiaid

- Mae'r wardeiniaid ynni wedi ymgysylltu â 96 o denantiaid Cyngor Môn ers cychwyn y wedd hon

Ceisiadau Gostyngiadau Cartrefi Cynnes

- Bydd angen llwytho 35 o geisiadau GCC ar ran y tenantiaid pan fydd y ffenestr yn agor ymhen ychydig. Bydd hyn yn rhoi arbedion o £4,900 i'r tenantiaid.

Cefnogaeth Dŵr Cymru

- 3 tenant wedi derbyn cefnogaeth gyda cheisiadau Dŵr Cymru gan roi £820 o arbedion.

Newid darparwr ynni

- Mae 4 tenant wedi derbyn cefnogaeth ac eglurhad 1-1 ynglŷn â'r broses newid darparwr ynni gan roi £1,034 o arbedion.
- Rydym wedi derbyn 14 o ffurflenni cyfeirio'r cynllun gan swyddogion Cyngor Môn ers cychwyn y wedd yma hyd at nawr ac mae'r wardeiniaid ynni wedi cysylltu â phob un ohonynt.
- Roedd y wardeiniaid ynni yn bresennol mewn 7 digwyddiad cefnogi tenantiaid ers cychwyn y wedd.

**Crynodeb o Gefnogaeth Ariannol**

| | Proses newid darparwr ynni | Ceisiadau Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes (WHD) | Dŵr Cymru - 'Refer U' a phrosesau 'Cymorth gyda Biliau'. | Cyngor newid agwedd (eitemau arbed ynni, taflen arbed ynni) wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio awgrym EST. |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o denantiaid | 4 | 35 | 4 | 96 |
| Gwerth ariannol | £1,034. | £4,900 | £820. | £4,800. |

## 3.3 Taclo Tlodi

Mae'r Gwasanaethau Tai wedi buddsoddi'n sylweddol i ddarparu cymorth i breswylwyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (CC). Mae hyn yn cynnwys ehangu ein tîm cynhwysiant ariannol o 1 i 3 a phenodi swyddog hawliau lles ychwanegol (swydd cynorthwyydd).

Mae ofn gwirioneddol ymysg ein poblogaeth ynghylch symud i Gredyd Cynhwysol ac rydym yn credu bod hyn oherwydd y darlun negyddol o'r system a bortreadir yn y cyfryngau.

Roedd gennym gynllun gweithredu mewn lle cyn i'r Gwasanaeth CC Llawn gael ei gyflwyno a defnyddiwyd cryn dipyn o adnoddau i hysbysu ein partneriaid am y newid hwn ac i ddarparu hyfforddiant angenrheidiol i staff mewnol.

Mae cynllun gweithredu ar waith yn dilyn cyflwyno'r CC i sicrhau bod ein preswylwyr, staff a phartneriaid yn barod ar gyfer y broses drosglwyddo dan reolaeth.

- Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth penodol mewn perthynas â CC drwy ein swyddogion Cynhwysiant Ariannol
- Mae ein swyddogion Rheoli Tai (Dyledion) yn darparu canllawiau a chymorth i denantiaid sydd â dyledion
- Mae ein huned Hawliau Lles yn darparu cymorth cynhwysfawr i unigolion/teuluoedd sydd yn trosglwyddo i CC neu sydd wedi trosglwyddo'n barod

### Prosiect Bwyd Nadolig

Gall cyfnod y Nadolig fod yn heriol i rai o'n teuluoedd mwyaf bregus. Dyna pam fod y Gwasanaethau Tai wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau partner i wireddu prosiect Hamperi Nadolig y Banciau Bwyd unwaith eto. Mae nod y prosiect yn un syml; roeddem eisiau sicrhau nad oedd unrhyw un heb fwyd yn ystod y Nadolig a bod gan bob plentyn anrheg i'w agor ar fore Nadolig.

Roedd y partneriaid a gymerodd rhan yn y prosiect hwn yn cynnwys Digartref Cyf, Banciau Bwyd Ynys Môn ac Amlwch, Cyngor Ar Bopeth, a Heddlu Gogledd Cymru.

Yn 2018 darparwyd 110 o hamperi, a derbyniodd 158 o blant anrhegion. Yn 2019, darparwyd 220 o hamperi i deuluoedd ac unigolion ar draws yr ynys, a rhoddwyd anrheg i 225 o blant.

*(isod mae llun disgyblion Ysgol Carreglefn)*




### 3.4 Y Tîm Rheoli Tai

Mae'r Tîm Rheoli Tai yn dîm o Swyddogion Tai sy'n delio gyda phob agwedd o'r Cytundeb Tenantiaeth gan weithio'n agos â thenantiaid y Cyngor i sicrhau y glynir at amodau'r denantiaeth a bod tenantiaethau'n cael eu cynnal yn llwyddiannus.

Mae Swyddogion Rhent a Swyddogion Dyledion Rhent yn gyfrifol am fonitro taliadau rhent ac adennill dyledion rhent tra bod Swyddogion Rheoli Stadau yn gyfrifol am orfodi a monitro rhwymedigaethau tenantiaeth, archwiliadau eiddo, arwyddo tenantiaid newydd a thaclo a delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gan bob Swyddog Tai ardal ddynodedig er mwyn sicrhau perthynas agos a chysondeb i bob un o denantiaid y Cyngor. Mae Swyddog Rheoli Tai'r ardal dan sylw yn delio â chwynion am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol llai difrifol tra bod un o ddau Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn delio ag achosion mwy difrifol a mynych.

Bu cynnydd amlwg yn nifer yr achosion a gofnodwyd gan yr Awdurdod Lleol yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn ogystal â derbyn adroddiadau am ymddygiad annerbyniol gan breswylwyr a chymdogion, mae Swyddogion Tai yn awr yn cymryd camau i nodi achosion newydd drwy gyfrwng nifer o gyfarfodydd amlasiantaethol y mae swyddogion y Gwasanaethau Tai yn cymryd rhan ynddynt gan amlygu effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth ymysg asiantaethau partner.

Mae achosion neu achosion posib sy'n debygol o waethygu a nodir yn gynnar yn cynnig cyfle am ymyrraeth gynnar gadarnhaol ac yn fwy aml na pheidio, mae'n caniatáu i gefnogaeth briodol gael ei ddarparu, cyn i'r achos droi'n argyfwng. Gall nifer o broblemau neu bryderon ddod i'r amlwg drwy sianelau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol neu ymwneud gan yr Heddlu neu, yn gynyddol, o ganlyniad i Drais Domestig, Cam-drin Sylweddau neu Iechyd Meddwl neu drwy ddarparwyr cymorth. Mae asiantaethau'n cydweithio i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu diogelu a'u cynorthwyo a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddelio â'r sawl sy'n gyfrifol am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol cyn gynted â phosib.

Mae cwynion yn cael eu cofnodi a'u hymchwilio yn unol â Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Safonau Gwasanaeth y Cyngor a adolygwyd yn 2019 gan grŵp o Swyddogion Tai a thenantiaid sy'n cyfarfod bob chwarter i fonitro perfformiad y tîm. Mae diweddaru a chefnogi achwynwyr drwy gydol y broses gwynion yn allweddol er mwyn cynnal perthynas dda gyda'r cleient a lleihau peth o'r straen a'r pryder a all fod ganddynt

**Gwaith Partneriaeth**

Mae Swyddogion Tai yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol megis Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân, Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Cham-drin Sylweddau, Gwasanaethau Tenantiaeth a Chymorth Hyblyg i enwi ond ychydig ac maent yn mynychu nifer o gyfarfodydd ac, yn ddiamheuaeth, mae rhannu gwybodaeth yn profi i fod yn holl bwysig o safbwynt caniatau i asiantaethau weithio mewn modd holistaidd i daclo troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cymunedol mor fuan â phosib:-

- MARAC – Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol – Cam-drin Domestig
- MAPPA – Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaethol – rheoli troseddwyr rhyw cofrestredig / troseddwyr treisgar yn y gymuned.
- OCG – Cyfarfod Troseddau Trefnedig – Llinellau Sirol / 'cuckooing' (lle mae gwerthwyr cyffuriau yn symud i mewn i gartrefi pobl fregus)
- VARM – Asesiad Risg Oedolion Bregus
- IOM – Cyfarfod Integredig Rheoli Troseddwyr – unigolion sy'n gadael carchar.
- CAP – Cyfarfod Cynllun Gweithredu Cymunedol
- Ymwelwyr Rheolaidd – pobl sy'n ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai yn aml
- Hyb Cymorth Cynnar – achosion lleol na fyddai'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau ond sydd angen rhyw fath o ymyrraeth.
- POVA – Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.
- Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant.
- Cyfarfodydd ailsefydlu carcharorion (cyfarfodydd mewnol yn canolbwyntio ar anghenion tai).
- Cyfarfodydd ailsefydlu carcharorion traws sirol – rhannu arfer dda.
- Asesiadau Digartrefedd a Chefnogaeth sy'n digwydd mewn carchardai i baratoi troseddwyr cyn iddynt gael eu rhyddhau.

### Mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y Gymuned

Mae codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc a gweithio'n agos â phreswylwyr a chymunedau i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hanfodol. Mae Swyddogion Tai wedi cymryd rhan ac arwain nifer o brosiectau cymunedol yn ystod y 12 mis diwethaf mewn ysgolion lleol ac ar ein Stadau Cyngor gan nodi a thargedu ardaloedd neu fannau problemus lle bu achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno sesiynau i ddisgyblion/myfyrwyr lleol mewn ysgolion uwchradd ynglŷn ag effeithiau a chanlyniadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan gynnwys tynnu sylw at beryglon a phryderon am Linellau Sirol a '*Cuckooing*' (lle mae gwerthwyr cyffuriau yn symud i mewn i gartrefi pobl fregus).

- Prosiectau ieuenctid - gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi bod ynghlwm ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu trefi a'u cymunedau gan roi cyngor am ymddygiad, canlyniadau, cam-drin sylweddau, iechyd a threfnu gweithgareddau ac ymyraethau eraill.
- Prosiectau Pontio'r Cenedlaethau – cael gwared ar y rhwystrau rhwng y cenedlaethau hŷn ac iau.
- Mynychu Prosiectau Haf a digwyddiadau glanhau Cymunedol
- Prosiect Troseddau Casineb – canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o beth yw trosedd casineb a sut i roi gwybod am droseddau o'r fath a chynhyrchu ffilm fer yn canolbwyntio ar yr effeithiau a'r canlyniadau i ddioddefwyr a throseddwyr.
- Gweithio gyda phobl ifanc sydd ar restr aros y Cyngor – trafod a rhoi cyngor ar beth yw cytundeb tenantiaeth a beth yw'r disgwyliadau ohonynt fel Tenant newydd i'r Cyngor.
- Nodi'r rhai sy'n debygol o ddioddef oherwydd Llinellau Sirol a '*cuckooing*' (lle mae gwerthwyr cyffuriau yn symud i mewn i gartrefi pobl fregus) a chynnal ymweliadau ar y cyd â'r heddlu.

## 3.5 Cofrestr Dai

Mae'r Gwasanaethau Tai yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran Landlordiaid Cymdeithasol - Grŵp Cynefin, Clwyd Alyn a Thai Gogledd Cymru. Mae tua 260 o dai Cyngor yn cael eu gosod bob blwyddyn ac roedd 285 o geisiadau ar y gofrestr dai yn Chwefror 2020

Dadansoddiad o ymgeiswyr

| **Math o gais** | **Niferoedd** |
|---|---|
| Rhestr Aros | 174 – 61% |
| Cyfnewid | 36 – 13% |
| Digartref | 75 – 26% |

Ffigyrau gosod tai Cyngor Sir Ynys Môn (Nid yw'r rhain yn cynnwys gosodiadau ein landlordiaid partner) –

| **Blwyddyn** | **18/19** | **19/20** |
|---|---|---|
| **Nifer o dai a osodwyd -** | 261 | 254 |

### 3.6 Gwneud y defnydd gorau o'n stoc - cynllun anogaeth symud i eiddo llai

Yn ystod 2019 sefydlwyd cynllun anogaeth symud o dai 4 llofft i eiddo llai. Mae'r cynllun cymhelliant hwn wedi sicrhau gwasanaeth cyflawn sy'n rhoi cefnogaeth ymarferol a chymhelliant sydd yn lleihau'r baich o symud i eiddo llai.

**Opsiynau Tai**
Yn ddiweddar rydym wedi penodi Therapydd Galwedigaethol Gwasanaethau Tai fydd yn rhan o'r Tîm Opsiynau Tai. Bydd y Swyddog yn sicrhau bod anghenion tenantiaid sydd angen addasiadau yn cael eu cydgordio tra'n sicrhau bod ein tenantiaid yn gallu byw mor annibynnol â phosib yn eu cartref.

## 4. Ein Cartrefi

### 4.1 Buddsoddi yn ein stoc bresennol - Llawr y Dref, Llangefni

Mae Llawr y Dref yn gynllun tai ar gyfer unigolion a chyplau dros 60 oed sydd wedi'i leoli yng nghanol Llangefni, o fewn pellter cerdded i'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau lleol.

Yn ddiweddar buddsoddwyd yn sylweddol yn y cynllun, a thrawsnewidiwyd y fflatiau i ddarparu llety cyfforddus, modern sydd yn cynnig;

- Gwres canolog nwy
- Drysau patio sy'n agor i erddi cymunedol nad oes angen eu cynnal a'u cadw
- Balconi 'Juliet' yn y fflatiau ar y llawr cyntaf
- Lifft i'r llawr cyntaf
- Mynediad i gadeiriau olwyn
- Mynediad i sgwteri a lle i'w cadw
- Cyfleusterau cymunedol fel gerddi, golchdy ar y safle a lolfa ar gyfer cymdeithasu

Cwblhawyd y gwaith adeiladu yn Llawr y Dref ym mis Mehefin 2019 a phennwyd polisi gosod sensitif ar gyfer yr ardal. Ym mis Ionawr 2020, roedd tenantiaid yn byw yn 65% o unedau Llawr y Dref.







### 4.2 Trosolwg o Waith Cyfalaf a Gynlluniwyd 2019-20

Mae rhaglenni buddsoddi Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a bydd yn cyfrannu at welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Yn ystod 2019-20 roedd cyfanswm y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn £2.66 miliwn a bydd hyn yn sicrhau bod rhaglen gyfalaf i gynnal lefel safon tai.

Isod mae trosolwg o'r cynlluniau yn ystod 2019-20

### Gwaith Gosod Systemau Solar Pv

Penderfynwyd targedu'r stadau isod sydd yn cael eu gwasanaethu gan nwy LPG. Yn dilyn cwblhau'r gwaith, roedd yn galonogol gweld cyfartaledd y sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni yn codi o 55 i 73.
Roedd 36 cartref i gyd yn:

- Bryn Ffynnon, Star
- Pen Parc, Malltraeth

- Tyn Llidiart, Rhosybol
- Maes Geraint, Pentraeth

Y contractwr oedd JM Renewables Ltd a'r Rheolwyr Prosiect oedd  YGC Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy
Cwblhawyd y gwaith ym mis 21 Mehefin 2019. Isod mae lluniau cyn ac ar ôl gwneud y gwaith.


**<u>Yn ystod ac ar ôl gwneud y gwaith</u>**





Sylwadau ffurflenni boddhad :




## Waun Dirion, Benllech

Roedd y gwaith yn cynnwys ail rendro gyda system insiwleiddio allanol ynghyd â gosod ffenestri a drysau newydd, gwaith ail-doi a gwaith amgylcheddol cysylltiedig (llwybrau concrit newydd, ffensys, waliau terfyn) ar 20 byngalo ac un tŷ. Yn ychwanegol i'r gwaith traddodiadol hwn, roedd y cynllun yn cynnwys ehangu'r maes parcio, gosod paneli Solar PV a system PIV (*Positive Input Ventilation*). Yn ogystal, gwnaethom hefyd gyflenwi a gosod mynediad i'r anabl i bob byngalo.

Y Contractwr oedd Westdale Midlands Ltd a'r Rheolwyr Prosiect oedd Wakemans
Y dyddiad cwblhau oedd Rhagfyr 2019. Isod mae lluniau cyn ac ar ôl gwneud y gwaith.










**Tan y Foel, Llannerch-y-medd (Arian Cronfa Gofal Integredig )**

Gwaith adnewyddu mewnol ac addasiadau i'r Lolfa Gymunedol bresennol yn Tan y Foel, Llannerch-y-medd. Y contractwr oedd Park City Multi Trade Ltd a’r Rheolwyr Prosiect oedd Wakemans. Y dyddiad cwblhau oedd Hydref 2019.

Cynhaliwyd diwrnod agored a gwahoddwyd holl denantiaid Tan y Foel yn ogystal â Chynghorwyr lleol ac Arweinydd y Cyngor. Roedd pob un ohonynt yn falch iawn o'r trawsnewidiad a safon y gwaith.



## Dymchwel garejys a chreu man parcio newydd ym Maes y Coed, Porthaethwy

Yn dilyn nifer o gyfarfodydd tenantiaid, nodwyd mai'r prif bwynt dadleuol oedd diffyg mannau parcio yn fflatiau Maes y Coed. Er mwyn gwella'r sefyllfa, cytunwyd i ddylunio cynllun i greu llefydd parcio ychwanegol drwy ddymchwel y garejys oedd erbyn hyn wedi dirywio ac wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Y Contractwr oedd A E & A T Lewis a'r Rheolwyr Prosiect oedd Wakemans.

Yn anffodus, oherwydd dyfnder annigonol y gwasanaethau presennol, h.y. dŵr a thrydan, bu'n rhaid i ni gyfyngu gwasanaethau Dŵr Cymru a Scottish Power gan fod y cyfleustodau'n darparu i adleoli eu gwasanaethau ar gyfer yr arwyneb ffordd. Mae gwaith yn parhau ar safle.





### Adnewyddu Boeleri Nwy

Mae'r cytundeb yn cynnwys gofyniad i adnewyddu oddeutu 150 o foeleri nwy. Mae'r gwaith yn cynnwys cael gwared ar y boeleri presennol a'r offer cysylltiedig a gosod boeleri newydd modern ac effeithlon ynghyd â'r holl offer cysylltiedig. Y Contractwr yw Cliftons of Wrexham Ltd a'r Rheolwyr Prosiect yw YGC Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy. Y dyddiad cwblhau diwygiedig oedd Chwefror 2020.

## 4.3 Buddion Cymunedol

Mae contractau mawr y mae'r Gwasanaethau Tai wedi eu caffael yn cynnwys gofynion Recriwtio a Hyfforddi a Dargedir, Buddion Cymunedol Ehangach a Chyfleoedd Cadwyn Gyflenwi.

Mae nodweddion allweddol yn cynnwys:

- Hyfforddi a recriwtio
- Cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi leol
- Buddion cymunedol ehangach yn gysylltiedig â'r ardal leol
- Cwblhau Pecyn Mesur Buddion Cymunedol Gwerth Cymru ar ôl cwblhau'r contract

Mae'r holl dendrau cyfalaf yn cael eu hysbysebu ar y porth GwerthwchiGymru.

Gweledigaeth y Gwasanaeth Tai yw sicrhau bod contractwyr a chadwyni cyflenwi lleol yn cael pob cyfle i gystadlu am gontractau cyfalaf blynyddol. Bydd dyfarnu contractau i gyflenwyr lleol sy'n cyflogi gweithlu lleol yn cyfrannu at leihau carbon yn ogystal â hyrwyddo creu a chadw swyddi.

Ers 2013 dyfarnwyd 82% o Gontractau Cynnal a Chadw Traddodiadol a Gynlluniwyd i gontractwyr yng Ngogledd Orllewin Cymru. Dyfarnwyd 59% o'r contractau y cyfeirir atynt uchod i gontractwyr o Ynys Môn.

## 4.4 Datgarboneiddio

Mae'r agenda datgarboneiddio yn mynd i ddominyddu gweithgareddau adeiladu ac adnewyddu tai dros y degawd nesaf. Rydym yn barod yn gosod systemau gwresogi Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer (*Air Source Heat Pumps*) mewn datblygiadau tai newydd sydd wedi eu lleoli oddi ar y rhwydwaith nwy ac wrth adnewyddu tai, rydym yn codi eu safon EPC cyn uched ag sy'n ymarferol bosibl. Yn y dyfodol bydd ein datblygiadau tai newydd yn canolbwyntio ar yr egwyddor o *'fabric first'* ac yn gwneud mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy. Ein bwriad ydy gweithio ar y cyd â darparwyr tai eraill (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) i ddatblygu model tai sy'n manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.

Mewn perthynas â'r stoc gyfredol, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar leihau niferoedd ein tai sydd yn methu â chyrraedd safonau egni SATC. Ers 2011 rydym wedi llwyddo i godi cyfartaledd perfformiad egni ein stoc o SAP 63.5 i 70. Yn ogystal, yn ystod 2019/20 bu i ni sefydlu bod ôl-troed carbon ein stoc (tunelli carbon y flwyddyn) wedi gostwng 21% rhwng 2011 a 2020.

## 4.5 Cydymffurfio â SATC a'r Strategaeth Fuddsoddi

Cyngor Sir Ynys Môn oedd un o'r awdurdodau cyntaf i gwrdd â safonau SATC yn ôl yn 2012. Yn ôl "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru", gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y bydd "pob aelwyd yng Nghymru … yn cael y cyfle i fyw mewn anheddau o ansawdd dda sydd" :-

- Rhan 1: Mewn cyflwr da.
- Rhan 2: Yn Saff a Diogel.
- Rhan 3: Wedi eu cynhesu'n ddigonol, yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
- Rhan 4: Gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Rhan 5: Yn cael eu rheoli'n dda (ar gyfer tai ar rent).
- Rhan 6: Wedi'u lleoli mewn amgylcheddau diogel a deniadol.
- Rhan 7: Yn cwrdd yn addas ag anghenion penodol yr aelwyd i'r graddau y bo modd.

Mae cylch bywyd y cydrannau y caniatawyd ar eu cyfer yn ein rhagamcanion cost 30 mlynedd yn cynnwys:

- Cegin: 15 mlynedd
- Ystafell Ymolchi: 25 mlynedd
- Boeleri: 15 mlynedd
- Gwresogyddion: 25 mlynedd
- Ail weirio llawn: 25 mlynedd

Rydym yn fodlon bod yr holl eiddo, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, yn cwrdd â SATC ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwrthod neu rai sy'n cwrdd â meini prawf methiant derbyniol. Bydd gwaith gwella ar eiddo a wrthodwyd yn y gorffennol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg newid Tenantiaeth. Ni allwn ond ystyried cofnodi methiant derbyniol petai cost y gwaith unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Mae'r tabl canlynol, nad yw'n cynnwys unrhyw ddatblygiadau newydd nac eiddo a brynwyd yn ôl, yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol o ran adnewyddu'r elfennau craidd:

| Elfen | Niferoedd a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol | Cyfanswm a gwblhawyd yn ystod y Cynllun SATC (Hydref 2008 – Rhagfyr 2012) | Cwblhawyd ar adeg newid Tenantiaeth (Ionawr 2013 – Gorffennaf 2017) | Tenantiaid wedi gwrthod (methiant derbyniol) | Cyfanswm eiddo na chafodd eu nodi ar gyfer gwaith adnewyddu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cegin** | 3073 | 3123 | 364 | 156 | 129 |
| **Cyfanswm ystafelloedd ymolchi / cawodydd mynediad gwastad** | 2271 | 3071 | 329 | 99 | 273 |
| **Ail-wifro** | 1543 | 2728 | 363 | 88 | 593 |

## 4.6 Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf

Mae’r Rhaglen Cynnal a Chadw arfaethedig ar gyfer 2020/21 a welir yn y tabl isod sydd werth £10.84 miliwn yn clustnodi’r adnoddau cyfalaf sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Busnes. Mae’r rhaglen yn cael ei hategu gan ddata a gasglwyd yn annibynnol ar gyflwr y stoc a bydd yn cyfrannu tuag at y Strategaeth Rheoli Tai a’r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae’r Rhaglen Buddsoddiadau Sector Cyhoeddus yn ffurfio rhan o’r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2020/21. Mewn egwyddor, bydd yn mabwysiadu’r un broses bidio am gyfalaf blynyddol â’r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol, gydag awdurdod yn cael ei ddirprwyo i’r Bwrdd Gwasanaethau Tai fel y gall flaenoriaethu a gwerthuso cynlluniau unigol.

| ***Cynllun*** | **2020/21 (£ '000)** | **2021/22 (£ '000)** | **2022/23 (£ '000)** |
|---|---|---|---|
| *Gwaith Mewnol SATC ac Asbestos* | 1,750 | | |
| *Ymrwymiadau ar gontractau presennol a Rhaglen Cynnal a Chadw Traddodiadol* | 6,140 | 6,695 | 6,896 |
| *Rheoli Risg Tân* | 450 | | |
| *Gwaith Gwres Canolog* | 400 | | |
| *Gwaith Amgylcheddol* | 750 | | |
| *Gwaith Perfformiad Ynni* | 1,000 | | |
| *Adeiladu Tai Newydd* | 9,630 | 7,300 | 11,519 |
| *Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus* | 350 | | |
| *Adnewyddu Fflyd yr Uned Gynnal a Chadw Tai* | | | 401,000 |
| | **20,470** | **13,995** | **18,816** |

| ***Cyllido:*** | **2020/21 (£ '000)** | **2021/22 (£ '000)** | **2022/23 (£ '000)** |
|---|---|---|---|
| *Lwfans Atgyweiriadau Mawr* | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| *Cyfraniadau Refeniw* | 16,360 | 9,335 | 10,156 |
| *Grant GTA* | | | |
| *Benthyca* | 1,450 | 2,000 | 6,000 |
| | **20,470** | **13,995** | **18,816** |

## Rheoli Risg Tân

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Gorchymyn Diwygio Diogelwch Tân 2005 rydym wedi clustnodi swm o £450k ar gyfer diweddaru a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau darganfod tân er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg tân. Yn ystod 2019/20, mae ein contractwr arbenigol wedi parhau i gynnal asesiadau risg tân blynyddol sydd yn sail i gynlluniau gwariant ar gyfer 2020/21.

Yn ystod Ch4 2019/20 gwahoddwyd tendrau a dyfarnwyd contract ar gyfer adnewyddu drysau tân mewn 200 o'n fflatiau. Roedd y fanyleb ar gyfer gosod drysau sydd yn gwrthsefyll tân am 1 awr (FD60).

Mae cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2020/21 yn darparu ar gyfer gosod systemau llethu tân mewn 2 o'n blociau fflatiau uchder canolig yn Llangefni a Phorthaethwy. Bydd cwblhau'r cynnig hwn yn llwyddiannus yn sicrhau bod systemau chwistrellu diogelwch tân wedi cael eu gosod yn ein pedwar fflat uchder canolig.

## Cynllun Buddsoddi Mewnol

Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £1.750m er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer y gwaith parhaus o osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwneud gwaith ail-wifro wrth iddynt ddod i ddiwedd eu cylch bywyd.

Bydd y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y methiannau derbyniol yr adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r gyllideb yn dyrannu arian tuag at adnewyddu 100 o geginau nad oeddent yn rhan o'r rhaglen graidd SATC wreiddiol. Mae'r ceginau hyn yn dynesu at ddiwedd cylch bywyd disgwyliedig yr elfen.

Defnyddir y gyllideb hon hefyd i reoli asbestos yn barhaus o fewn y stoc dai neu, lle bo'n briodol, i gael gwared ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

## Gwaith Gwres Canolog

Ers 2016/17 rydym wedi cychwyn ar raglen i osod boeleri newydd i uwchraddio ein hen foeleri sydd yn gynyddol annibynadwy.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhelir arolwg o'r system wresogi bresennol ac os oes angen rheiddiaduron newydd byddant yn cael eu hadnewyddu fel rhan o'r rhaglen adnewyddu boeleri. Bydd hyn yn caniatau i ni sicrhau bod y systemau a osodir yn addas i bwrpas, o'r maint cywir a'u bod mor effeithlon â phosib ar gyfer ein tenantiaid. Ar ôl cwblhau'r gwaith byddem yn disgwyl gweld gostyngiad yn y gost o alw allan ein peirianwyr gwresogi.

Ar gyfer 2020/21, rydym wedi clustnodi cyllideb o £400k i barhau â'r rhaglen hon a byddwn yn ceisio adnewyddu oddeutu 200 o foeleri nwy.

## Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol a Gynlluniwyd

Mae cyfanswm y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw Traddodiadol a Gynlluniwyd yn £6.14m. Mae'r Gwasanaeth Tai yn cadarnhau bod 2 gontract a ddyfarnwyd yn ystod hanner olaf 2019/20 yn ymwneud â 120 eiddo wedi ymrwymo cyfran sylweddol o'r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd.

Yn nodweddiadol, mae sgôp cyffredinol y gwaith fydd yn cael ei wneud, neu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, yn golygu ail-doi, gan gynnwys gosod panelau Solar PV, gosod system rendr insiwleiddio, adnewyddu ffenestri a drysau lle bo hynny'n briodol, gwaith allanol gan gynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn. Hefyd, rydym wedi clustnodi un cynllun i gynnwys gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer i ategu systemau gwresogi sydd yn defnyddio LPG fel y brif ffynhonnell danwydd.

Bydd y gwelliannau cartref ym mhob un o'r cynlluniau y cyfeirir atynt uchod yn gwella cyfforddusrwydd ac edrychiad y cartrefi yn sylweddol a, lle bo'n berthnasol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol a gynlluniwyd yn parhau i ffurfio sail ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

Mae rhaglenni buddsoddi Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfrannu at gydymffurfio'n barhaus â SATC.

### Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swm o £350k ar gyfer gwaith addasu sylweddol ar gyfer yr anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o'r gwaith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, cawodydd mynediad gwastad ac estyniadau.

### Gwaith Perfformiad Ynni

Er mwyn rhoi sylw i fethiannau derbyniol mewn perthynas â pherfformiad ynni, rydym yn targedu buddsoddiad mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy, sef Solar PV, mewn nifer sylweddol o'n heiddo nad ydynt ar y prif rwydwaith nwy. Ar gyfartaledd eiddo sydd â systemau gwresogi LPG a systemau storio trydan sydd â'r sgôr SAP isaf o blith ein stoc tai.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi gwneud cais i'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) am ganiatâd i osod systemau Solar PV niferus mewn nifer o stadau nad ydynt wedi eu cysylltu â'r grid. Cwblhawyd un cynllun oedd yn cynnwys 36 eiddo yn llwyddiannus ac yn ystod Ch4 derbyniwyd caniatâd gan y DNO i osod 20 yn rhagor o systemau.

Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon yn ystod 2020/21 a chlustnodwyd £1.0m yn y gyllideb i dargedu 250 o osodiadau pellach a fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol o ran targedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon.

### 4.7 Gwaith Amgylcheddol

Mae Safon Amgylcheddol SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gael eu lleoli mewn "amgylcheddau deniadol a diogel y gall trigolion uniaethu â hwy ac y gallant fod yn falch o fyw ynddynt".

Er mwyn cyflawni gwelliannau amgylcheddol, byddwn yn parhau i ariannu'r Gronfa Wella Amgylcheddol a Chymunedol lle gwahoddir tenantiaid i gyflwyno ceisiadau am arian tuag at welliannau cymunedol o'u dewis.

Neilltuir cyfanswm o £750k tuag at welliannau amgylcheddol yn 2020/21. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â'r rhaglen dymchwel garejys nad ydynt bellach yn ymarferol i'w cynnal. Bydd y rhaglen hon yn cyflawni gwelliannau

amgylcheddol yn ymwneud â pharcio, gwella diogelwch a gwella edrychiad ardaloedd penodol yn gyffredinol. Yn ogystal, defnyddir y gyllideb i wneud gwelliannau a dargedir ar stadau ac uwchraddio gweithfeydd trin y mae'r Gwasanaethau Tai yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

### 4.8 Gwasanaeth Uned Cynnal a Chadw

Mae'r Uned Cynnal a Chadw tai yn parhau i ddarparu atgyweiriadau ymatebol o ansawdd, yn ogystal â rhaglen wasanaethu i'n cwsmeriaid.
Yn ystod 2019 gwnaethom symud ymlaen gyda'n rhaglen hyfforddi a datblygu, gan sicrhau y gall ein gweithwyr fodloni gofynion heriol gwasanaeth atgyweirio ymatebol prysur. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad a chynhyrchiant ein gweithlu er mwyn sicrhau llai o ddibyniaeth ar gontractwyr allanol.

Rydym yn falch o'n tîm atgyweirio rhagorol, ac yn croesawu ymateb ein cwsmeriaid yn yr arolwg STAR 2019 a nododd fod 95% o denantiaid yn fodlon ag agwedd y gweithwyr cynnal a chadw, a 91% yn fodlon ag ansawdd eu gwaith. Byddant yn parhau i adeiladu ar y perfformiad hwn hyd at 2020/21.

### Cynhyrchiant y Gweithlu

Mae ein rhaglen foderneiddio, Gweithio Symudol, yn parhau i ddatblygu. Bydd cyflwyno technoleg fodern yn caniatau i ni drefnu gwaith atgyweirio yn ddeinamig gan arwain at wella gwasanaethau, cynhyrchiant, effeithlonrwydd o ran costau a lleihau amser teithio a nifer yr ymweliadau lle nad oes modd cael mynediad i eiddo.

Mae buddsoddiad parhaus i foderneiddio ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw mewnol yn dangos ein hymrwymiad i barhau i wella gwasanaethau a chyflawni safonau rhagorol o ran gwasanaeth cwsmer.

### 4.9 Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor

Ers cyflwyno trefniadau hunan-ariannu ar gyfer y CRT yn 2015 mae cynghorau'n cael eu hannog i adeiladu tai unwaith eto. Hyd yma rydym wedi gwireddu'r canlynol, cyfanswm o 108 o unedau newydd wedi eu prynu neu eu cychwyn.

| | **Prynu tai yn ôl** | **Cychwyn adeiladu o'r newydd** |
|---|---|---|
| 2015/16 | 10 | - |
| 2016/17 | 13 | 3 |
| 2017/18 | 13 | - |
| 2018/19 | 12 | 19 |
| 2019/20 | 17 | 21 |
| **Cyfanswm** | **65** | **43** |

Yn ystod 2018/19 a 2019/20 buom yn ffodus i dderbyn dyraniad Grant Tai Fforddiadwy gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cyfrannu £2,199,861 tuag at gost y cynlluniau uchod. Yn ogystal, gwnaethpwyd dau gais llwyddiannus am arian o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth

Cymru sy'n cyfrannu £1,531,790 tuag at ddarparu 10 o'r unedau fydd yn hynod effeithlon o ran defnydd ynni ac yn arloesol o ran eu hadeiladwaith. Mae'r ddau gynllun yn defnyddio ffrâm bren, un yn defnyddio system 'Beattie Passiv' a'r llall yn defnyddio system Tŷ Unnos, ble mae'r unedau'n cael eu hadeiladu mewn ffatri a'u cludo i'r safle.





Armenia Street, Caergybi

Ty'n Coed, Moelfre





System Beattiepassiv, Maes yr Ysgol,Caergybi

Gwynfa Hall, Caergybi

Rydym wedi nodi cyfleoedd a safleoedd ar gyfer yr isod fel ein rhaglen ddatblygu dros y 3 mlynedd nesaf, fydd yn ychwanegu cyfanswm o 176 o unedau at ein stoc dai:

| | **Prynu tai yn ôl (targed)** | **Cychwyn adeiladu o'r newydd** |
|---|---|---|
| 2020/21 | 15 | 38 |
| 2021/22 | 15 | 53 |
| 2022/23 | 15 | 40 |
| **Cyfanswm** | **45** | **131** |

Wrth ddatblygu tai newydd, rydym yn defnyddio gwahanol ddulliau o'u caffael. Mae rhai o'r safleoedd yn eiddo i'r CRT ac eraill yn eiddo i'r Cyngor, e.e. rydym yn prynu safleoedd ysgolion sydd wedi eu cau oddi ar y Cyfrif Cyffredinol, er enghraifft, safleoedd ysgolion Llanfachraeth, Llaingoch, Parch Thomas Ellis a Dwyran. Rydym hefyd yn defnyddio dull 'Cytundebau Pecyn' ac yn negodi cytundebau gyda datblygwyr tai.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu tai newydd mewn ardaloedd ble mae eu hangen, rydym yn aelod o'r gwasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig ac yn eu defnyddio i gynnal arolygon o anghenion tai yn yr ardaloedd hynny ble y nodwyd cyfleoedd i godi tai. Mae'r map yn dangos tai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd a chyfleoedd dros y tair blynedd nesaf.



### 4.10 Cynlluniau a gwblhawyd gan ein partneriaid

Ariannwyd y safleoedd canlynol gan y Grant Tai Cymdeithasol ac fe'u cwblhawyd gan Grŵp Cynefin yn ystod 2019/20. Roedd Clwyd Alyn a Thai Gogledd Cymru yn gweithio ar nifer o safleoedd yn ystod 2019/20 hefyd ond disgwylir i'r cynlluniau hyn gael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.



**Ffordd y Felin, Cemaes**

Grŵp Cynefin

Cwblhawyd ym mis Ebrill 2019

14 uned (4 x tŷ 3 ystafell wely; 6 x tŷ 2 ystafell wely; 4 x byngalo 2 ystafell wely)



**Penybryn, Dwyran**

Grŵp Cynefin

Cwblhawyd ym mis Rhagfyr 2019

6 uned (6 x tŷ 3 ystafell wely)

## 5 Ein Staff

### 5.1 Prentisiaethau

Roedd 2019 yn amser cyffrous i'r Tîm Cynnal a Chadw Tai wrth i ni ailgychwyn ein rhaglen brentisiaeth.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Choleg Menai gwnaethom groesawu tri phrentis newydd ym mis Medi 2019. Mae pob un o'r tri wedi ymgartrefu'n dda yn yr adran, ac yn rhannu eu hamser rhwng cysgodi ein gweithwyr profiadol a mynychu Coleg Menai 1 diwrnod yr wythnos ar gyfer cymhwyso yn ei meysydd gwaith.

- Elliot Parry - Jones - Peiriannydd Gwresogi a Phlymio
- Gruffydd Jones – Saer
- Guto Hughes – Trydanwr



### 5.2 Denu Talent

Yn 2018 lansiodd y Cyngor gynllun arloesol, Denu Talent Môn. Mae'n gynllun sy'n rhoi cyfle i 9 neu 10 o bobl 16 oed a throsodd i dderbyn 12 wythnos o brofiad gwaith gyda thâl yn y cyngor yn ystod yr haf.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf croesawom Elisha Owen i'r Gwasanaethau Tai. Yn ystod ei chyfnod o 12 wythnos, treuliodd Elisha eu hamser ar brosiectau amrywiol gyda'r holl dimau yn y gwasanaeth tai. Ar ôl gorffen ei lefel A aeth Elisha i'r brifysgol i astudio Gwaith Cymdeithasol. Mae Elisha hefyd yn helpu gyda thasgau gweinyddol yn ystod ei gwyliau o'r brifysgol.

Yn 2019, croesawom Iola Williams a oedd newydd orffen gradd mewn Marchnata. Roedd Iola yn rhan annatod o'r gwaith o gydlynu ein harolwg STAR a lluniodd yr adroddiad terfynol sydd wedi cael ei gyhoeddi. Llwyddodd i gael swydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac mae'n parhau i fod mewn cysylltiad â nifer o aelodau o staff y Gwasanaethau Tai.

Rydym yn awyddus i gymryd rhan yn y cynllun Denu Talent yn 2020 a chredwn ei fod yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy ddarparu profiad gwaith ystyrlon cyn iddynt symud ymlaen i gyflogaeth llawn amser neu addysgu bellach / uwch.



*Llun o grŵp 2018 – roedd y tîm yn cymryd rhan mewn prosiect Lleihau'r Defnydd o Blastig Untro. Mae Elisha Owen yn y rhes flaen, yn y canol*

## 5.3 GWOBRAU STAFF

Bob blwyddyn mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal gwobrau staff. Gall staff enwebu eu cydweithwyr i dderbyn y gwobrau hyn. Mae ein Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor yn llunio'r rhestr fer.
Ym mis Rhagfyr 2019, o'r 7 categori yr oedd staff yn gallu enwebu ar eu cyfer, enwebwyd a rhoddwyd y gwasanaethau tai ar y rhestr fer mewn chwe chategori.

**Enillodd staff o'r gwasanaethau tai dri chategori, a oedd yn cynnwys:**

- **Gwobr Ymrwymo i Bartneriaeth** – ein tîm storfa – Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tai
- **Gwobr Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig –** Swyddog Cyswllt Landlordiaid Sector Preifat – Gwasanaeth Polisi a Strategaeth
- **Gwobr Cyflawni** – Arolygwr Technegol Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tai

**Enillwyr Gwobr Ymrwymo i Bartneriaeth**







**Enillydd Gwobr Cyflawni**




**Enillydd Gwobr Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**

## Yr Iaith Gymraeg

Yn 2019, cynhaliodd y Gwasanaeth Tai arolwg hunanasesiad staff o lefel sgiliau a gallu ei staff i siarad, ysgrifennu, darllen a gwrando drwy gyfrwng y Gymraeg.
Mae'r tablau canlynol yn darparu dadansoddiad o rai o brif feysydd yr arolwg a bu i bob un o'r 131 aelod o staff gwblhau a dychwelyd eu hunanasesiadau. Roedd y canlyniadau'n hynod o gadarnhaol, a dim ond 2 aelod o staff a nododd nad oeddent yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol o ran siarad, darllen neu ddeall y Gymraeg.

## 6 Cynllun Ariannol y CRT

### 6.1 Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol

Mae rhagdybiaethau ariannol y Cynllun Busnes yn seiliedig ar y wybodaeth ganlynol

- Cyfrifir chwyddiant gan ddefnyddio cyfradd darged y Llywodraeth o 2% y flwyddyn.
- Rhagdybir y bydd cynnydd o 1% uwchlaw'r targed chwyddiant ar wariant ar gynnal a chadw ac adeiladu tai newydd bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y rhent targed yn cynyddu 1% uwchlaw lefel chwyddiant bob blwyddyn o 2020/21.
- Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% yn 2020/21 (pan ddisgwylir i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn), ac y bydd yn gostwng 0.1% bob dwy flynedd hyd oni fydd y lefel yn dychwelyd i'r lefel o 0.6% fel yr oedd cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol.
- Disgwylir y bydd colledion oherwydd cyfnodau gwag (*'voids'*) yn 1.25% y flwyddyn.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar yr Arolwg newydd o Gyflwr y Stoc gyda chydrannau'n cael eu hadnewyddu yn unol â rhaglen cylch oes y cydrannau hynny.
- Tybir y bydd y rhaglen i ddatblygu tai newydd a phrynu hen dai cyngor yn parhau. Yn 2020/21 disgwylir y bydd 45 uned yn cael eu datblygu, sef 30 o dai newydd a phrynu 15 o unedau gyda'r un nifer o unedau, sef 45, bob blwyddyn wedi hynny. Bydd cynllun tai gofal ychwanegol 40 uned yn cael ei ddatblygu am gost o £8m ac yn cael ei gwblhau yn 2023/24.
- Ac eithrio'r grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd yn ystod 2020/21, tybir y bydd y CRT yn cyllido'r rhaglen ddatblygu yn llawn ar gyfer gweddill oes y cynllun.
- Tybir y bydd y gyfradd llog ar falansau credyd yn 0.33% y flwyddyn. Tybir y bydd benthyciadau newydd yn cael eu cymryd am gyfnod o 50 mlynedd ar gyfradd llog o 2.66%.
- Tybir ni fydd dyledion yn cael eu had-dalu'n gynnar.
- Mae incwm arall yn cynnwys incwm o dariffau (Grid Cenedlaethol), comisiwn o werthu yswiriant, taliadau carthffosiaeth a gwaith trwsio y gellir codi amdano.

### Polisi Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd un gronfa ar gyfer benthyciadau sy'n golygu y bydd costau benthyca'n cael eu rhannu rhwng y gronfa gyffredinol a'r CRT mewn modd sy'n gymesur â'u gofynion cyllido unigol.

## 6.1 Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd

### Cyllidebau Refeniw

| | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli | 3,112 | 3,174 | 3,238 | 3,302 | 3,368 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 4,727 | 4,925 | 5,131 | 5,371 | 5,622 |
| Costau Eraill | | 510 | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 1,902 | 1,957 | 2,214 | 2,626 | 2,835 |
| Cyfraniad i'r Rhaglen Gyfalaf | 16,360 | 9,335 | 10,156 | 10,510 | 11,470 |
| Ad-dalu Benthyciadau | 1,205 | 5 | 614 | 500 | 5 |
| Cyfanswm Gwariant | 27,306 | 19,906 | 21,353 | 22,309 | 23,310 |
| | | | | | |
| Incwm Rhent Net | 18,173 | 19,345 | 20,503 | 21,486 | 22,487 |
| Incwm Arall | 655 | 670 | 687 | 703 | 720 |
| | | | | | |
| Grant AHG | 116 | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Cyfanswm Incwm | 18,944 | 20,131 | 21,305 | 22,304 | 23,322 |
| | | | | | |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | -8,362 | 225 | -48 | -5 | 12 |
| | | | | | |
| Balans a Ddygwyd Ymlaen | 9,176 | 814 | 1,039 | 991 | 986 |
| | | | | | |
| Balans a Gariwyd Drosodd | 814 | 1,039 | 991 | 986 | 998 |

## Cyllideb Gyfalaf

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau a Chynnal a Chadw SATC | 7,400 | 6,695 | 6,896 | 7,241 | 11,565 |
| Tai Newydd | 6,387 | 10,493 | 10,808 | 6,761 | 7,099 |
| Adnewyddu/Ailfodelu Stoc Gyfredol | - | - | - | - | - |
| Gwariant Arall | - | - | - | 400 | - |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 13,787 | 17,188 | 17,704 | 14,402 | 18,665 |
| Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| Lwfans Atgyfeiriadau Mawr | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Benthyca | - | 250 | 5,750 | 1,100 | 4,800 |
| Gwariant Cyfalaf a ariennir o’r CRT | 9,595 | 14,278 | 9,294 | 10,642 | 11,205 |
| Grant Tai Arloesol | 1,532 | - | - | - | - |
| Cyfanswm Cyllid Cyfalaf | 13,787 | 17,188 | 17,704 | 14,402 | 18,665 |

## 7 Dangosyddion Perfformiad

| | 2018-19 | 2019-20 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Danosyddion** | **Canlyniad** | **Chwarter 1** | **Chwarter 3** | **Targed 2019/20** | **Perfformiad** |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid presennol fel canran o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 2.05% (£358,293.67) | 2.53% (£466,080.95) | 2.28% (£406,848.94) | **2.15%** | ↑ |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid fel canran o'r cyfanswm rhent a gesglir am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 1.36% (£236,698.76) | 1.36% (£249,855.84) | 1.46% (£259,531.23) | **1.40%** | ↓ |
| Cyfran y tenantiaid sydd â ôl-ddyledion dros naw wythnos | 3.76% | 4.07% | 4.40% | **4.50%** | ↓ |
| Cyfartaledd ôl-ddyledion | £293.75 | £322.94 | £348.37 | **£260.00** | ↓ |
| Cyfartaledd ôl-ddyledion tenantiaeth pan ddaeth i ben | £548.17 | £514.06 | £496.49 | **£500.00** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol | 29.2 | 33.7 | 35.2 | **30** | ↓ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol (heb gynnwys DTL) | 22.3 | 25.6 | 22.4 | **21** | ↑ |
| Nifer y Tai sy'n cael ei derbyn ar y cynnig cyntaf | 69.58% | 77.22% | 72.77% | **80.00%** | ↓ |
| % o atgyweiriadau arferol a gwblhawyd o fewn amserlen | 77.13% | 92.87% | 92.99% | **95.00%** | ↑ |
| % atgyweirio wedi cwblhau mewn un ymweliad | 99.39% | 92.57% | 92.46% | **90.00%** | ↓ |
| Yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau atgyweiriadau ymatebol nad ydynt yn rhai brys (Dyddiau Calendr) | 11.59 | 13.37 | 15.18 | **18** | ↓ |
| Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | 55.75% | 69.00% | 75.11% | **60%** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) | 176.98 | 173 | 157.2 | **170** | ↑ |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Mehefin 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Model Buddsoddi Cydfuddiannol – Cytundeb Partneriaeth Strategol** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Williams**<br>**Deilydd Portffolio Cyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Marc Jones**<br><br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**E-bost:** | **Arwyn Hughes**<br>**Rheolwr Rhaglen, Trawsnewid**<br>**Arwynhughes3@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol ar gyfer ward neu wardiau penodol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**Cefndir a Rhesymau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) i gyflawni prosiectau cyfalaf mawr i fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu rhai o'r prosiectau'n rhannol drwy'r cynllun MIM, yn defnyddio cyllid refeniw, yn rhannol oherwydd diffyg cyllid cyfalaf.

Bydd Llywodraeth Cymru'n penodi partner o'r sector preifat a fydd wedyn yn ffurfio Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (WEPCo) gydag is-gwmni o Fanc Datblygu Cymru. Ar ôl ffurfio'r WEPCo, bydd yn ofynnol iddynt hwy, ynghyd â'r holl gyfranogwyr, arwyddo Cytundeb Partneriaeth Strategol (SPA). Mae'r SPA yn darparu ar gyfer sut mae'r partïon yn gweithredu â'i gilydd dros y tymor hir mewn partneriaeth gydweithredol, ac mewn modd anwrthwynebus ac agored i gefnogi Cynllunio effeithiol, caffael a chyflawni gwasanaethau seilwaith, addysg a cyfleusteral cymunedol yng Nghymru. Bwriedir cyflawni'r SPA ym Medi 2020.

Ni ellir ond cyflawni prosiectau MIM gan WEPCo yn unig. Nid yw arwyddo'r SPA yn ymrwymo'r Cyngor i gyfranogi mewn unrhyw gynllun MIM, nid yw ond yn rhoi'r cyfle i wneud hynny.

Byddai cymeradwyo'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor gyfranogi mewn prosiect MIM yn y dyfodol, pe dymunai wneud hynny, ac mae'n rhoi mwy o gyfle i ddenu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i'r Cyngor sicrhau y gall pobl ym Môn ffynnu a gwireddu eu hamcanion hirdymor, sy'n un o'r amcanion a nodwyd o fewn Cynllun y Cyngor 2017-2022.

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith:**

1. Yn nodi cynnydd Cam Cynigydd a Ffefrir y Weithdrefn Deialog Cystadleuol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn;
2. Yn cymeradwyo cyflawni, cyflenwi a pherfformio'r Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru yn Hydref 2020 i hwyluso cyflawni ystod o wasanaethau seilwaith ynghyd â chyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol;
3. Yn cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a grynhowyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn er mwyn gweithredu argymhelliad (2), yn amodol ar yr argymhelliad (4) isod;
4. Yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 / Swyddog Monitro:

    a. I gymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a gymeradwywyd yma a all fod yn angenrheidiol, am resymau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gwblhau unrhyw faterion sydd heb eu penderfynu; a

    b. Cymeradwyo unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yma;

5. Yn nodi y caiff y Cytundeb Partneriaeth Strategol ei gyflawni fel gweithred a'i ardystio yn unol ag Erthygl 14.5 o'r Cyfansoddiad.
6. Yn cymeradwyo penodi Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 yn 'Gynrychiolydd y Cyfranogwr' i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS);
7. Yn nodi, wrth gytuno i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, nad oes gofyn iddo benderfynu bwrw ymlaen ag unrhyw brosiect penodol, ac nad oes unrhyw beth o fewn y SPA sy'n ymrwymo'r Cyngor i wneud unrhyw ymrwymiad o'r fath. Bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â phrosiect penodol yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynnu yn y dyfodol.

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Byddai gwrthod yr argymhellion yn golygu byddai'r Cyngor yn colli'r cyfle i fanteisio ar y Gwasanaethau Partneriaeth Cymorth Strategol y gall WEPCo eu cynnig.<br><br>Ni fyddai modd i'r Cyngor gyfranogi mewn cynllun MIM heb naill ai arwyddo'r SPA neu gael Gweithred Ymlyniad a fydd yn creu sawl cymhlethdod, gan gynnwys risg diangen o ran caffael.<br><br>Mae'r Cyngor yn deall, pe byddai'n dymuno cael mynediad i gyllid refeniw (yn hytrach na cyllid cyfalaf) ar gyfer prosiectau Band B o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 21ain Ganrif, yna bydd Llywodraeth Cymru angen i'r MIM gael ei ddefnyddio i gael mynediad i'r cyllid, ynghyd â gawanaethau'r WEPCo i'w gyflawni. Nid oes unrhyw opsiynau amgen ar gyfer darparu cyllid o'r fath. |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Byddai awdurdodi'r SPA yn bederfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yn unol a paragraff 4.8.6.4.1 o'r Cyfansoddiad. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r cynnig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ymdrin â unrhyw brosiectau seilwaith, addysg neu cymunedol sydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ei cynllun cyflawni blynyddol presennol neu ar gyfer y dyfodol. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydy – ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo'n uniongyrchol o ganlyniad i'r argymhellion hyn.  Bydd unrhyw gostau ychwanegol sydd yn ymwneud â unrhyw brosiect penodol angen ei gymeradwyo ar wahan. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r penderfyniad hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ddiwallu anghenion hirdymor yr Ynys. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Mae'n bosibl y gallai'r penderfyniad hwn ddarparu dull mwy cost effeithiol i'r Cyngor gyflawni prosiectau yn y dyfodol, a gallai ddarparu mwy o werth am arian. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | O ran y mater hwn, mae'r Cyngor wedi ymgynghori â Bevan Britton fel ymgynghorwyr cyfreithiol. Penodwyd Bevan Britton gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i Awdurdodau yng Nghymru, ynghyd â Sefydliadau Addysg Bellach, mewn perthynas â phrosiectau MIM. Telir y ffioedd gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ddim ar hyn o bryd. Ni wneir unrhyw ymrwymiadau ar hyn o bryd i ymgymryd â phrosiect penodol. Pe bai'r Cyngor yn ystyried ymgymryd â chynllun MIM, bydd cyfle i'r dinasyddion gymryd rhan fel yn briodol yn unol a unrhyw ofynion cyfreithiol. |
| **5** | **Pa effaith, os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Nid yw'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb, gan na wnaed unrhyw ymrwymiad ar hyn o bryd i gyfranogi mewn cynllun MIM. Nid oes gan y cyngor brosiect braenaru ar hyn o bryd. Ymgymerir ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar wahân pe bai'r cyngor yn canfod prosiect braenaru yn y dyfodol. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh)**<br>(gorfodol) | Cymeradwyo argymhellion yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151**<br>(gorfodol) | Ddim yn briodol – Adroddiad y Swyddog 151 yw hon. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro**<br>(gorfodol) | Cymeradwyo argymhellion yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad 1 - Adroddiad ar gyfer Cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i Wneud Cytundeb Partneriaeth Strategol<br><br>Atodiad 2: Crynodeb o'r Cytundeb Partneriaeth Strategol |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
| --- |
| |

**ATODIAD 1**

# ADRODDIAD AR GYFER CYMERADWYAETH Y PWYLLGOR GWAITH I WNEUD Y CYTUNDEB PARTNERIAETH STRATEGOL

## 1 CRYNODEB

1.1 Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) wedi'i gynllunio gan Lywodraeth Cymru i gyflawni prosiectau cyfalaf mawr i fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yng Nghymru. Gall y MIM fod yn addas ar gyfer cyflawni adeiladau newydd a chanddynt wariant cyfalaf o £20m neu ragor. Caiff Cynlluniau MIM eu cyflawni a'u cynnal a chadw gan bartneriaid preifat, a fydd yn talu'r costau cyfalaf a ysgwyddir i gyflawni'r gwaith adeiladu. Bydd cyfranogwyr cynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol fel Awdurdodau Lleol neu Sefydliadau Addysg Bellach yn talu ffi flynyddol i'r partner preifat am gyfnod o 25 mlynedd, yn dechrau o'r dyddiad y daw'r ased yn weithredol. Bydd y ffi flynyddol yn cynnwys cost adeiladu, cynnal a chadw a chyllido'r prosiect. Ar ddiwedd y cyfnod 25 mlynedd, trosglwyddir yr ased i berchnogaeth y cyfranogwr mewn cyflwr ardderchog.

1.2 Bu Llywodraeth Cymru'n caffael partner o'r sector preifat i weithio gyda hi ar gyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol yng Nghymru. Disgwylir i Lywodraeth Cymru ddethol a phenodi cynigydd a ffefrir erbyn Medi 2020.

1.3 Bydd angen i'r partner sector preifat llwyddiannus ac is-gwmni o Fanc Datblygu Cymru (o'r enw WGCo) ffurfio Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (WEPCo), a fydd yn cyflawni gwasanaethau seilwaith i'r Cyfranogwyr yng Nghymru.

1.4 Y Cyfranogwyr, o dan y trefniadau hyn, fydd nifer o Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach. Bydd y Cyfranogwyr a WEPCo yn gwneud Cytundeb Partneriaeth Strategol. O dan y Cytundeb Partneriaeth Strategol, bydd gofyn i WEPCo ddarparu gwasanaethau partneriaeth i'r Cyfranogwyr, gan gynnwys (i) datblygu a chyflawni prosiect; a (ii) creu a rheoli cadwyn gyflenwi. Gall hyn arwain at gyflawni prosiectau Band B a gefnogir gan refeniw yn unol â Chytundeb Prosiect ar wahân neu, maes o law, gellid cyflawni prosiectau a ariennir o gyllid cyfalaf drwy'r strwythur contract hwn.

1.5 Pwrpas yr adroddiad hwn yw egluro'r broses a cheisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i wneud Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru i hwyluso'r gwaith o gyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd roi cymeradwyaeth i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol fel 'Cynrychiolydd y Cyfranogwr'.

1.6 Byddai arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor gyfranogi mewn cynllun MIM pe canfyddir prosiect addas yn y dyfodol. Ni fyddai ymrwymiad i gyfranogi mewn unrhyw gynllun MIM ar hyn o bryd.

## 2 ARGYMHELLION

2.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith:

(a) Yn nodi cynnydd Cam Cynigydd a Ffefrir y Weithdrefn Deialog Cystadleuol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn;

(b) Yn cymeradwyo cyflawni, cyflenwi a pherfformio'r Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru yn Hydref 2020 i hwyluso cyflawni ystod o wasanaethau seilwaith ynghyd â chyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol;

(c) Yn cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a grynhowyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn er mwyn gweithredu argymhelliad (b), yn amodol ar yr argymhelliad (d) isod;

(d) Yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151, ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro:

(i) Gymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a gymeradwywyd yma a all fod yn angenrheidiol, am resymau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gwblhau unrhyw feysydd sydd heb eu penderfynu; a

(ii) Cymeradwyo unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol yma i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol;

(e) Yn nodi y caiff y Cytundeb Partneriaeth Strategol ei gyflawni fel gweithred a'i ardystio yn unol ag Erthygl 14.5 o'r Cyfansoddiad*;

(f) Yn cymeradwyo penodi y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 yn 'Gynrychiolydd y Cyfranogwr' i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS);

(g) Yn nodi, wrth gytuno i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, nad oes gofyn iddo benderfynu bwrw ymlaen ag unrhyw brosiect, ac nad oes unrhyw beth o fewn y Cytundeb Partneriaeth Strategol sy'n ymrwymo'r Cyngor i wneud unrhyw ymrwymiad o'r fath. Bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â phrosiect penodol yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith mewn adroddiad(au) i'w penderfynu yn y dyfodol.

## 3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Byddai cymeradwyo'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor gyfranogi mewn prosiect MIM yn y dyfodol, pe dymunent wneud hynny. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i'r cyngor sicrhau y gall pobl ym Môn ffynnu a gwireddu eu hamcanion hirdymor, sy'n un o'r amcanion a nodwyd o fewn Cynllun y Cyngor 2017-2022.

## 4 OPSIYNAU AMGEN A YSTYRIWYD

4.1 Dealla'r Cyngor, os dymuna gael mynediad i gyllid refeniw ar gyfer prosiectau Band B gan Lywodraeth Cymru, y bydd angen iddo ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol i gael mynediad i'r cyllid, ynghyd â WEPCo i'w gyflawni. Nid oes unrhyw opsiynau cyflawni amgen ar gyfer cyllid o'r fath.

## 5 CEFNDIR

5.1 Cafodd y "Model Buddsoddi Cydfuddiannol", neu MIM, ei lansio'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar 28 Chwefror, 2017, ac mae'n blatfform ar gyfer cyflawni agenda "Symud Cymru Ymlaen". Cynlluniwyd MIM i gyllido prosiectau cyfalaf mawr o ganlyniad i ddiffyg cyllid cyfalaf. Mae'n seiliedig ar strwythurau PPP traddodiadol ond gyda'r egwyddorion craidd a ganlyn ynghlwm wrtho:

5.1.1 pwyslais ar fuddion cymunedol ehangach;

5.1.2 ymrwymo rhanddeiliaid yn well;

5.1.3 buddsoddiad ecwiti gan y sector cyhoeddus;

5.1.4 dim gwasanaethau meddal; a

5.1.5 rheoli contractau mewn modd effeithiol ac effeithlon gan y sector cyhoeddus.

5.2 Bwriedir i'r MIM gefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau seilwaith cymdeithasol ac economaidd ynghyd â helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O dan y MIM, bydd y partneriaid sector preifat yn adeiladu a chynnal a chadw asedau cyhoeddus, ac yn gyfnewid am hynny, bydd y Cyngor, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn talu ffi i'r partner preifat, a fydd yn cynnwys cost adeiladu, cynnal a chadw a chyllido'r prosiect. Ar ddiwedd y contract, bydd yr ased yn dychwelyd i'r Cyngor.

5.3 Bu Llywodraeth Cymru'n caffael partner sector preifat i weithio gyda hi ar gyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol yng Nghymru. Dyma'r unig fodd o gyflawni prosiectau Band B a ariennir o gyllid refeniw. Disgwylir i Lywodraeth Cymru ddethol a phenodi cynigydd a ffefrir yn ystod haf 2020. Bydd yn ofynnol i bartner sector preifat llwyddiannus ac is-gwmni o Fanc Datblygu Cymru (a elwir yn WGCo) ffurfio **WEPCo**, a fydd yn cyflawni gwasanaethau seilwaith i'r Cyfranogwyr yng Nghymru.

**Y Cytundeb Partneriaeth Strategol (SPA)**

5.4 Y **Cyfranogwyr** yn y trefniadau fydd nifer o Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach. Bydd y Cyfranogwyr a WEPCo yn gwneud Cytundeb Partneriaeth Strategol (**SPA**). Mae'r SPA yn darparu ar gyfer sut mae'r partïon yn gweithredu â'i gilydd dros y tymor hir mewn partneriaeth gydweithredol, ac mewn modd anwrthwynebus ac agored i gefnogi cynllunio, caffael a chyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol yn effeithiol yng Nghymru, ynghyd â chyflawni gwasanaethau seilwaith. Cyflawnir y SPA ym Medi 2020.

5.5 Tymor cychwynnol y SPA yw 10 mlynedd. Gall unrhyw un neu ragor o'r Cyfranogwyr ymestyn hyn am 5 mlynedd ychwanegol. O dan y SPA, mae'n ofynnol i WEPCo ddarparu gwasanaethau partneriaeth i'r Cyfranogwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys (i) datblygu a chyflawni prosiect; (ii) creu a rheoli cadwyn gyflenwi a (iii) gwasanaethau proffesiynol eraill sy'n angenrheidiol i ariannu a chyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol.

5.6 Am 10 mlynedd cyntaf y SPA, mae gan WEPCo yr hawl unigryw i ddarparu gwasanaethau i bob Cyfranogwr (fel llofnodwyr i'r SPA) gan gynnwys:

5.6.1 Gwasanaethau Partneriaeth Datblygu Prosiect i ddatblygu "Prosiectau Cymwys" newydd (yn unig) i'w cyflawni (gan gynnwys creu cadwyn gyflenwi, cyllid a gwerth am arian), a nodir yn fanylach yn Atodlen 3 (Gwasanaethau Partneriaeth) o'r SPA; a

5.6.2 Gwasanaethau Prosiect (dylunio, adeiladu, profi, comisiynu a chwblhau'r eiddo, rheoli cyfleusterau caled, a gosod offer) mewn perthynas â "Phrosiect Cymwys" yn amodol ar iddo ddod yn "Brosiect Cymeradwy" o fewn 10 mlynedd cyntaf y SPA, ac ar gyfer prosiect Band B MIM, gyhyd ag y bo wedi cyflawni'r meini prawf a nodir yn Atodlen 5 (Proses Gymeradwyo Prosiectau Newydd) y SPA.

5.7 Golyga "Prosiectau Cymwys" y prosiectau hynny a nodwyd ar y cychwyn i'w cyflawni gan WEPCo (fel y nodwyd mewn Atodlen i'r SPA) ynghyd â holl brosiectau y Rhaglen MIM (Band B) Ysgolion a Cholegau 21ain Ganrif, lle nodwyd gan Gyfranogwr bod angen prosiect o'r fath i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau addysg yn y rhanbarth.

5.8 Gall cyfranogwyr ofyn i WEPCo ddarparu, ar sail anunigryw:

5.8.1 Gwasanaethau Prosiect mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf a fynnir ar gyfer darparu gwasanaethau yn y sector addysg (lle maent wedi'u dynodi a'u cymeradwyo'n ffurfiol o dan Raglen Amlinellol Strategol) a/neu wasanaethau cymunedol;

5.8.2 Gwasanaethau Partneriaeth Cymorth Strategol (fel cynllunio ystâd, cynllunio gwasanaeth a dangos gwerth am arian);

5.8.3 Gwasanaethau Partneriaeth Datblygu Prosiect o ran prosiectau newydd posibl, nad ydynt yn "Brosiectau Cymwys", ond a geisiwyd gan Gyfranogwr;

5.8.4 Gwasanaethau Partneriaeth Parhaus a/neu Wasanaethau Partneriaeth Datblygu Prosiect ar ôl deng mlynedd, lle mae tymor cychwynnol y SPA wedi'i ymestyn; a

5.8.5 Gwasanaethau Prosiect o ran Prosiectau Cymwys sy'n dod yn "Brosiectau Cymeradwy" ar ôl 10 mlynedd, lle mae tymor cychwynnol yr SPA wedi'i ymestyn.

5.9 Os yw Cyfranogwr yn derbyn cyllid ar gyfer prosiect o dan y Rhaglen MIM Band B, mae gan WEPCo yr hawl unigryw i ddatblygu cynigion ar gyfer cyflawni'r prosiect hwnnw (Gwasanaethau Partneriaeth Datblygu Prosiect) o fewn 10 mlynedd cyntaf y SPA.

5.10 Felly, y canlyniad mwyaf tebygol i Gyfranogwr sy'n cymryd rhan yn y SPA yw ei fod yn bwrw ymlaen â datblygu prosiect neu brosiectau yn defnyddio'r Broses Gymeradwyo yn y SPA, sy'n arwain at weithredu Cytundeb Prosiect a fydd yn llywodraethu dyluniad, adeiladu, cyllido a chynnal a chadw ysgolion neu golegau.

5.11 Mae Atodiad 2 yn darparu crynodeb manylach o'r SPA.

5.12 Mae'r SPA yn ymrwymo'r Cyfranogwyr a WEPCo i weithio yn ôl y (9) egwyddor allweddol a ganlyn:

5.12.1 datblygu cysylltiadau gweithio agos rhwng WEPCo a'r Cyfranogwyr, ar bob lefel;

5.12.2 canolbwyntio ar gyflawni'r perfformiad gweithredol sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian o fewn amserlenni a gytunwyd;

5.12.3 rhoi prosesau busnes a diwylliannol ar waith i alluogi'r Cyfranogwyr a WEPCo i sefydlu a chytuno ar amcanion heriol o ran amser a pherfformiad ac i'w cyflawni, neu ragori arnynt;

5.12.4 cydnabod anghenion y naill a'r llall, ynghyd â'r cyfyngiadau, galluoedd, rolau a chyfrifoldebau, i gyflawni canlyniadau sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall;

5.12.5 trwy fonitro rheolaidd, canfod gwendidau a chryfderau yn y berthynas rhwng y Cyfranogwyr a WEPCo, ac yn eu plith, a chydweithio i oresgyn y gwendidau ac adeiladu ar y cryfderau;

5.12.6 ymrwymo'n fuan i gydnabod a datrys gwahaniaethau, gwrthdaro ac anghydfodau rhwng y Cyfranogwyr a WEPCo, ac y neu plith, mewn amgylchedd lle 'nad oes unrhyw beth annisgwyl';

5.12.7 o fewn y Cyfranogwyr a WEPCo, penodi cydlynwyr ar lefel uwch a fydd yn cefnogi, amddiffyn a hyrwyddo'r bartneriaeth strategol hirdymor rhyngddynt a'i egwyddorion gweithredu;

5.12.8 datblygu didwylledd ac ymddiriedaeth mewn amgylchedd lle rhennir gwybodaeth a data mewn modd tryloyw; ac

5.12.9 yn unol â'r Gofynion Cydraddoldeb, mynd ati mewn modd cadarnhaol i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r Cod Cyflogaeth Foesegol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil, ethnigrwydd, crefydd, cenedligrwydd, rhywedd, anabledd, oed neu rywioldeb, a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng bob rhan o'r gymuned ym 'mhopeth a wnawn' gan gynnwys:

a) Cyflawni Gwasanaethau Sector Addysg o ansawdd uchel a (lle'n berthnasol) Gwasanaethau Cymunedol i ddefnyddwyr; a

b) Gweithio gyda'r gymuned leol a phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

5.13 Y Bwrdd Partneriaeth Strategol (**BPS**) yw cyfrwng gwarcheidiol yr ymrwymiadau hyn.

**Y Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS)**

5.14 Bydd y BPS yn gweithredu fel y prif fecanwaith ar gyfer rheol perfformiad WEPCo. Y BPS fydd y fforwm canolog lle gall y Cyfranogwyr gydweithio â WEPCo, Llywodraeth Cymru a Chynrychiolwyr Rhanddeiliaid i sicrhau bod egwyddorion allweddol y SPA yn cael eu cyflawni. Bydd angen cynrychiolaeth o blith y Cyfranogwyr ar y BPS.

5.15 Rôl y BPS fydd cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Strategol (**SDP**); sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer prosiectau newydd yn gyson â'r SDP; monitor perfformiad WEPCo yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol cytunedig; cymeradwyo unrhyw estyniad i dymor y SPA; a chymeradwyo unrhyw fuddiant arfaethedig mewn cyfalaf cyfrannau a waredir sy'n arwain at golli rheolaeth gan WEPCo (neu is-gwmni).

5.16 Disgwylir i Gynrychiolydd y Cyngor fod yn uwch gynrychiolydd o'r Cyngor, gyda'r awdurdod priodol i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Dylai fod â phrofiad o ddal swydd cyfarwyddwr neu debyg, a meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud y penderfyniadau a fynnir gan y BPS. Bydd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw wrthdrawiad buddiannau a sicrhau nad yw gwrthdrawiad buddiannau yn atal y cynrychiolydd dewisedig rhag cyflawni ei rôl fel cynrychiolydd, yn ogystal ag unrhyw rôl arall a ddelir yn uniongyrchol gan y cynrychiolydd o fewn y Cyngor.

5.17 Bydd Cynrychiolydd y Cyngor yn mynychu cyfarfodydd BPS o leiaf bob tri mis, ynghyd â chynrychiolwyr o bob Cyfranogwr, WEPCo, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr rhanddeiliaid eraill, fel y cytunwyd gan y Cyfranogwyr. Bydd y cyfarfodydd hyn yn adolygu materion cyllidol a gweithredol ac yn darparu mewnbwn strategol i'r trefniadau partneriaeth, gan gynnwys cyfnewid syniadau mewn perthynas â gofynion bob Cyfranogwr o ran llety a chyflawni gwasanaethau.

5.18 Rhaid i'r BPS gael cworwm o bump (5) cynrychiolydd o blith y Cyfranogwyr (y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru) ynghyd â Chynrychiolydd WEPCo. Os nad yw cworwm yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r BPS o fewn deng munud ar hugain (30) o amser dechrau'r cyfarfod hwnnw, mae'r BPS yn mynnu gohirio'r cyfarfod tan yr un amser a lleoliad pump (5) Diwrnod Busnes yn ddiweddarach. O ran unrhyw gyfarfod a ohiriwyd, y cworwm fydd un Cynrychiolydd o blith y Cyfranogwyr (y mae'n rhaid iddo fod yn gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru) ynghyd â chynrychiolydd WEPCo. Mae galwadau cynadledda dros y ffôn neu gynadleddau fideo yn fodd dilys i'r BPS gyfarfod.

5.19 Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 wedi ei argymell gan y Prif Weithredwr fel cynrychiolydd cyfranogol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y BPS.

**Prosiectau Braenaru**

5.20 Os gofynnir iddo wneud hynny gan un neu ragor o'r Cyfranogwyr, bydd WEPCo yn datblygu cynigion ar gyfer gweithredu a chyflawni prosiectau newydd, gan gynnwys Prosiectau Braenaru, trwy'r Broses Gymeradwyo ar gyfer Prosiectau Newydd a nodir yn Atodlen 5 o'r SPA. Bydd WEPCo yn cynorthwyo

Cyfranogwyr i ddatblygu cynigion ar gyfer cyflawni prosiectau newydd, paratoi achos busnes amlinellol a chael yr holl ganiatâd a fynnir i fwrw ymlaen ag unrhyw gais am brosiect newydd gan Gyfranogwr.

5.21 Mae Atodlen 5 o'r SPA yn nodi'r weithdrefn sy'n fodd i WEPCo a'r Cyfranogwyr gydweithio i gytuno ar ba Brosiectau Newydd y byddir yn bwrw ymlaen â hwy ac yn eu cymeradwyo i'w datblygu gan WEPCo, ac ar ba sail y gwneir hynny. Mae Atodlen 5 yn nodi Proses Gymeradwyo dau gam ar gyfer Prosiectau Newydd o'r fath. Ni fydd y broses gymeradwyo ond yn berthnasol o ran Prosiectau Cymwys, heb ystyried p'un a yw'r cyfnod o ddeng (10) mlynedd o'r Dyddiad Cychwyn wedi dod i ben.

5.22 Bydd WEPCo yn gweithio gyda Chyfranogwyr i ddatblygu cynlluniau cyflawni lleol (sy'n mynd i'r afael â gofynion Cyfranogwyr) a fydd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Cyflawni Strategol (SDP) blynyddol. Bydd WEPCo wedyn yn adolygu addaster y SDP i ddarparu gwasanaethau addysg yn Rhanbarth y Cyfranogwr i benderfynu pa Brosiectau Newydd y dylid bwrw ymlaen â hwy. Bydd y BPS yn sicrhau bod cynigion WEPCo ar gyfer Prosiectau Newydd yn gyson â chyflawni'r SDP newydd.

5.23 Heb hawl i daliad penodol neu ychwanegol, bydd WEPCo yn gweithio gyda'r Cyfranogwyr ac aelodau eraill y BPS i ddadansoddi a thrafod yr ystod o opsiynau posibl o ran ariannu Prosiectau Newydd, yn ogystal â datblygu gofynion y Cyfranogwyr mewn perthynas â Phrosiectau Newydd.

5.24 Bydd WEPCo yn gorfod cwrdd â gofynion y Cyfranogwyr o ran cyflawni unrhyw brosiect newydd, gan gynnwys Prosiectau Braenaru. O ran awdurdod i fwrw ymlaen â chyflawni unrhyw brosiect newydd, gan gynnwys Prosiect Braenaru, a gwneud Cytundeb Prosiect, byddai angen cymeradwyaeth bellach gan y Cyngor a chyflwynir adroddiadau yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith eu penderfynu'n unol â hynny.

**Beth fydd yn digwydd os na cheir cymeradwyaeth erbyn Medi 2020?**

5.25 Anogir Awdurdodau Lleol a SAB yn gryf i ymrwymo i'r trefniadau gyda WEPCo drwy'r SPA, p'un a oes ganddynt Gynllun MIM ar waith ai peidio, gan fod WEPCo hefyd yn cynnig Gwasanaethau Partneriaeth yn ffurf Cymorth Strategol, sy'n gallu cynorthwyo Cyfranogwyr gyda chynllunio ystadau neu weithgareddau cysylltiedig.

5.26 Cydnabyddir y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i wneud SPA cyn i Lywodraeth Cymru benodi cynigydd a ffefrir. Fel y cyfryw, nid yw dogfen y SPA yn ei ffurf derfynol eto. Tra na ragwelir y bydd y SPA drafft yn newid yn sylweddol ar ôl cymeradwyo cynigydd a ffefrir, argymhellir y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 y Cyngor gytuno ar delerau terfynol y SPA, gan ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a gwneud unrhyw fân ddiwygiadau angenrheidiol iddo, pe bai eu hangen.

5.27 Pwrpas y SPA yw galluogi Cyfranogwyr i fwrw ymlaen â datblygu prosiect neu brosiectau yn defnyddio'r Broses Gymeradwyo ar gyfer Prosiectau Newydd o fewn y SPA, sy'n arwain at weithredu Cytundeb Prosiect. I fanteisio ar y broses honno, mae angen i Gyfranogwyr weithredu a chyfrannu at y SPA.

5.28 Tra bo mecanwaith o fewn y SPA a fydd yn caniatáu i'r Cyfranogwyr hynny (a enwir yn y OJEU) ymrwymo eu hunain ar ôl Medi 2020 drwy weithred ymlyniad (**DoA**), bydd hyn yn creu sawl cymhlethdod:

5.28.1 Lle bo Cyfranogwr yn arwyddo'r DoA, bydd hyn yn gofyn i bob parti presennol ail-weithredu'r SPA. Bydd hyn yn gofyn i bob Cyfranogwr wneud rhagor o benderfyniadau i ail-weithredu'r SPA, a fydd yn oedi cyflawni Prosiectau Braenaru.

5.28.2 Lle nad yw Cyfranogwr wedi ymrwymo i'r SPA erbyn y dyddiad terfynol ym Medi 2020, mae'n annhebygol y bydd ganddynt Brosiect Braenaru neu y cânt eu cynnwys yng Nghynllun Busnes Blynyddol cyntaf WEPCo. Bydd hyn yn achosi oedi o ran cyflawni unrhyw brosiect addysg.

5.28.3 Yn ôl y ddadl o ran yr amser sydd wedi mynd heibio, gall bod risg caffael yng nghyswllt gwneud y DoA, os na wneir y DoA o fewn 6 mis.

**Risg Posibl o ran Caffael**

5.29 Pe bai Cyfranogwr yn dewis peidio ag ymrwymo i'r SPA neu'r DoA, a'i fod wedyn eisiau cael mynediad i Wasanaethau Partneriaeth neu Wasanaethau Prosiect gan WEPCo yn y dyfodol, ni chaiff wneud hynny mewn modd diogel o ran caffael.

5.30 Yn yr un modd, o ran cyllid Band B Ysgolion a Cholegau 21ain Ganrif, pe bai Cyfranogwr yn dewis peidio ag arwyddo'r SPA neu'r DoA, ond ei fod wedyn eisiau defnyddio WEPCo i gyflawni prosiect a ariennir o Fand B (p'un a yw hynny'n gyllid cyfalaf neu refeniw) yn y dyfodol, ni chaiff wneud hynny ychwaith mewn modd diogel o ran caffael.

5.31 Er enghraifft, os yw Cyfranogwr yn diogelu cyllid Band B MIM, ymhellach i lawr o Lywodraeth Cymru, ar gyfer prosiect nad yw wedi'i ddynodi ar hyn o bryd, a bod angen iddo ddefnyddio WEPCo, ni chaiff wneud hynny mewn modd diogel o ran caffael os nad oedd wedi arwyddo'r SPA neu'r DoA. Mae gan WEPCo yr hawl unigryw i ddatblygu cynigion ar gyfer cyflawni prosiect o dan y Rhaglen MIM Band B Ysgolion a Cholegau 21ain Ganrif (Gwasanaethau Partneriaeth Datblygu Prosiect) o fewn 10 mlynedd cyntaf y SPA.

5.32 Argymhellir felly bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo gwneud y SPA fel y nodir yn yr adroddiad hwn i sicrhau y gellir cwblhau'r SPA yn yr Hydref yn ôl y bwriad, ac y gall y Cyngor ddefnyddio'r SPA o'r dyddiad y daw'n weithredol.

**Y Broses Gaffael**

5.33 Mae Llywodraeth Cymru'n wedi ymrwymo i broses dendro o dan weithdrefn deialog cystadleuol sy'n gweithio yn ôl yr amserlen gaffael isod yn Nhabl 1. Nod y weithdrefn deialog cystadleuol yw galluogi Llywodraeth Cymru, fel yr awdurdod contractio, i "ganfod datrysiad neu ddatrysiadau sy'n gallu diwallu ei hanghenion". Cafwyd deialog cynhwysfawr gyda bob un o'r Cynigwyr yn ystod y Broses Ddeialog.

5.34 Ar 14eg Chwefror 2020, derbyniwyd tri Chais Drafft. Fe'u hadolygwyd, ac anfonwyd sylwadau yn ôl ar y Ceisiadau Drafft a gyflwynwyd i lywio cam nesaf y deialog. Ar 20fed Chwefror, cynhaliwyd digwyddiad "Cwrdd â'r Cynigwyr" yng nghyfleusterau Yr Hafod yn CP2, a fynychwyd gan nifer o Gyfranogwyr a rhanddeiliaid eraill.

**Effaith Covid-19**

5.35 Roedd cam dwys terfynol y Deialog, o'r enw'r 'bŵt-camp', i fod i gychwyn yn Stadiwm Principality ar ddydd Llun 16eg Mawrth 2020. Ar 14eg Mawrth, roedd aelod o'r tîm craidd ac un o'r ymgynghorwyr wedi mynd yn wael â symptomau coronafeirws. O ganlyniad i ddigwyddiadau dilynol pandemig Covid-19, penderfynwyd oedi dechrau'r bŵt-camp i wneud trefniadau i'w gynnal o bell drwy Microsoft Teams neu ddulliau eraill o bell, lle bo angen. Yn dilyn pythefnos o weithgaredd ymgysylltu dwys o bell, a hynny gyda thri chynigydd ar wahân (a oedd yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau timau'r ceisiadau o leoliadau ledled Ewrop), am 18.30 ar 3ydd Ebrill 2020, llwyddodd Llywodraeth Cymru i Gau'r Deialog, gan wahodd Ceisiadau Terfynol yn unol â'r rhaglen gaffael wreiddiol.

5.36 Cyflwynodd y Cynigwyr eu Ceisiadau erbyn hanner dydd ar 27ain Ebrill 2020, a derbyniwyd Tendrau Terfynol oedd yn cydymffurfio â'r gofynion gan y tri chynigydd. Cynhelir cyfarfodydd gwerthuso o bell os bydd angen. Disgwylir y bydd y Cynigydd a Ddewiswyd yn cael ei benodi'n unol â'r amserlen a nodir isod.

*Tabl 1*

| **Mater** | **Dyddiad(au)** |
|---|---|
| Cyflwyno ITPDSB i Gynigwyr | 21 Hydref 2019 |
| Cychwyn Deialog â Chynigwyr | 28 Hydref 2019 |
| Seibiant Dros y Nadolig | 18 Rhagfyr 2019 - 5 Ionawr 2020 |
| Parhad Deialog gyda Chynigwyr | 6 Ionawr 2020 |
| Dychwelyd Cais Drafft | 17:00 ar 14 Chwefror 2020 |
| Toriad | 17 Chwefror 2020 - 13 Mawrth 2020 |
| Bŵt-camp | 16 Mawrth 2020 - 3 Ebrill 2020 |
| Cau'r Deialog | 3 Ebrill 2020 |
| Dychwelyd Ceisiadau | 12:00 ar 27 Ebrill 2020 |
| Gwerthuso Ceisiadau a chymeradwyaeth | 27 Ebrill 2020 - 3 Gorffennaf 2020 |
| Penodi Cynigydd a Ddewiswyd | 3 Gorffennaf 2020 |
| Cyfnod Segur | 4 Gorffennaf 2020 - 14 Gorffennaf 2020 |
| Yn dilyn ffurfio WEPCo, arwyddo Cytundeb Rhanddeiliaid WEPCo | Medi 2020 |
| Arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol | Medi 2020 |

## 6 YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

6.1 Mae cymeradwyaeth i wneud Cytundeb Partneriaeth Strategol (SPA) yn swyddogaeth gweithrediaeth sydd angen penderfyniad y Pwyllgor Gwaith.

6.2 I wneud y SPA y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad hwn, a chyfranogi ynddo, bydd y Cyngor yn dibynnu ar nifer o bwerau statudol:

6.2.1 y pwerau "llesiant" a gynhwysir yn adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000;

6.2.2 y pwerau a gynhwysir yn Neddfau Addysg 1996 a 2002;

6.2.3 darpariaethau "cysylltiedig" adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6.3 Mae'r pwerau llesiant a gynhwysir yn adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i'r Cyngor wneud unrhyw beth a ystyria sy'n debygol o gyflawni un neu ragor o'r amcanion a ganlyn -

(a) hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal;

(b) hyrwyddo neu wella llesiant cymdeithasol ei ardal; a

(c) hyrwyddo neu wella llesiant amgylcheddol ei ardal.

6.4 Wrth arfer y pŵer hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried y strategaeth gymunedol ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i'r Cyngor sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu hamcanion hirdymor, sy'n un o'r amcanion o fewn Cynllun y Cyngor 2017-2022.

6.5 Mae darpariaethau cysylltiedig adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r Cyngor wneud unrhyw beth (p'un a yw'n ymwneud â gwariant, benthyca neu gaffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawliau ai peidio) a gyfrifir i hwyluso neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau.

6.6 Bydd angen i'r rhaglen weithredu'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod fframwaith o saith nod i ddatblygu ac amddiffyn llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, ynghyd â phum dull o weithio i gyflawni datblygu cynaliadwy.

6.7 Nid yw gwneud SPA yn ymrwymo'r Cyngor mewn unrhyw fodd. Fodd Bynnag, bydd yn ofynnol i'r Cyngor benodi cynrychiolydd i weithredu ar ei ran mewn perthynas â'r SPA. O ran pwy yw'r cynrychiolydd, gall newid ar unrhyw adeg yn dilyn rhybudd ysgrifenedig i WEPCo a phob Cyfranogwr arall. Hefyd, gall pob cynrychiolydd, ar unrhyw adeg, drwy rybudd ysgrifenedig i WEPCo, awdurdodi eraill i arfer swyddogaethau a phwerau'r Cyngor.

6.8 Felly gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 i'w benodi'n 'Gynrychiolydd y Cyfranogwr' i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS).

6.9 Bydd y SPA yn cael ei gyflawni fel gweithred a'i ardystio yn unol ag Erthygl 14.5 o'r Cyfansoddiad.

6.10 Nodir, o ran cymeradwyaeth ffurfiol i fwrw ymlaen â chyflawni unrhyw brosiect newydd, ac i wneud dogfennaeth gyfreithiol gysylltiedig i hwyluso hynny, gan gynnwys Cytundeb Prosiect, byddai angen cymeradwyaeth bellach gan y Pwyllgor Gwaith.

**Sylwadau ar Gydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol**

6.11 Nid yw'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb, gan nad oes unrhyw ymrwymiad wedi'i wneud i gynllun MIM ar hyn o bryd. Ymgymerir ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar wahân pe bai'r cyngor yn canfod Prosiect MIM yn y dyfodol.

6.12 Fesul prosiect, bydd unrhyw gynigion yn cynnwys dogfennaeth briodol yng nghyswllt cydraddoldeb.

## 7 CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU STRATEGOL CORFFORAETHOL/CYFRANIAD AT GANLYNIADAU STRATEGOL

7.1 Byddai cymeradwyo'r argymhellion o ran yr adroddiad hwn yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor gyfranogi mewn prosiect MIM yn y dyfodol, pe bai'n dymuno gwneud hynny. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i'r Cyngor sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu hamcanion hirdymor, sy'n un o'r amcanion o fewn Cynllun y Cyngor 2017-2022.

**ATODIAD 2**

# WEP – MODEL CYFLWYNO PARTNERIAETH STRATEGOL

## CRYNODEB O'R CYTUNDEB PARTNERIAETH STRATEGOL

*Dogfen allanol yw hon – nid oes fersiwn Gymraeg ar gael ar hyn o bryd*

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Mehefin 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Diweddariad o ymateb y Cyngor hyd yma i'r argyfwng COVID -19** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr / J Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams3@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau Etholedig y Cyngor** |

| **A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>**A1** Dderbyn yr adroddiad ac ymateb y Cyngor i'r argyfwng hyd yma.<br><br>**A2** Gadarnhau y dylai'r UDA adrodd ar gynnydd ar faterion llacio'r datgloi a'r gwaith Adfer i'r ddau Fwrdd Rhaglen sefydlog. Yn ogystal, ymestyn aelodaeth y byrddau i gynnwys y 4 arweinydd grŵp.<br><br>**A3** Awdurdodi swyddogion i baratoi diweddariad ar y paratoadau a'r gwaith Adfer i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith. |

| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **Pwysigrwydd diweddaru'r Pwyllgor Gwaith yn sgil goblygiadau'r argyfwng ar waith y Cyngor.** |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| **Materion gweithredol mewn ymateb i'r argyfwng.** |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| **Ydi** |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|

| **Amherthnasol** |
|---|

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys | Mae effaith y pandemig yn eang ar draws Ynys Môn- trigolion,cymdeithas a'r economi, ac wedi effeithio yn uniongyrchol ar wasanaethau'r Cyngor/rhaglenni gwaith a pharhad busnes. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:- | Bydd angen delio gyda'r argyfwng am gyfnod amhenodol ynghyd â rhaglen waith cyfnod adfer. Mae hwn yn fater cenedlaethol a bydd angen eglurdeb ynghylch gwariant i'r dyfodol ac effaith hyn ar raglen strategol y Cyngor. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Mae'n bwysig bod penderfyniadau sy'n ymwneud â'r argyfwng a chamau lliniaru yn gyson gyda disgwyliadau rhanbarthol/cenedlaethol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae ei rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | |
| 5 | Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg | Wrth gynnal gwasanaethau allweddol hyd yma yn ystod yr argyfwng mae sicrhau mynediad i wasanaethau i bawb yn holl bwysig. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh)<br>(gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151<br>(gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro<br>(gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| |
|---|
| |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

1. Mae Covid-19 yn glefyd heintus sy'n effeithio ar dros 200 o wledydd ledled y byd[1]. Mae hyn yn cynnwys y Deyrnas Unedig.
2. Gwelwyd Llywodraethau Prydain a Chymru yn rhoi trefniadau cynllunio argyfwng brys ar waith i arwain yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig.
3. Mae'r strwythur llywodraethu cenedlaethol hwn wedi'i ailadrodd ar lefel ranbarthol yng Ngogledd Cymru a hefyd ar lefel awdurdod lleol gan Gyngor Sir Ynys Môn.
4. Rhoddwyd tîm argyfwng ar waith[2] i arwain a chydlynu ymateb y Cyngor i effeithiau'r feirws.
5. Mae cyfnod yr argyfwng wedi bod yn un heriol o ran ymateb yn effeithiol a diogel.
6. Gwelwyd gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer yr ymchwydd lleol canol mis Mai, 2020 ar sail y modelu cenedlaethol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.
7. Hyd yma nid yw'r niferoedd o achosion lleol ac ar draws y rhanbarth wedi bod mor uchel â'r hyn oedd yn cael ei ddarogan, fodd bynnag mae risg o ymchwydd pellach yn ddiweddarach eleni.
8. Yn lleol, rydym wedi blaenoriaethu'r meysydd canlynol:
    a) Gwarchod a diogelu gweithlu'r Cyngor
    b) Sicrhau cyflenwad PPE digonol a safonol
    c) Gwarchod a chefnogi unigolion bregus a phlant gweithwyr allweddol
    d) Dehongli a gweithredu cyfarwyddiadau cenedlaethol
    e) Cynnal gwasanaethau statudol rheng flaen
    f) Gweithredu gwasanaethau newydd mewn ymateb yn uniongyrchol i'r argyfwng
    g) Cynllunio ar gyfer nifer sylweddol o farwolaethau
    h) Gweinyddu grantiau cenedlaethol ee cefnogi busnesau; taliadau uniongyrchol cinio ysgol am ddim
    i) Addasu'r gweithlu mewn cyfnod byr a chreu'r amodau ar gyfer ffyrdd gwahanol o weithio
    j) Peilota'r system 'Profi ac Olrhain'
    k) Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn amserol a rheolaidd, yn fewnol ac allanol
    l) Cydweithio'n effeithiol yn lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol.

Rhaid hefyd pwysleisio bod gwaith dydd i ddydd wedi parhau yn ystod cyfnod yr argyfwng ar draws sawl Gwasanaeth, ond bod y dull o weithio wedi cael ei addasu er mwyn cadw'r gweithlu a thrigolion yr Ynys yn ddiogel.

**Mae'r sefyllfa'n parhau i newid yn ddyddiol, ond mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yma'n gywir ar ddiwrnod ei gwblhau (8 Mehefin 2020).**

---

[1] Nododd Sefydliad Iechyd y Byd fod gan 207 o wledydd, ardaloedd neu diriogaethau achosion ar 03/04/2020
[2] Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng (EMRT) a sefydlwyd ar 18 Mawrth, 2020

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd bod Prydain yn mynd i gyfnod o gyfyngiadau cymdeithasol ar 23 Mawrth gan Brif Weinidog Prydain. Adolygwyd y trefniadau hyn gan y Prif Weinidog Prydain ar 16 Ebrill,10 Mai a 28 Mai. Ar 29 Mai, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fesurau i lacio rhywfaint ar y trefniadau presennol gan ganiatáu pobl o ddau gartref gwahanol i gyfarfod y tu allan yn lleol.

1.2 Mae delio gyda'r argyfwng Covid -19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor – nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau allweddol rheng flaen a chynnal busnes arferol lle bo'n bosib, ond hefyd i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn eu lle i ddiogelu staff yr awdurdod tra'n darparu gwasanaethau. O ran parhad busnes, mae'r Arweinydd wedi gweithredu ei phwerau i wneud penderfyniadau gweithredol ers dechrau'r argyfwng. Ers 17 Mawrth mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi gweithredu pwerau brys yn ystod yr argyfwng yn unol â'r Cyfansoddiad. Gweler y linc isod:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Penderfyniadau-Gweithredol-a-wnaed-gan-y-Deilydd-Portffolio-Swyddogion-ac-Arweinydd-y-Cyngor/Ebrill-2020.aspx

1.3 Mae effaith yr argyfwng presennol yn bellgyrhaeddol i drigolion, cymdeithas ac economi'r ynys. Mae wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau gyda'i raglen waith strategol o foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau ac mae angen eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr effaith ar sefyllfa gyllidol awdurdodau lleol yn y tymor byr, canolig, a hir. Rhagwelir y bydd delio ag effeithiau'r argyfwng, y camau llacio tebygol, a'r cyfnod adferiad dilynol yn flaenoriaeth i'r Cyngor a phartneriaid allweddol am gryn amser i dod. Rhaid cofio hefyd ar adeg paratoi'r adroddiad hwn am lefelau Covid -19 positif ar yr ynys sy'n parhau i godi, a bod prosesau profi wedi'u ehangu. Ar sail gwaith modelu gwreiddiol ar gyfer y rhanbarth, rhagwelwyd ein bod ar hyn o bryd yn nghanol cyfnod brig yr ymchwydd. Serch hyn mae modelu diweddaraf yn rhagdybio darlun ychydig yn well yn gyffredinol nag y'i ragdybiwyd yn wreiddiol am y cyfnod hwn ond rhaid pwysleisio bod posibilrwydd o ail ymchwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan bod angen asesu effaith mesurau llacio ar y modelu.

**1.4 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Pwyllgor Gwaith o'r trefniadau llywodraethu y rhoddwyd yn eu lle i ymateb i'r argyfwng; amlinelliad ar lefel gwasanaeth o'r prif gamau gweithredu a gymerwyd hyd yma, ac yn olaf ffocws ar y cyfnod nesaf o ddysgu a sefydlu'r normal newydd (fel awdurdod ac Ynys), trwy'r cyfnod adfer.**

1.5 Mae rhan nesaf yr adroddiad yn crynhoi'r trefniadau cenedlaethol; strwythurau rhanbarthol dan Fforwm Cydnerth Gogledd Cymru a'r strwythur llywodraethu i ymateb i'r argyfwng yn lleol gan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan llawn yn cydweithio a gweithredu'n gyson â'r strwythurau rhanbarthol ar weithredoedd a gytunwyd. Mae systemau, cefnogaeth, a gwytnwch darpariaeth technoleg gwybodaeth y Cyngor wedi bod yn hollol hanfodol i alluogi'r gwaith addasu a pharhau yn ddiogel ac effeithiol. Bydd sawl gwers ac ymarfer da yma i'w ystyried ar gyfer y dyfodol.

## 2.0 Trefniadau Llywodraethu

**2.1** Mae sawl elfen i hyn ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth ymdrin â'r argyfwng a rhannu gwybodaeth:

**Cenedlaethol**

- Cyfarfodydd COBRA – rheoli'r argyfwng ar draws y Deyrnas Unedig
- (Llywodraeth Cymru- arweiniad i Gynghorau (Rheoliadau a Chanllawiau)
- Cyfarfodydd wythnosol- Arweinyddion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.
- Cyfarfodydd Arweinyddion y Gogledd wythnosol.
- Gwybodaeth ddyddiol gan Lywodraeth Cymru a CLILC.
- Cyfarfodydd wythnosol Prif Weithredwyr ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.
- Mae'r Arweinydd/Swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn yn diweddaru ac yn adrodd yn ôl i'r EMRT yn ddyddiol.

**Rhanbarthol**

Ar lefel rhanbarthol hefyd mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o sawl fforwm cynllunio/ymateb a rhannu gwybodaeth**:**

- Mae Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru wedi sefydlu Grŵp cyd-gysylltu Strategol Rhanbarthol **(SCG)** sy'n cynllunio ymateb y rhanbarth ar sail senario gwaethaf posibl yn erbyn modelu iechyd.

- Mae Grŵp Tactegol rhanbarthol **(TCG)** yn adrodd i'r SCG yn canolbwyntio ar faterion gweithredol e.e cyflenwadau PPE. Mae nifer o is grwpiau yn adrodd i'r TCG - iechyd a gofal, cynllunio ar gyfer ysbyty maes; marwolaethau uchel, cymuned a chymorth partneriaid, cyfathrebu a'r wasg.

- Swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol yn adrodd yn ôl i'r EMRT yn rheolaidd.

Bu rhaid i''r awdurdod sefydlu trefniant llywodraethu newydd ar frys o ganlyniad i'r argyfwng. Fe roddi'r trosolwg o sut mae gweithgareddau'r awdurdod wedi cael eu rheoli isod:

**Strwythur Ymateb y Cyngor**

- Cyfarfodydd dyddiol Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) yn cynnwys yr Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn cyfarfod yn ffurfiol ers y 18ed Mawrth.

- Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am gydlynu ymateb y Cyngor i argyfwng y Coronafeirws; yn trafod cynnal gwasanaethau allweddol, gweithgareddau newydd, cynllunio'r gweithlu, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, ac iechyd a diogelwch.

- Pwrpas y Tîm Rheoli yw ***"arwain a chydlynu camau gweithredu i ddiogelu'r gweithlu a thrigolion, tra'n cydweithio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol a newydd (neu wedi cynyddu) mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID – 19".***

- Uwch Swyddogion yn gweithredu fel Uwch Swyddogion Cyfrifol gyda meysydd penodol.

- Egwyddorion craidd ar gyfer gweithredu gan gynnwys iechyd a diogelwch staff, cynnal gwasanaethau allweddol, a defnyddio'r gweithlu- cyfarfodydd dyddiol.

- Rhaglen waith wythnosol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n wythnosol.

- Monitro gweithredoedd yr EMRT yn wythnosol drwy system 4action.

- Adroddiad Sefyllfa dyddiol (sit rep) yn cael ei baratoi ynghyd â fersiwn wythnosol i'r SCG rhanbarthol.

- Casglu a monitro data staff yn ddyddiol i bwrpas cynllunio'r gweithlu ac adleoli staff.

- **Trefniadau Gweithio o Bell** - Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu technoleg newydd i ymateb i'r argyfwng ac yn gweithio o bell drwy ddefnyddio Microsoft Teams ble'n bosib.

- Mae dangosfwrdd data allweddol wedi cael ei ddatblygu – e.e sefyllfa Covid-19 ar yr Ynys, PPE, ysgolion a staffio dyddiol.

**<u>Is-grwpiau</u>**

- Yn eistedd o dan y Tîm Rheoli (EMRT) mae is-grwpiau penodol ar lefel leol sy'n cyd-fynd â'r meysydd risg; PPE, Cymuned, Marwolaethau Uchel, Cynllunio ar gyfer yr Ymchwydd a Pharatoi Asesiadau Effaith (cynnal gwasanaethau allweddol rheng flaen), Iechyd a Diogelwch – Cynllunio ar gyfer y cyfnod adfer o ran defnydd adeiladau. Tracio ac olrhain – cynllun peilot.

**<u>Cofrestr Risg</u>**

- Mae Cofrestr Risg Covid-19 yn ei lle- mae'n cael ei diweddaru'n wythnosol gan yr EMRT. Mae'n bwysig i broffilio a chysoni gwybodaeth risgiau yn yr adroddiad sefyllfa dyddiol a chyfeirio risgiau ymlaen ar lefel rhanbarthol/Cymru.

- Defnyddir y Gofrestr Risg i flaenoriaethu amser, ymdrech ac adnoddau er mwyn lleihau'r effaith leol.

**3.0 Trosolwg o ymateb ar lefel Gwasnaeth**

Ceir amlinelliad o ymateb gwasanethau'r Cyngor hyd yma i'r argyfwng yn Atodiad 1. Mae'r sefyllfa yn parhau i newid yn ddyddiol.

**4.0 Effaith ariannol**

4.1 Mae effaith y pandemig wedi cael dylanwad uniongyrchol ar gyllid y Cyngor ond bydd hefyd yn cael effaith am gyfnod sylweddol yn y dyfodol. Yn y tymor byr, mae'r Cyngor wedi dioddef cost ychwanegol o ddelio â'r pandemig (£52k ym Mawrth a £279k yn Ebrill). Mae'r costau hyn yn cynnwys costau TG ychwanegol er mwyn galluogi pobl i weithio o adref, prynu PPE ychwanegol, lletya pobl digartref, darparu cymorth cymunedol, sefydlu'r Canolfannau Gofal mewn Ysgolion, talu teuluoedd yn lle prydau ysgol am ddim, costau glanhau uwch. Bydd y pethau hyn yn cael eu talu amdanynt gan Lywodraeth Cymru ond disgwylir y bydd y

costau yn parhau i gynyddu ym Mai a Mehefin gyda'r Cyngor yn gwneud taliadau ychwanegol i gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio preifat ac o ganlyniad i'r nifer cynyddol o blant sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn lle prydau ysgol am ddim.

4.2 Mae cau gwasanaethau wedi lleihau lefel incwm y Cyngor gyda £360k wedi ei golli ym mis Ebrill a disgwylir y bydd hyn yn codi i tua £400k y mis yn ystod misoedd yr haf. Mae'r prif ffynonellau incwm a gollwyd yn cynnwys ffioedd canolfannau hamdden, incwm prydau ysgol, incwm meysydd parcio, ffioedd cynllunio ac ati. Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith beidio â chodi rhent ar ddeiliaid Unedau Diwydiannol ac Eiddo Amrywiol ac i beidio â chodi ffioedd angori am y 3 mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol. Wrth i'r argyfwng barhau mae lefel yr incwm sy'n cael ei golli yn parhau i godi ac os na fydd gwasanaethau yn mynd yn ôl i'r arfer yn ystod 2020/21 bydd yr incwm a gollwyd yn filiynau o bunnoedd. Er bod lefel yr incwm sy'n cael ei golli gan y Cyngor yn sylweddol, nid yw mor uchel ag yn rhai Cynghorau eraill yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd yr incwm a gollwyd yn cael effaith sylweddol ar Gynghorau Cymru ac maent wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol er nad ydynt eto wedi cytuno sut y bydd y cyllid hwnnw'n cael ei ddosbarthu rhwng y 22 awdurdod.

4.3 Mae cau gwasanaethau wedi golygu gostyngiad yng ngwariant yr awdurdod ar gyfer mis Ebrill ac amcangyfrifwyd bod yr arbediad hwn tua £100k. Y prif feysydd lle'r oedd gwariant wedi lleihau oedd o ran costau fflyd a thalu costau teithio, taliadau is i'r prif gontractwyr (prydau ysgol, gweithredwyr bysiau, cynnal a chadw ffyrdd) costau ynni llai mewn canolfannau hamdden a chostau gweinyddol is mewn swyddfeydd (papur, llungopïo ac ati).

4.4 Gan edrych ychydig ymhellach ymlaen, mae'r pandemig yn amlwg wedi cael effaith ar yr economi a bydd yn achosi mwy o ddiweithdra. Wrth i nifer y bobl di-waith gynyddu, bydd y Cyngor yn derbyn mwy o geisiadau drwy'r Cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb bresennol yn £6m ac er bod cyfran fawr o hwn wedi'i ariannu drwy'r RSG bydd unrhyw gynnydd yn disgyn ar y Cyngor i'w ariannu oni bai fod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae'r cynnydd yn nifer yr hawliadau yn isel gyda chynnydd o ddim ond 0.7% mewn achosion rhwng 31 Mawrth 2020 a 8 Mai 2020. Fodd bynnag, mae hwn yn debygol o gynyddu'n sylweddol unwaith y bydd y cynllun furlough yn dod i ben a phan fydd yn rhaid i fusnesau benderfynu a ddylid parhau i gyflogi staff ynteu eu diswyddo.

4.5 Hyd yma, mae lefel y Dreth Gyngor a gasglwyd yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi anfon unrhyw lythyrau atgoffa na wedi dechrau camau cyfreithiol o ran unrhyw ddyledion na dalwyd ym mlwyddyn ariannol 2020/21. Fel arfer, bydd y prosesau hyn yn creu ymateb gan drethdalwyr a bydd incwm ychwanegol yn dod i mewn ar ôl i rai o'r prosesau hyn ddechrau. Gan nad oes unrhyw waith adfer wedi ei ymgymryd ag ef, rhagwelir y bydd y lefel o incwm a dderbynnir yn is na'r blynyddoedd blaenorol wrth i ni symud i fisoedd yr haf. Rhagwelir hefyd y bydd mwy o bobl yn mynd i drafferthion ariannol ac yn y pen draw yn cael gorchmynion rhyddhau o ddyled neu'n mynd yn fethdalwyr. Bydd hyn yn cynyddu gwerth y dyledion a fydd yn cael eu dileu ond mae hyn yn annhebygol o effeithio ar gyfrifon y Cyngor tan 2021/22.

**5.0 Trefniadau Democrataidd**

5.1 Mae Aelodau eisoes wedi cael eu briffio ar y Ddeddf Coronafeirws a'i goblygiadau o ran rhwymedigaethau statudol y Cyngor. Mewn perthynas â chyfarfodydd Pwyllgor, ni fu'n bosibl cynnal busnes yn ôl yr arfer. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd, tra'n caniatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd o bell ar gyfer unrhyw gyfarfodydd gofynnol. Yng nghyd-destun y darpariaethau newydd hyn y mae'r Cyngor wedi adolygu amserlen reolaidd y Pwyllgor a pharatoi "Strategaeth ar gyfer

Cyfarfodydd y Pwyllgor" a gymeradwywyd gan arweinwyr y grwpiau ar 12 Mai 2020. Mae hwn yn cynnwys pa waith hanfodol fydd yn cael blaenoriaeth mewn pwyllgorau. Gweler Atodiad 2.

5.2 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ‘o bell’ y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 20 Mai gan ddefnyddio Microsoft Teams ac mae recordiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor: https://ynysmon.public-i.tv/core/portal/webcasts. Cynhaliwyd y cyfarfod yn llwyddiannus – mae'r Aelodau a'r swyddogion wedi addasu'n gyflym i ddefnyddio Microsoft Teams a chydnabyddir fod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol gan arwain at y drefn newydd o weithio – y normal newydd. Mae’r gwaith o ddysgu a phrofi dulliau ar gyfer cynnal cyfarfod o bell yn parhau gan gynnwys y ffrydio byw a gwasanaeth cyfieithu.

5.3 Mae bwriad i newid yn ôl yn raddol i gynnal rhai cyfarfodydd o bell yn y tymor byr - cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Gwaith a Chynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor llawn ym mis Medi (i gynnwys Cyfarfod Blynyddol). Fodd bynnag, bydd angen i'r trefniadau gael eu hadolygu'n fisol gan arweinwyr y grwpiau yng ngoleuni'r amgylchiadau ar y pryd ac mae’n bosibl y bydd angen eu haddasu.

**6.0 Rhannu Gwybodaeth**

Mae rhannu a diweddaru gwybodaeth yn elfen allweddol mewn argyfwng – er mwyn dylanwadu a sicrhau gwybodaeth amserol i’r cyhoedd yn arbennig rhai bregus. Mae wedi bod yn gyfnod heriol o ran ymateb, dehongli gwybodaeth a gweithredu rheoliadau niferus. Mae wedi bod yn gwbl allweddol cyfathrebu’r wybodaeth ddiweddaraf i’r cyhoedd o ran e.e rhwydweithiau rhannu bwyd i rai bregus a chymorth grantiau i’r sector busnes. Sefydlwyd y trefniadau canlynol er mwyn sicrhau llif gwybodaeth, briffio Aelodau a gwybodaeth i drigolion Ynys Môn:

- Diweddariad dyddiol ar gyfer staff ac Aelodau gan y Prif Weithredwr (e-bost).
- Bwletin rheolwyr wythnosol a bwletin llesiant wythnosol i staff
- Cyfarfodydd wythnosol dydd Mawrth a dydd Iau ar gyfer Arweinyddion Grwpiau.
- Cofnodion a chais i bob arweinydd rannu gwybodaeth i’w grwpiau
- Diweddariad dyddiol gan y WLGA i Aelodau yn cael ei gylchredeg (e-bost).
- Cyfarfodydd briffio wythnosol – Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad.
- Cyfarfodydd wythnosol – Cadeirydd BIPBC.
- Cyswllt rheolaidd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rhannu gwybodaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned trwy e-bost.
- Pwyslais ar sicrhau bod y wefan y gyfredol ar gyfer y cyhoedd- adran benodol i rannu gwybodaeth am y Covid-19.
- Defnydd helaeth o Teams i ddiweddaru gwybodaeth i’r EMRT gan gynnwys llyfrgell gwybodaeth am yr holl reoliadau/canllawiau.
- Defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu gwybodaeth a negeseuon allweddol.

- Diweddariadau bob nos ar ymateb y Cyngor i'r argyfwng ar Mon FM

- Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

- Datganiadau wasg rheolaidd.

- Cydnabod a diolch am ymroddiad, gwaith staff a phartneriaid allweddol yn rheolaidd.

**7.0 Y Cyfnodau Llacio ac Adfer**

7.1 Rhagwelir cyfnod sylweddol o amser ble bydd cyfnodau gwahanol o lacio wrth symud tuag at y 'normal nesaf' mewn dull diogel a doeth. Bydd yr amseru, cyflymder (neu arafwch), a natur y llacio'n cael ei yrru gan gyfarwyddiadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd rôl y Cyngor yn newid eto, wrth baratoi, cefnogi, rheoli, a gorfodi. Fe fydd y cyfnod llacio'n ansicr a heriol, a bydd angen gweithredu'n ddoeth a thrylwyr er mwyn osgoi ymchwydd pellach tuag at ddiwedd y flwyddyn (neu'n gynharach).

7.2 Bydd sawl maes o waith y Cyngor angen sylw wrth symud trwy'r cyfnodau llacio. Wrth addasu a newid y dull o wasanaethu, bydd angen egwyddorion cadarn (a fydd yn blaenoriaethu diogelwch), ynghyd ag asesiadau risg ac effaith fydd yn adnabod ble a sut i lacio'n effeithiol a diogel. Mae'r gwaith yma eisoes wedi dechrau yn edrych ar leoliadau gwaith gwahanol.

Ar 24 Ebrill 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru: Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad. https://llyw.cymru/arwain-cymru-allan-or-pandemig-coronafeirws . Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar dri philer:

- Mesurau a thystiolaeth i farnu'r lefelau haint presennol a chyfraddau trosglwyddo coronafeirws yng Nghymru
- Egwyddorion ar gyfer llacio'r cyfyngiadau yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach
- System ar gyfer cadw golwg ar iechyd y cyhoedd ac ymateb i'r sefyllfa, i allu olrhain y feirws drwy Gymru
- 

7.2 Ar 15 Mai, ategwyd hyn drwy gyhoeddi 'Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: cyhoeddi map ffordd Cymru'. https://llyw.cymru/llacior-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-an-heconomi-cyhoeddi-map-ffordd-cymru. Yn y ddogfen hon amlinellwyd dull Llywodraeth Cymru o ddatgloi a defnyddio system goleuadau traffig ar draws Cymru. Bydd yn berthnasol i:

- Ailagor ysgolion a chyfleusterau gofal plant
- Gweld teulu a ffrindiau
- Teithio yma ac acw
- Chwarae gemau chwaraeon ac ymlacio
- Gweithio neu gynnal busnes
- Siopa
- Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus
- Ymarfer ffydd ac achlysuron arbennig

7.3 Fodd bynnag, mae Prif Weinidog Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol i ni gydnabod nad argyfwng tymor byr mo hwn. Mae'n debygol, hyd nes y ceir brechlyn neu

driniaethau effeithiol, y bydd yn rhaid i ni fyw gyda'r clefyd yn ein cymdeithas a cheisio rheoli ei ymlediad a lliniaru ei effeithiau.

7.4 At hynny, wrth i ni ragweld y posibilrwydd o ail don o'r feirws yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar sail modelu presennol (gyda phwysau ychwanegol y gaeaf) bydd angen adlewyrchu hyn mewn cynlluniau argyfwng sifil.

7.5 Mae'r Grŵp Cydgysylltu Strategol (SCG) wedi cydnabod nad yw'r broses o bontio rhwng yr argyfwng presennol a rheoli'r normal newydd yn rhywbeth y mae ateb cyflym iddo, a bydd angen trefn gyfochrog am gyfnod eithaf sylweddol a fydd yn cyd-fynd â strategaethau Llywodraeth Cymru a Prydain. Yn ei gyfarfod ar 27 Mai 2020 fe gymeradwyodd Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru y dylid sefydlu Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol gyda'r nod o baratoi strategaeth adfer rhanbarthol gan ddefnyddio strwythurau rhanbarthol presennol i gyflawni'r gwaith adferol. Byddai hyn yn cynnwys swyddogaethau'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol yn atebol i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.

7.6 O ystyried natur y pandemig Covid-19, a'i effeithiau, bydd y strategaeth adferiad yn canolbwyntio ar y meysydd strategol canlynol:

- Iechyd, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol
- Gwydnwch cymunedol, bregusrwydd ac unigedd, lles a thlodi
- Economi a busnes

**8.0 Ail gydbwyso'r Cyngor - Argyfwng, Busnes Arferol ac Adferiad**

8.1 Mae'n amlwg y bydd angen i flaenoriaethau'r Cyngor yn y tymor byr barhau i ganolbwyntio ar 3 maes allweddol:

- Parhau i ganolbwyntio ar reoli effaith y pandemig Covid-19
- Cynnal busnes yn ôl yr arfer orau y gallwn.
- Rheoli'r cyfnod datgloi, paratoi a gweithredu cynlluniau adfer.

8.2 Bydd rheoli'r normal newydd yn ffocws allweddol i'r Cyngor a bydd angen cysondeb rhwng ymyriadau lleol â blaenoriaethau rhanbarthol/cenedlaethol. Bydd rhaid hefyd adnabod y gwersi ac ymarfer da sydd wedi dod allan o'r argyfwng er mwyn eu gwreiddio yn y ffordd newydd o weithio er mwyn bod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae rhaglen waith ar gyfer adfer yn cael ei datblygu gan gynnwys y defnydd diogel o eiddo'r Cyngor yn ystod llacio cyfyngiadau.

8.3 Argymhellir bod yr Uwch Dîm Arwain yn adrodd ar gynnydd i'r ddau Fwrdd Rhaglen sefydlog a bod aelodaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys Arweinwyr Grwpiau er mwyn cryfhau atebolrwydd.

8.4 O ran busnes arferol yn ystod cyfnod yr argyfwng, sefydlwyd trefniadau i bob Pennaeth Gwasanaeth ddiweddaru rhaglenni gwaith yn fisol i bwrpas monitro gan yr UDA / Penaethiaid Gwasanaeth. Mae sawl maes gwaith wedi'i addasu er mwyn gweithredu'n ddiogel ac effeithiol, tra bod eraill wedi'u hatal am y tro oherwydd y peryglon i staff a defnyddwyr.

**Atodiad 1**

| Gwasanaethau Cymdeithasol |
|---|
| **Diweddariad ar Gynnydd** |
| • **PPE** – Bu'r gallu i gael cyflenwad digonol o offer PPE i'r safon angenrheidiol yn her sylweddol yn genedlaethol a hefyd yn lleol yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig. Rydym bellach yn defnyddio PPE ar lefel 3 gan fod lefelau cyflenwi wedi gwella. Mae ansawdd, digonolrwydd a dibynadwyedd yn parhau i fod yn fater o bryder yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bu sawl swyddog ar draws yr awdurdod yn cefnogi'r ymdrechion PPE.<br>• **Profi**- Mae diffyg gallu i brofi wedi bod yn her eithriadol, ond bellach mae proses gadarn yn ei lle i dderbyn cyfeiriadau ar gyfer profi gweithwyr allweddol.<br>• **Cartrefi Gofal-** Mae proses o gasglu data ar nifer yr achosion mewn cartrefi gofal yn bodoli, ac mae mesurau mewn lle ar gyfer cyfyngu ar ledaeniad y firws.<br>• Un o risgiau'r Cyngor yw gallu i staffio'r cartrefi gofal wrth i niferoedd o achosion gynyddu'n gyffredinol. Mae trefniadau yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn cael cynllun wrth gefn i liniaru sefyllfa o fethiant i staffio'n ddigonol.<br>• **Llythyrau cysgodi**- tracio ac ymateb i i lythyrau cysgodi, cyfanswm o 3398 o lythyrau, ac wedi llwyddo i gysylltu â 3292 ohonynt i gynnig cefnogaeth, gyda threfniadau yn eu lle i ymweld wyneb yn wyneb â'r rhai na lwyddwyd i gysylltu â nhw. Bydd y ffrwd gwaith hwn yn parhau yn unol â disgwyliadau cenedlaethol.<br>• **Cefnogi Teuluoedd Bregus** – Mae'r gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad â phlant bregus dros y cyfnod, ac wedi dosbarthu pecynnau gweithgareddau a lles i'r plant. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cefnogi rhieni sy'n ei chael yn anodd yn ystod y cyfnod, ac wedi bod mewn cyswllt rheolaidd â nhw. Er hyn, mae pryder bod nifer isel o gyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae'r cyfeiriadau'n cael eu monitro'n ddyddiol, a gweithredwyd yr ymgyrch "Llygaid a Chlustiau" mewn ymateb i hyn.<br>• Rhoi gweithdrefnau Diogelu dros dro ar waith yn ystod wythnos 2 yn nodi'r safonau ymarfer.<br>• Parhau i fodloni'r holl Ddyletswyddau Statudol a'r Dangosyddion Perfformiad a'r Data.<br>• Gweithio a herio partneriaid mewn modd priodol pan fo angen.<br>• Derbyn adroddiadau manwl rheolaidd gan bob maes gwasanaeth – manylion gweithgareddau achosion, thema a llesiant staff. |

- Cynllunio ar gyfer ymchwydd posibl yn niferoedd yr atgyfeiriadau dros y misoedd i ddod.

**Themâu wrth Symud Ymlaen**

1. Pwyslais yn parhau ar ymateb i lythyrau cysgodi ychwanegol a chysylltu â'r unigolion hyn.
2. Parhau i weithredu'r trefniadau profi a chasglu canlyniadau.
3. Ffocws parhaus ar fodelu capasiti a staffio mewn cartrefi gofal.
4. Mynd i'r afael â gostyngiad yn nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant.

**Addysg**

**Diweddariad ar Gynnydd**

Caewyd adeiladau ysgolion Môn ar 20 Mawrth, ac ers hynny mae addysgu plant a phobl ifanc wedi parhau o bell, gyda gwaith sylweddol wedi'i wneud o ran cefnogi penaethiaid a'u diweddaru am y sefyllfa yn rheolaidd.

Drwy gydweithio effeithiol rhwng y Cyngor a'r ysgolion (cyfarfodydd rheolaidd gyda Fforymau Strategol Penaethiaid) llwyddwyd i:

**Sefydlu canolfannau gofal** ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant bregus ym mhob dalgylch, gyda model hyblyg yn ymateb i ofynion lleol yn weithredol – 8am–5pm, 5 diwrnod yr wythnos a darpariaeth dros y penwythnos pe byddai angen;

**Darparu a danfon pecyn bwyd** i blant sy'n deilwng i dderbyn cinio ysgol am ddim – hyn wedi esblygu gyda'r mwyafrif o deuluoedd bellach yn derbyn taliad uniongyrchol o £19.50 yr wythnos i gyfrif banc – y gweddill yn parhau i dderbyn pecyn bwyd;

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yr ynys yn cael eu **haddysgu o bell** gan ddefnyddio amryw o lwyfannau digidol gyda gofynion a chanllawiau clir wedi eu cytuno o ran elfennau diogelu;

Cytuno ar **ffordd effeithiol o weithredu** rhwng y Gwasanaeth Dysgu, y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, y Tîm Plant a rhanddeiliaid mewn ysgolion er mwyn sicrhau ein bod yn cadw cyswllt rheolaidd gyda'r plant bregus, gan roi ffocws penodol i elfennau lles a lles meddyliol;

**Diweddaru a chadw cyswllt** gyda'n rhanddeiliaid allweddol, e.e. Llywodraeth Cymru, Estyn, GwE, undebau, a llywodraethwyr;

**Dechrau cynllunio ar gyfer "ail-agor ysgolion**" yn unol ag arweiniad a chanllawiau Llywodraeth Cymru - mae grŵp gweithredol rhanbarthol ac is-grŵp lleol yn weithredol.

**Themâu Wrth Symud Ymlaen**

| |
|---|
| Pwyslais parhaus ar y meysydd canlynol:<br>1. Lles plant a phobl ifanc<br>2. Y gweithlu gan gynnwys lles yn gyffredinol<br>3. Darpariaeth ar gyfer disgyblion a theuluoedd bregus - gan gynnys Prydau ysgol am ddim/taliadau uniongyrchol<br>4. Parhad dysgu a chynllunio addysgu o bell effeithiol<br>5. Cynllunio a modelu ar gyfer "ailagor adeiladau ysgolion"<br>6. Cyfathrebu yn effeithiol gyda rhanddeiliaid. |

| **Gwasanaeth Tai** |
|---|
| **Diweddariad ar Gynnydd** |
| **Gwaith Cynnal a Chadw**- Gohiriwyd yr holl waith cynnal a chadw ar ddechrau'r pandemig, ond mae'r gwasanaeth bellach wedi ailgydio yn y trefniadau gwaith cynnal a chadw brys gan ddilyn y Canllawiau a'r Rheoliadau cenedlaethol.<br>**Cefnogi unigolion bregus yn y gymuned**- Mae'r gwasanaeth wedi darparu cefnogaeth i unigolion bregus yn y gymuned drwy gyfrwng y banciau bwyd, darparu gwasanaeth siopa a chasglu presgripsiynau i unigolion sy'n cysgodi, a chysylltu ag unigolion sy'n byw ar eu pen eu hunain. Sefydlwyd dau fanc bwyd newydd mewn ymateb i'r galw cynyddol. Mae rhwydwaith o 595 o wirfoddolwyr sy'n gweithredu mewn 36 tîm ar draws yr ynys, sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn o ddarparu cefnogaeth gymunedol. Mae dull llywodraethiant a monitro effeithiol wedi ei greu, mewn partneriaeth gyda Menter Môn a Medrwn Môn.<br>**Cefnogi'r Digartref-** Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y digartref, ac mae'r gwasanaeth wedi mynd ati'n rhagweithiol i'w cefnogi drwy eu lleoli mewn llety argyfwng, a drwy gyflwyno cabanau ar gyfer unigolion digartref ar safle Plas Penlan.<br>**Diogelwch Cymunedol**- Adroddiadau wythnosol yn cael eu paratoi; adroddiad Cynhwysiad Cymunedol sy'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod trefniadau cadarn yn eu lle yn y maes hwn, ac adroddiadau monitro tensiwn. Mae'r Tîm wedi gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn datrys ac osgoi unrhyw densiynau lleol sydd wedi bod yn waith hanfodol yn ystod yr argyfwng wrth i'r achosion gynyddu'n sylweddol. |
| **Themâu wrth Symud Ymlaen** |
| 1. Pryder parhaus bod gostyngiad o 25% yn nifer y cyfeiriadau trais yn y cartref dros yr wythnosau diwethaf, cydweithio gyda Gorwel, a Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin â hyn<br>2. Parhau â'r trefniadau rhwydwaith o wirfoddolwyr i gefnogi unigolion bregus.<br>3. Parhau i ddatblygu darpariaeth i gefnogi unigolion digartref yn ystod y pandemig. |

| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| --- |
| **Diweddariad ar Gynnydd** |
| **Trefniadau Gwastraff**- Gwaith o flaenoriaethu'r gwasanaethau mwyaf hanfodol mewn ymgynghoriad â Biffa, a phenderfyniad i barhau i gasglu gwastraff domestig ar lefel arferol heblaw am gasglu gwastraff swmpus a chyfnewid biniau wedi'u difrodi, ac adleolwyd staff er mwyn cyflawni hyn. Caewyd y Canolfannau Ailgylchu ond mae Canolfan Ailgylchu Penhesgyn wedi ailagor i'r cyhoedd ers 2 Mehefin, gyda chynllun rheoli traffig mewn lle, a system i archebu slot drwy AppMon ymlaen llaw. Rhoddwyd trefniadau mewn lle i'r gwasanaeth ailddechrau casglu gwastraff swmpus o 26 Mai ymlaen.<br><br>**Priffyrdd**- Daeth holl waith cynnal a chadw priffyrdd i stop ar ddechrau'r argyfwng, ond bellach mae gwaith cynnal priffyrdd wedi ailddechrau, gydag is-gontractwyr wedi dychwelyd i weithio ar waith hanfodol megis lladd chwyn, gwaith draenio a thrwsio llwybrau.<br><br>**Eiddo**- Ymatebwyd i ganllawiau newydd drwy gau meysydd parcio arfordirol, llwybrau arfordirol, parciau a thraethau, gydag arwyddion yn cael eu harddangos i nodi hynny. Mae'r gwasanaeth yn asesu opsiynau posibl er mwyn gwneud adeilad y Pencadlys ac adeiladau eraill yn fwy diogel ac addas o ran sicrhau pellter cymdeithasol rhwng desgiau, arwyddion, systemau cerdded un ffordd ayyb. |
| **Themâu wrth Symud Ymlaen** |
| 1. Parhau i gynnal trefniadau casglu ac ailgylchu gwastraff gan gynnwys casglu gwastraff swmpus.<br>2. Monitro cynllun ailagor Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (cyfnod Adfer).<br>3. Parhau â'r strwythur o ailddechrau rhaglenni cyfalaf yn rhannol gan gadw at y Canllawiau Cenedlaethol. |

| Adnoddau |
| --- |
| **Diweddariad ar Gynnydd** |
| **Ceisiadau Grantiau-** Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu trefn newydd er mwyn prosesu a thalu ceisiadau grantiau busnes ar ran Llywodraeth Cymru, a hyd yn hyn £17.7m yw cyfanswm y taliadau sydd wedi'u gwneud i 1,518 o fusnesau ar yr Ynys. Mae cydweithio da wedi digwydd â'r Uned Datblygu Economaidd er mwyn ymgysylltu, cynghori, a rhannu gwybodaeth gyda busnesau lleol yn amserol ac yn effeithiol.<br><br>**Taliadau Uniongyrchol Cinio Ysgol am Ddim**- Mae'r gwasanaeth yn prosesu taliadau cinio ysgol am ddim yn wythnosol, gyda chyfartaledd wythnosol o 1,489 daliadau, gwerth £29,035 yn cael eu prosesu, yn ogystal â phecynnau bwyd i nifer fechan o blant. Mae cydweithio da yn digwydd gyda'r Gwasanaeth Dysgu.<br><br>**Gwaith arferol**- Mae gwaith arferol y gwasanaeth wedi parhau drwy gydol yr argyfwng gyda staff yn gweithio o adref yn prosesu taliadau'r dreth gyngor ayyb, ac nid oes newid sylweddol wedi bod i'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn sgil yr argyfwng. |

| Themâu wrth Symud Ymlaen |
|---|
| 1. Parhau i brosesu grantiau cefnogi busnes.<br>2. Parhau i ryddhau taliadau uniongyrchol ar gyfer prydau ysgol am ddim.<br>3. Monitro parhaus o gyflwr ariannol a balansau'r Cyngor. |

| Busnes y Cyngor a Chyfreithiol |
|---|
| **Diweddariad ar Gynnydd** |
| **Llyfrgell o Ganllawiau a Rheoliadau COVID-19**- Mae'r gwasanaeth wedi bod yn diweddaru Llyfrgell o Ganllawiau a Rheoliadau Llywodraeth Cymru, yn eu dadansoddi, ac yn ystyried eu goblygiadau ar wasanaethau'r Cyngor. Bu i'r gwasanaeth baratoi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau i gyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau o dan fesurau'r Ddeddf Coronafeirws.<br><br>**Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgorau**- Yn sgîl derbyn Rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gynnal cyfarfodydd Pwyllgorau o bell, mae Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor wedi ei chreu ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2021 sy'n adnabod pa eitemau statudol sy'n rhaid iddynt fynd gerbron un o Bwyllgorau'r Cyngor.<br><br>**Canllawiau ar Gyfarfodydd o Bell**- Mae'r canllawiau lleol wedi'u cyhoeddi, yn dilyn cyfnod o ymgynghori arnynt gyda Swyddogion ac Aelodau Etholedig. Yn unol â'r gofyniad statudol i barhau i gynnal rhai Pwyllgorau gorfodol o bell, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf rhithiol y Pwyllgor Cynllunio ar 20 Mai, 2020 yn dilyn hyfforddiant pwrpasol. Yn sgil y cyfarfod hwn, penderfynwyd parhau â'r arfer o gynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio yn fisol o fis Gorffennaf ymlaen.<br><br>**Cofnodi a Thracio Gweithredoedd**- Mae aelodau o staff Adran Busnes y Cyngor wedi bod yn cofnodi cyfarfodydd dyddiol yr EMRT a chyfarfodydd brys eraill sy'n cael eu cynnal mewn ymateb i'r argyfwng, ac yn tracio camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd ar feddalwedd 4action. |
| **Themâu wrth Symud Ymlaen** |
| 1. Parhau i weithredu'r Strategaeth Cynnal Cyfarfodydd o Bell.<br>2. Diweddaru a monitro'r Llyfrgell Canllawiau a Rheoliadau.<br>3. Parhau â'r broses o dracio a diweddaru camau gweithredu allweddol drwy feddalwedd 4action. |

| Adnoddau Dynol, Trawsnewid a Chyfathrebu |
|---|
| **Diweddariad ar Gynnydd** |
| **Strategaeth Gyfathrebu –** Gwaith effeithiol a rhagweithiol wrth lunio datganiadau i'r wasg yn rheolaidd ar amryw o agweddau a newidiadau i wasanaethau'r Cyngor yn sgil yr |

argyfwng presennol. Maent wedi rhannu negeseuon pwysig ynglŷn â'r angen a'r pwysigrwydd o aros adref, cadw draw o'r Ynys, a pharhau i amddiffyn y GIG ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â rhannu negeseuon cyrff eraill. Mae cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi cael eu defnyddio i'r eithaf, wrth gydweithio â phartneriaid i sicrhau bod negeseuon allweddol yn gyson ac yn amserol. Mae aelod o'r tîm wedi bod yn rhannu negeseuon a gwybodaeth bwysig ar MonFM yn ddyddiol hefyd, yn ogystal â chreu taflenni gwybodaeth i drigolion nad ydynt ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Trefniadau Adleoli Staff-** Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi bod yn casglu data staffio yn ddyddiol er mwyn gallu cynllunio'r gweithlu ac adleoli staff yn ôl y galw er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau rheng flaen hanfodol yn wyneb yr argyfwng. Maent wedi rhoi proses adleoli corfforaethol yn ei lle er mwyn paru sgiliau staff gyda gofynion gwasanaethau sydd dan bwysau. Mae cronfa ddata wedi'i sefydlu er mwyn adnabod sgiliau allweddol sydd eu hangen, gyda gwasanaethau unigol yn bwydo eu gofynion i'r gronfa ddata.

Mae modiwlau gofal wedi cael eu lansio ar *Learning Pool* ar gyfer staff fydd yn ymgymryd â gwaith gofal dros dro mewn ymateb i'r pwysau staffio yn y maes. Mae diweddariadau wythnosol yn cael eu hanfon i Reolwyr drwy Newyddlen Rheolwyr, a modiwlau a gwybodaeth am faterion iechyd a lles i holl staff y Cyngor yn cael eu rhannu er mwyn cefnogi staff.

**Casglu data**- Mae staff Trawsnewid wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth gasglu data o ran pob agwedd yn ymwneud â COVID-19, ac mae dangosfwrdd wedi'i ddatblygu i'r perwyl hwn.

**TG a Threfniadau Gweithio o Bell-** Mae'r Gwasanaeth wedi rhoi strwythurau a systemau yn eu lle er mwyn caniatáu i holl staff y Cyngor allu gweithio o bell, gan gynnwys meddalwedd Microsoft Teams sy'n gyfrwng i rannu gwybodaeth ymysg staff y Cyngor, dogfennau a chynnal cyfarfodydd rhithiol. Gyda gofyniad bellach i gynnal cyfarfodydd o Bwyllgorau o bell, mae'r tîm wedi bod yn arbrofi gyda'r agwedd o gynnig cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

**Cefnogi Plant Bregus**- Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n ddygn ar ddiweddaru gliniaduron y Cyngor nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach er mwyn i blant nad oes ganddynt fynediad at offer TG yn eu cartrefi allu cwblhau gwaith cartref a pharhau â'u haddysg o bell.

**System Ar-lein y Ganolfan Ailgylchu**- Mae system ar-lein wedi cael ei datblygu er mwyn trefnu slot yn y ganolfan ailgylchu (Penhesgyn) sy'n gwneud ailagor y ganolfan yn ddiogel ac effeithiol yn bosibl.

**Themâu wrth Symud Ymlaen:**

1. Parhau i weithredu Strategaeth Gyfathrebu gadarn yn fewnol ac yn allanol.
2. Datblygiad parhaus o is-adeiladwaith TG y Cyngor er mwyn cwrdd ag anghenion busnes y Cyngor.
3. Gwytnwch a chapasiti y gwasanaeth TG.
4. Parhau â'r broses o adleoli staff yn ôl yr angen er mwyn lliniaru unrhyw bwysau ar wasanaethau rheng flaen y Cyngor.

| Rheoleiddio, Datblygiad Economaidd, a Gwarchod y Cyhoedd |
|---|
| **Diweddariad ar Gynnydd** |

**Effeithiau economaidd-** Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cysylltu'n weithgar â busnesau lleol i ddeall yn well y materion a'r heriau a wynebir ac i gynnig cymorth a chyfarwyddyd. Defnyddiwyd y wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd, i lywio a dylanwadu ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r DU i sicrhau bod dealltwriaeth lawn o fusnesau Ynys Môn a bod dulliau cefnogi cenedlaethol yn cael eu cynllunio a'u mireinio i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd Rhanbarthol wythnosol ac yn paratoi adroddiadau effaith economaidd wythnosol i sicrhau bod y Cyngor yn deall ac yn ymwybodol o natur a graddfa'r effeithiau economaidd-gymdeithasol y pandemig – yn ogystal â nodi blaenoriaethau y dyldi canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod adfer.

**Cefnogi Busnesau**- Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi busnesau sydd ar gau o ganlyniad i'r argyfwng, ac yn prosesu a dyrannu grantiau Arfor, Covid-19, a'r Gronfa Gwydnwch Economaidd i fusnesau cymwys.

**Porthladd Caergybi-** Lleisiwyd pryderon ynghylch hyfywedd masnachol y cwmnïau fferi yn ystod y pandemig, yn arbennig effaith gostyngiad mewn lefelau cludiant a nifer y teithiau, a'r effeithiau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar gyflogaeth leol. Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Gwasanaeth wedi parhau i gynnal amrywiol drafodaethau gyda phrif randdeiliaid i sicrhau bod pwysigrwydd y Porthladd yn y tymor hir a byr yn cael ei gydnabod a gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth i geisio sicrhau pecyn Cymorth priodol gan Lywodraeth y DU.

**Cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a'r Ysbyty Maes**- Mae'r gwasanaeth wedi cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ail-leoli gwasanaethau dros dro mewn ymateb i'r argyfwng, gan gynnwys adran Ffisiotherapi Ysbyty Penrhos Stanley i Ysbyty Cefni, a Gwasanaethau Bydwragedd i Ganolfannau Hamdden Plas Arthur a Chaergybi. Mae'r gwasanaeth wedi chwarae rhan greiddiol wrth sefydlu'r Ysbyty Enfys.

**Tîm Olrhain Cyswllt**- Mae'r gwasanaeth yn ymwneud â'r ymdrechion lleol a rhanbarthol i sefydlu tîm olrhain cyswllt ac yn cymryd rhan mewn peilot cenedlaethol ochr yn ochr ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cyfyngu ar ledaeniad y firws, gyda'r tîm yn weithredol ers 26 Mai.

**Cynyddu Capasiti'r Gwasanaeth Cofrestryddion**- Yn sgîl galw cynyddol parhaus ar y Gwasanaeth Cofrestru, mae capasiti ychwanegol yn cael ei greu drwy'r broses adleoli er mwyn ymateb i'r galw hwn, gyda hyfforddiant pwrpasol yn cael ei ddarparu i'r staff hyn.

**Cydymffurfiaeth â Chanllawiau**- Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau a'r rheoliadau newydd yn sgîl y Ddeddf Coronafeirws, ac wedi bod yn ymgymryd â rôl gorfodi o ran cau adeiladau a lleoliadau, ac yn delio â nifer o alwadau a chwynion am fusnesau neu leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y gwasanaeth â Heddlu Gogledd Cymru, ac maent yn monitro'r sefyllfa'n ofalus ac yn barhaus. Bydd angen i'r gwasanaeth ymgymryd â gwaith monitro cadarn i sicrhau bod adnoddau ar gael i ymateb i ymchwiliadau rheoli *outbreak* yn ogystal â llacio rheoliadau cyfyngiadau symud *(lockdown)* a allai greu rhagor o waith i'r tîm.

**Iechyd yr Amgylchedd**- Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd wedi bod yn cysylltu'n agos iawn â Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i fonitro unrhyw

| |
|---|
| achosion a amheuir ac achosion wedi'u cadarnhau mewn Cartrefi Preswyl. Mae'r gwasanaeth wedi bod darparu hyfforddiant rheoli haint i Gartrefi Preswyl ar yr Ynys, ac wedi bod yn gweithio'n agos â Chartrefi Gofal penodol sydd wedi profi achosion o'r firws er mwyn ceisio cyfyngu ei ledaeniad.<br><br>**Marwolaethau Niferus** – Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd wedi cyfrannu at ddatblygiad cynllun rhanbarthol ar gyfer trefniadau o ran marwolaethau niferus. Yn benodol, mae'r swyddogaeth wedi cydweithio ag awdurdodau eraill a gwasanaethu brys i ddylunio ac adeiladu marwdy dros dro ym Mochdre ar gyfer y rhanbarth. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos ag ymgymerwyr angladdau lleol er mwyn paratoi gofynion a thrafod pryderon o ran capasiti, staffio a chyflenwadau PPE. |
| **Themâu wrth Symud Ymlaen** |
| 1. Sicrhau bod cynlluniau adfer cenedlaethol a rhanbarthol yn galluogi busnesau ac economi'r Ynys i ffynnu unwaith eto gan gynnwys ymyraethau cenedlaethol ar gyfer diogelu Porthladd Caergybi.<br>2. Parhau i ddatblygu'r trefniadau olrhain cysylltiadau yn unol â'r disgwyliadau cenedlaethol a'r fframwaith rhanbarthol.<br>3. Cynnal capasiti digonol yn y gwasanaeth Cofrestryddion i fodloni anghenion busnes.<br>4. Sicrhau trefniadau gwydn wrth baratoi mannau cyhoeddus yn sgil llacio'r cyfyngiadau symud.<br>5. Parhau i addasu trefniadau mewnol i gwrdd â gofynion gorfodaeth Covid-19.<br>6. Sicrhau capasiti ac arbenigedd staffio digonol ar gyfer Tîm Iechyd yr Amgylchedd. |

## CRYNODEB O'R STRATEGAETH AR GYFER CYFARFODYDD PWYLLGOR HYD AT 30 EBRILL 2021

| PWYLLGOR (Fel y nodir ef yn y Cyfansoddiad) | PENDERFYNIAD YR ARWEINYDDION GRŴP AR 12.05.2020 |
|---|---|
| **Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion** | - Cyfarfodydd i'w trefnu, trwy fynychu o bell, ar sail fisol yn dechrau ym mis Gorffennaf, 2020. |
| **Pwyllgor Apeliadau** | - Cyfarfodydd i'w cynnal, trwy fynychu o bell, dim ond pan fo angen |
| **Pwyllgor Apeliadau Ysgol - Gwahardd a Derbyn Disgyblion** | - Cyfarfodydd i'w cynnal dim ond pan fo angen<br>- Nid yw darpariaethau mynychu o bell yn berthnasol ar hyn o bryd. Gall hyn newid (os bydd Gweinidogion Cymru yn pasio Rheoliadau pellach). |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol - Pwyllgor Apeliadau** | - Cyfarfodydd i'w cynnal, trwy fynychu o bell, dim ond pan fo angen |
| **Pwyllgor Safonau** | - **Un cyfarfod cyffredin i'w gynnal, trwy fynychu o bell, cyn 30 Ebrill 2021**<br>- Os cyfeirir achos i'r Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, trefnir cyfarfodydd<br>- Os derbynnir cais am ganiatâd arbennig, trefnir cyfarfod(ydd)-<br>- Adroddiad Blynyddol 2019/2020 i'w gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor (8 Medi 2020) |
| **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** | - **Un cyfarfod cyffredin i'w gynnal, trwy fynychu o bell, cyn 30 Ebrill 2021, i gynnwys, ar y lleiaf, yr adroddiad blynyddol gan y gwasanaeth archwilio mewnol**<br>- Cyfarfodydd pellach i'w trefnu yn unol â gofynion y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, i ddelio â materion gan gynnwys**:**<br>▪ Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo<br>▪ Gwybodaeth i'w chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>▪ Côd Ymarfer Rheoli'r Trysorlys<br>▪ Adolygiad o'r Polisi Rheoli'r Trysorlys<br>- Adroddiad Blynyddol 2019/2020 i'w gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor (ar 8 Medi 2020) |
| **Pwyllgor Penodi** | - Cyfarfodydd i'w cynnal, trwy fynychu o bell, dim ond pan fo angen |
| **Pwyllgor Trwyddedu** | - Cyfarfodydd i'w cynnal, trwy fynychu o bell, dim ond pan fo angen |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** | - Cyfarfodydd i'w cytuno â Chyngor Sir Gwynedd. Yn cael ei drafod ar hyn o bryd rhwng swyddogion |

CC-022618-MY/567417

## CRYNODEB O'R STRATEGAETH AR GYFER CYFARFODYDD PWYLLGOR HYD AT 30 EBRILL 2021

| PWYLLGOR (Fel y nodir ef yn y Cyfansoddiad) | PENDERFYNIAD YR ARWEINYDDION GRŴP AR 12.05.2020 |
|---|---|
| **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** | - **Un cyfarfod cyffredin i'w gynnal, trwy fynychu o bell, cyn 30 Ebrill 2021**<br>- Adroddiad Blynyddol 2019/2020 i'w gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor (8 Medi 2020) |
| **Pwyllgor Ymchwilio** | - Cyfarfodydd i'w cynnal, trwy fynychu o bell, dim ond pan fo angen |
| **Pwyllgor Disgyblu** | - Cyfarfodydd i'w cynnal, trwy fynychu o bell, dim ond pan fo angen |
| **Pwyllgorau Sgriwtini** | - Sylwadau cyffredinol:<br>Mae'r drefn galw i mewn, a'r hawl i alw cyfarfodydd arbennig, yn aros yr un fath, felly mae'n bosib y bydd angen cyfarfodydd er mwyn delio â cheisiadau o'r fath. |
| **Pwyllgor Sgriwtini - Corfforaethol** | - **Gosod y Gyllideb Gorfforaethol** - amserlen i'w threfnu yn unol â'r gofynion Cyfansoddiadol ac yn ddarostyngedig i gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>- Unrhyw gyfarfodydd ychwanegol i'w trefnu, trwy fynychu o bell, yn ddarostyngedig i ofynion y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor mewn perthynas â'i raglen waith, ac unrhyw ganllawiau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a gall gynnwys (nid yn ofyn statudol ar gyfer y Pwyllgor hwn ond rhaid iddynt fynd i'r Cyngor llawn):<br>o Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol (cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol)<br>o Adroddiad Blynyddol ar Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol) |
| **Pwyllgor Sgriwtini – Partneriaeth ac Adfywio** | - **Eistedd fel Panel Trosedd ac Anhrefn** - i adolygu / craffu ar benderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd gan awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â'u swyddogaethau trosedd ac anhrefn - **cyn 12 Tachwedd 2020**<br>- **Adroddiad Cynnydd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - i'w ystyried cyn 11 Mawrth 2021**<br>- **Adroddiad Blynyddol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - i'w ystyried cyn 30 Ebrill 2021**<br>- Unrhyw gyfarfodydd ychwanegol i'w trefnu, trwy fynychu o bell, yn ddarostyngedig i ofynion y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor mewn perthynas â'i raglen waith, ac unrhyw ganllawiau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a gall gynnwys (nid |

## CRYNODEB O'R STRATEGAETH AR GYFER CYFARFODYDD PWYLLGOR HYD AT 30 EBRILL 2021

| PWYLLGOR (Fel y nodir ef yn y Cyfansoddiad) | PENDERFYNIAD YR ARWEINYDDION GRŴP AR 12.05.2020 |
|---|---|
| | yn ofyn statudol ar gyfer y Pwyllgor hwn ond rhaid iddynt fynd i'r Cyngor llawn**)**<br>○ Adroddiad blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (cyn 11 Gorffennaf 2020)<br>○ Adroddiad blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (cyn 4 Chwefror 2021) |

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad: Rhoi estyniad I gontract cyfredol am 12 mispellach /Title of Report: Extending an existing contract for a further 12 months)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14, 16 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14, 16 Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>[un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Bydd y cyhoedd yn elwa o dryloywder mewn perthynas â materion dan gontract sy'n ymwneud â darparu addysg.<br><br>The public will benefit from transparency in relation to contracted matters involving education provision. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gan fod yr adroddiad yn cadw gwybodaeth am agweddau ariannol a masnachol y cytundeb yn y dyfodol agos, byddai manylion y darparwr presennol yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd. Gallai manylion y cytundeb cyfredol a nodir yn yr adroddiad gael effaith ar y Cyngor a'r darparwr ar gyfer cyfleoedd tendro a allai godi yn y dyfodol.<br><br>Mae goblygiadau i'r adroddiad a phe bai'r wybodaeth ariannol a masnachol, ynghyd â'r cyngor cyfreithiol a hysbyswyd, yn cael ei datgelu i'r cyhoedd, yna gallai roi'r Cyngor mewn perygl o her gyfreithiol.<br><br>As the report holds information regarding both financial and commercial aspects of the agreement in the near future, the details of the current provider would be shared with the public. Details of the current agreement that are noted in the report could have an impact on both the Council and provider for future tender opportunities that may arise.<br><br>The report has implications and if the financial and commercial information, along with the legal advice notified, was to be revealed to the public, then it could expose the Council to a risk of a legal challenge. |

Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Yn rhinwed paragraff(au) 14, 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank